Rhif ymchwil gymdeithasol: 13/2026

Dyddiad cyhoeddi: 04/02/2026

# Gwerthusiad cenedlaethol o Ddechrau'n Deg – Rhan Ansoddol Blwyddyn 1

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-006-0

Teitl: Gwerthusiad cenedlaethol o Ddechrau'n Deg: – rhan ansoddol blwyddyn 1

Is-deitl: Prif adroddiad

Awduron: Alma Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2026). Gwerthusiad cenedlaethol o Ddechrau'n Deg: rhan ansoddol blwyddyn 1. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 13/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-cenedlaethol-o-dechraun-deg-blwyddyn-1

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Victoria Seddon

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd
CF10 3NQ

Ymchwil.PlantATheuluoedd@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Gwerthusiad cenedlaethol o Ddechrau'n Deg – Rhan Ansoddol Blwyddyn 1 ........................1

Rhestr o dablau.........................................................................................................3

Rhestr Termau ..........................................................................................................4

1. Cyflwyniad a chefndir ...........................................................................................5

1.1 Strwythur yr adroddiad ........................................................................................7

2. Methodoleg.............................................................................................................8

2.1 Trosolwg o'r fethodoleg.........................................................................................8

2.2 Methodoleg fanwl ..................................................................................................8

2.2.1 Cam cwmpasu ....................................................................................................8
2.2.2 Cyfweliadau ag awdurdodau lleol.......................................................................8
2.2.3 Cyfweliadau â theuluoedd Dechrau'n Deg a theuluoedd cymharu...............9
2.2.4 Samplu ................................................................................................................9
2.2.5 Dadansoddi .......................................................................................................10

2.3 Cyfyngiadau methodolegol...................................................................................11

3. Canfyddiadau ........................................................................................................12

3.1 Gweithredu Dechrau'n Deg – safbwyntiau awdurdodau lleol .............................12

3.1.1 Addasiadau a wnaed gan awdurdodau lleol i fodloni anghenion lleol.......12
3.1.2 Defnyddio allgymorth...........................................................................................14
3.1.3 Gorgyffwrdd â rhaglenni eraill a phontio rhyngddynt ...................................15
3.1.4 Ymgysylltu â rhieni ac annog defnydd o Ddechrau'n Deg ........................16
3.1.5 Yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ac enghreifftiau o arfer gorau ...............19
3.1.6 Heriau gweithredu ............................................................................................22

3.2 Gweithredu Dechrau'n Deg – safbwyntiau teuluoedd Dechrau'n Deg ................28

3.2.1 Ymwybyddiaeth o'r rhaglen a phenderfynu ymgysylltu ..............................28
3.2.2 Disgwyliadau cychwynnol ..................................................................................31
3.2.3 Bodlonrwydd â'r rhaglen ..................................................................................34
3.2.4 Rhwystrau a heriau ..........................................................................................37
3.2.5 Awgrymiadau ar gyfer gwella ............................................................................43
3.2.6 Darpariaeth Gymraeg.........................................................................................47
3.2.7 Darparu gwasanaethau eraill ............................................................................48

3.3 Effaith Dechrau'n Deg ar blant a'u teuluoedd.......................................................48

3.3.1 Gofal plant...........................................................................................................49
3.3.2 Mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd..............................................................50
3.3.3 Cymorth magu plant...........................................................................................51
3.3.4 Datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu .............................................................52
3.3.5 Edrych tuag at y dyfodol: Effeithiau Dechrau'n Deg ar deuluoedd yn y dyfodol....................................................................................................................54

3.3.6 Teuluoedd cymharu ........................................................................54
4. Casgliadau ........................................................................56
5. Atodiad A ........................................................................58

## Rhestr o dablau

Tabl 1: Nodweddion demograffig teuluoedd a samplwyd ar gyfer cyfweliadau ar gyfer blwyddyn 1 o waith maes Gwerthusiad Cenedlaethol Dechrau'n Deg, Mehefin 2025 i Awst 2025 ..... 58

# Rhestr Termau

**ADY**

Anghenion dysgu ychwanegol

**CCG**

Grant plant a chymunedau

**FRAIT**

Offeryn asesu gwydnwch teulu

**LSOA**

Ardal gynnyrch ehangach is

**MALIC**

Mynegai amddifadedd lluosog Cymru

**SLC**

Datblygu lleferydd, iaith, a chyfathrebu

**SAIL**

Cyswllt diogel gwybodaeth ddienw

**SLT**

Therapi lleferydd ac iaith

## 1. Cyflwyniad a chefndir

Mae lentyndod cynnar yn gyfnod allweddol sy’n dylanwadu ar ddatblygiad plant a’u canlyniadau yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu teuluoedd a gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd plant mewn bywyd trwy liniaru effaith tlodi ar eu datblygiad cynnar. Mae’r rhaglen Dechrau’n Deg yn ceisio datblygu’r agenda hon trwy gynorthwyo teuluoedd â phlant iau na 4 oed sy’n byw yn rhai o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru [troednodyn 1].

Amcan cyffredinol Dechrau’n Deg yw gwella canlyniadau datblygiadol, codi dyheadau, a lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd, addysg, a chyfranogiad cymdeithasol ar gyfer plant sy’n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Cyflwynir y rhaglen gan awdurdodau lleol, a rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd iddynt i ddarparu allgymorth i deuluoedd y mae arnynt angen cymorth ychwanegol sy’n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau’n Deg.

Lansiwyd y rhaglen gyntaf o 2006 i 2007, ac mae ei chynnig craidd yn cynnwys 4 elfen:

1. gofal plant rhan-amser, o ansawdd uchel, wedi’i ariannu ar gyfer plant dwyflwydd oed [troednodyn 2], a gynigir am 12.5 awr yr wythnos ar draws 39 wythnos bob blwyddyn
    - fe ddylai hefyd fod o leiaf 15 o sesiynau gofal plant i’r teulu yn ystod gwyliau’r ysgol
2. mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd
    - mae’n rhaid bod o leiaf un ymwelydd iechyd cyfwerth ag amser llawn am bob 110 o blant hyd at 4 oed, sy’n hwyluso cymorth dwys yn y cartref ac asesu iechyd a lles y plentyn a’r teulu yn barhaus
3. mynediad at gymorth magu plant o’r cyfnod amenedigol hyd at 4 oed, a ddarperir trwy sesiynau grŵp ac un i un
    - mae’n rhaid i hyn gael ei gynnig o leiaf unwaith y flwyddyn, a dylid rhoi gwybod i rieni am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn lleol
    - fe ddylai’r cymorth gael ei ategu gan gymorth perthnasoedd, ymyrraeth gynnar, rhianta cadarnhaol, a damcaniaethau datblygiad plant wedi’u seilio ar dystiolaeth

Troednodiadau

[1] Rhaglen wedi’i thargedu’n ddaearyddol yw Dechrau’n Deg, ac roedd yr ardaloedd difreintiedig wedi’u seilio’n wreiddiol ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth benderfynu ar yr ardaloedd i’w targedu.

[2] Mae plant yn gymwys o’r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn ddwyflwydd oed hyd nes y tymor ar ôl iddynt droi’n 3 oed.

4. cymorth datblygu lleferydd, iaith, a chyfathrebu, gan gynnwys mynediad rheolaidd at grwpiau iaith a chwarae a, phan fydd angen, atgyfeiriadau ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu gan therapyddion lleferydd ac iaith yn seiliedig ar asesiad ac angen.

Yn 2021, lluniodd Llywodraeth Cymru Gytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, a oedd ar waith o fis Rhagfyr 2021 tan fis Mai 2024. Roedd y cytundeb hwn yn cynnwys ymrwymiad i ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cyflawnwyd yr estyniad hwn trwy gyflwyno'r rhaglen Dechrau'n Deg yn raddol. Mae amcan y rhaglen a'i hestyniad parhaus yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cenedlaethol a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu ac ymrwymiadau ehangach i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Roedd Cam 1 yr ehangiad (mis Medi 2022 i fis Mehefin 2023) wedi ymestyn pob un o 4 elfen Dechrau'n Deg i ardaloedd newydd, gan dargedu cymunedau â'r lefelau uchaf o amddifadedd nad oeddent wedi'u cyrraedd eto a chynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a oedd ar gael. Rhagorodd y cam hwn ar ei darged o 2,500 o gynigion, a chynigiwyd Dechrau'n Deg i gyfanswm o 3,178 o blant ychwanegol. Mae Cam 2 (a gyflwynwyd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025) a Cham 3 (a gyflwynwyd o fis Ebrill 2025) yn ceisio sicrhau bod yr elfen gofal plant rhan-amser a ariennir o Ddechrau'n Deg ar gael i bob plentyn 2 a 3 blwydd oed yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod cyflwyno ar gyfer Cam 2, gwnaed dros 13,400 o gynigion gofal plant, gan ragori ar y targed o 10,441 ar gyfer y cyfnod. Disgwylir i Gam 3, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, gynnig lleoedd gofal plant i fwy na 4,000 o blant ychwanegol yn genedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu buddsoddiad o £7.5m, £25.95m, a £25m y flwyddyn ar draws Camau 1, 2, a 3, yn y drefn honno.

Ers ei chyflwyno, mae Dechrau'n Deg wedi bod yn destun cryn dipyn o ymchwil ansoddol a meintiol, sydd wedi rhoi gwybodaeth werthfawr am sut mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno a sut mae'n cael ei phrofi gan deuluoedd ledled Cymru. Defnyddiodd yr asesiad ansoddol cenedlaethol mawr diweddaraf, a gwblhawyd yn 2018, gyfweliadau manwl â theuluoedd Dechrau'n Deg ochr yn ochr â theuluoedd cymharu mewn ardaloedd lle na chynigir y rhaglen, a roddodd wybodaeth fanwl am brofiadau bywyd rhieni, ymgysylltiad â gwasanaethau, a'r effeithiau canfyddedig ar ddatblygiad plant a lles y teulu. Ochr yn ochr ag astudiaethau achos a gwerthusiadau dulliau cymysg, mae ymchwil wedi amlygu safbwyntiau teuluoedd ar welliannau i sgiliau ieithyddol, parodrwydd am yr ysgol, hyder rhieni, a chymorth amlasiantaethol.

Fodd bynnag, mae her barhaus wedi cyfyngu ar gynnydd: mae gwaith blaenorol wedi dibynnu'n bennaf ar ddata ar lefel ardal a data hunanadroddedig, sy'n cyfyngu ar y cyfle i gynnal asesiad effaith ansoddol cadarn a systematig. Pwysleisiodd asesiad o werthusadwyedd a gynhaliwyd yn 2016 fod angen dybryd am gasglu data gan unigolion i allu dadansoddi'r canlyniadau'n fwy ystyrlon. Mae hyn yn bosibl bellach o ganlyniad i ddatblygiadau diweddar gan fod awdurdodau lleol wedi dechrau lanlwytho data Dechrau'n Deg ar lefel unigolion i'r banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL). Bydd hyn yn golygu y gellir cysylltu cyfranogiad yn y rhaglen ag ystod eang o setiau data iechyd ac addysg, ymhlith eraill.

Yn erbyn y cefndir hwn, dyluniwyd y gwerthusiad presennol gyda dau brif nod. Yn gyntaf, mae'n ceisio cynnig asesiad ansoddol manwl a chyfredol o sut mae Dechrau'n Deg yn cael ei gweithredu a'i heffeithiau ar deuluoedd. Yn ail, bydd yn canolbwyntio ar amlygu a chysylltu setiau data gweinyddol perthnasol o fewn SAIL ac archwilio newidynnau allweddol i dreialu asesiad effaith, gyda'r nod tymor hwy o gynnal gwerthusiad meintiol llawn o Ddechrau'n Deg ar raddfa genedlaethol. Dylid nodi bod yr adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o ran ansoddol y gwerthusiad (Blwyddyn 1), tra bydd camau dilynol yn defnyddio data gweinyddol cysylltiedig i ddarparu tystiolaeth feintiol.

## 1.1 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- mae pennod 2 yn amlinellu'r dull methodolegol, gan gynnwys dyluniad y gwerthusiad, yr ymchwil ansoddol a gynhaliwyd ym Mlwyddyn 1, a chyfyngiadau'r astudiaeth
- mae pennod 3 yn cyflwyno'r canfyddiadau o ran ansoddol yr ymchwil mae'n defnyddio safbwyntiau gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol, teuluoedd Dechrau'n Deg, a theuluoedd cymharu, gan ganolbwyntio ar weithredu'r rhaglen, profiadau o ddarparu gwasanaethau, ac effeithiau canfyddedig
- mae pennod 4 yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r ymchwil, gan fyfyrio ar gryfderau, heriau, a goblygiadau Dechrau'n Deg wrth iddi barhau i ehangu

# 2. Methodoleg

## 2.1 Trosolwg o’r fethodoleg

Dyluniwyd y gwerthusiad hwn o Ddechrau’n Deg i ddarparu’r asesiad mwyaf cynhwysfawr o’r rhaglen hyd yma, gan gyfuno dulliau ansoddol a meintiol ar draws cyfnod o dair blynedd (2024 i 2027).

Ar yr ochr feintiol, bydd yr ymchwil yn defnyddio data ar lefel unigolion a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a gofnodwyd yn y banc data SAIL. Bydd cysylltu’r wybodaeth hon â setiau data gweinyddol ehangach yn golygu y gellir cynnal dadansoddiad cenedlaethol cadarn o effaith Dechrau’n Deg ar ganlyniadau allweddol i blant a theuluoedd.

Ar yr ochr ansoddol, mae’r ymchwil eisoes wedi ymgysylltu ag ystod eang o gyfranogwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, teuluoedd sy’n defnyddio’r rhaglen, a theuluoedd â phroffiliau tebyg mewn ardaloedd lle na chynigir Dechrau’n Deg (teuluoedd ‘cymharu’) a darparwyr Dechrau’n Deg. Ymgysylltir â’r un teuluoedd Dechrau’n Deg a chymharu eto, lle y bo’n bosibl, mewn tonnau o’r gwaith maes ansoddol yn y dyfodol. Bydd y rhan hon yn cynhyrchu gwybodaeth gyfoethog am sut mae Dechrau’n Deg yn cael ei chyflwyno, sut mae’n cael ei phrofi’n ymarferol, a beth yw’r canfyddiadau o’i heffaith.

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno’r fethodoleg a’r canfyddiadau o flwyddyn gyntaf y gwaith ymchwil, gan ganolbwyntio ar y rhan ansoddol. Roedd gweithgareddau blwyddyn 1 yn cynnwys cyfweliadau â (i) chynrychiolwyr yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, (ii) teuluoedd Dechrau’n Deg, a (iii) theuluoedd cymharu.

## 2.2 Methodoleg fanwl

### 2.2.1 Cam cwmpasu

Dechreuodd y gwaith ymchwil gyda cham cwmpasu a ddyluniwyd i ennill dealltwriaeth drylwyr o’r rhaglen Dechrau’n Deg, ei chyd-destun polisi, a’r sylfaen dystiolaeth hyd yma. Roedd y cam hwn yn allweddol i ffurfio camau dilynol yr astudiaeth a llywio’r broses o ddatblygu deunyddiau ar gyfer gwaith maes. Roedd y gweithgareddau’n cynnwys adolygiad desg o ddogfennau sydd eisoes yn bodoli, adroddiadau gwerthuso cyhoeddedig, a phapurau polisi, ochr yn ochr â thrafodaethau cwmpasu gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru.

### 2.2.2 Cyfweliadau ag awdurdodau lleol

Yn dilyn y cam cwmpasu, cynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr timau Dechrau’n Deg ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Fel y cyfryw, cynhaliwyd 22 o gyfweliadau ar sail un i un neu mewn grŵp, a chyfwelwyd 42 o gynrychiolwyr i gyd. Defnyddiwyd dull cyfweld lled-strwythuredig i ganiatáu ar gyfer cysondeb ar draws cyfweliadau, ar yr un pryd â rhoi’r hyblygrwydd i gael gwybod am fân wahaniaethau lleol. Roedd y pynciau yr ymdriniwyd â nhw yn cynnwys gweithredu Dechrau’n Deg hyd yma, meini prawf cymhwysedd lleol, lefelau defnydd, dulliau allgymorth, a phrofiadau o ehangu’r rhaglen. Gofynnwyd i’r awdurdodau lleol hefyd fyfyrio ar enghreifftiau o arfer gorau, heriau a wynebwyd, a’u safbwyntiau ar effaith y rhaglen ar blant a theuluoedd yn eu hardaloedd.

### 2.2.3 Cyfweliadau â theuluoedd Dechrau'n Deg a theuluoedd cymharu

Cam nesaf yr ymchwil oedd ymgysylltu â theuluoedd, ac adeiladodd ein methodoleg ar y dull a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil ansoddol a gwblhawyd yn 2018. Ar y cam hwn, cyfwelwyd 63 o deuluoedd Dechrau'n Deg ac 8 teulu cymharu ledled Cymru. Bwriedir i'r cyfweliadau hyn fod yn hydredol, sy'n golygu y byddwn yn ailwahodd yr un teuluoedd i gymryd rhan mewn cyfweliad yn 2026 a 2027. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o sut gallai safbwyntiau newid wrth i amser fynd heibio, yn ogystal ag unrhyw effaith hydredol y gallai'r rhaglen ei chael.

Recriwtiwyd teuluoedd gan ddefnyddio ffurflen mynegi diddordeb a rannwyd gan awdurdodau lleol ar ran y tîm gwerthuso. Lluniwyd y ffurflen i gasglu gwybodaeth ddemograffig a chefndir allweddol, a ddefnyddiwyd i ddewis teuluoedd i'w cyfweld. Gwnaed hyn i sicrhau y byddai'r sampl o deuluoedd a gyfwelwyd yn adlewyrchu profiadau amrywiol teuluoedd Dechrau'n Deg. Rhoddir mwy o fanylion am samplu isod. Yn y ffurflen, gofynnwyd am gydsyniad i ailgysylltu â theuluoedd yn ystod y ddwy don nesaf o waith maes.

Lluniwyd yr holl gyfweliadau â theuluoedd i fod yn sgyrsiau byr, lled-strwythuredig, a gynhaliwyd o bell naill ai trwy Microsoft Teams neu ar y ffôn, yn dibynnu ar ddewis y cyfranogwr. Cafodd pob teulu a gymerodd ran daleb £10 i ddiolch iddynt am eu hamser. Rhoddwyd gwybod i'r cyfweleion hefyd y byddent yn cael yr un swm am gymryd rhan mewn cyfweliad arall yn ystod y ddwy don ddilynol o waith maes. At hynny, dywedwyd wrth y cyfweleion pe byddent yn cymryd rhan yn y tri chyfweliad, y byddent yn cael £20 arall ar ben y cymhelliad £10 fesul cyfweliad. Er mwyn sicrhau hygyrchedd a chynwysoldeb, gallai'r teuluoedd gymryd rhan yn Gymraeg neu Saesneg, a nodi gofynion hygyrchedd penodol trwy'r arolwg sgrinio.

Archwiliodd trafodaethau â theuluoedd Dechrau'n Deg eu profiadau o gael at wasanaethau Dechrau'n Deg. Roedd hyn yn cynnwys eu rhesymau dros ymgysylltu â'r gwasanaeth, eu disgwyliadau cychwynnol a ph'un a fodlonwyd y rheiny, eu boddhad cyffredinol, ac unrhyw heriau neu rwystrau yr oeddent wedi'u hwynebu. Myfyriodd y teuluoedd hefyd ar bwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a ph'un a oeddent yn credu bod y cymorth wedi gwneud gwahaniaeth i'w teulu, gan esbonio sut oedd wedi effeithio arnynt.

O ran y teuluoedd cymharu, canolbwyntiodd y trafodaethau ar eu defnydd o wasanaethau cymorth i deuluoedd yn fwy cyffredinol, gan gynnwys eu rhesymau dros gael at y gwasanaethau hyn, eu lefel boddhad, ac unrhyw heriau yr oeddent wedi'u hwynebu. Gofynnwyd i'r teuluoedd hefyd ynglŷn â phwysigrwydd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, p'un a oeddent yn credu bod y cymorth presennol wedi gwneud gwahaniaeth i'w teulu, a pham. Yn ogystal, gwahoddwyd y teuluoedd cymharu i rannu a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cael at wasanaethau cymorth ychwanegol, a sut gallai darpariaeth o'r fath fod o fudd iddynt.

### 2.2.4 Samplu

Datblygwyd fframwaith samplu strwythuredig i arwain y broses o ddewis teuluoedd Dechrau'n Deg, gan osod lleiafswm targedau cyfweld ar draws categorïau allweddol. Lluniwyd y fframwaith hwn i sicrhau amrywiaeth o fewn y sampl, gan gyfleu amrywiadau mewn agweddau, gan gynnwys nodweddion demograffig, lleoliad daearyddol, a lefelau

ymgysylltu â gwasanaethau. Bwriadwyd i'r dull hwn roi darlun cytbwys a chynrychioliadol o wahanol gyd-destunau a phrofiadau teuluol. Roedd y categorïau samplu'n cynnwys:

- ymgysylltu â'r rhaglen: cynrychiolaeth gan deuluoedd sy'n defnyddio pob un o 4 gwasanaeth craidd Dechrau'n Deg
- lefel defnydd o wasanaethau: cynrychiolaeth gan deuluoedd sy'n defnyddio gwahanol lefelau gwasanaethau, hynny yw, rhwng 1 a phob un o'r 4 o wasanaethau Dechrau'n Deg craidd
- cymhwysedd ar gyfer Dechrau'n Deg: cynrychiolaeth gan deuluoedd sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg ym mhob un o 3 blynedd y gwerthusiad
- gwasgariad daearyddol: cynrychiolaeth gan deuluoedd ledled Cymru
- natur wledig: cynrychiolaeth gan deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig
- oedran rhieni: cynrychiolaeth gan deuluoedd sy'n cynnwys rhiant 24 oed ac iau
- iaith: cynrychiolaeth gan deuluoedd y mae'r Gymraeg neu iaith arall heblaw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt
- anghenion ychwanegol: cynrychiolaeth gan deuluoedd sy'n cynnwys rhieni a/neu blant sydd ag anghenion ychwanegol a amheuir neu a gadarnhawyd

Gellir gweld y targedau penodol a'r ymatebion ar gyfer pob categori samplu yn Atodiad A. Cyrhaeddwyd pob targed heblaw am oedran rhieni ac iaith, gan nad oedd unrhyw deuluoedd sy'n cynnwys rhiant 24 oed ac iau wedi cofrestru, ac ychydig iawn o deuluoedd nad yw'r Saesneg yn brif iaith iddynt a gofrestrodd. Ni ddilynwyd fframwaith samplu strwythuredig i amlygu a gwahodd teuluoedd cymharu, o ystyried y nifer fach o gyfweliadau a oedd i'w cynnal gyda'r grŵp hwn.

Cawsom gyfanswm o 268 o ymatebion i'r ffurflen mynegi diddordeb. O'r rhain, roedd 49 yn deuluoedd cymharu, ac roedd 219 yn deuluoedd Dechrau'n Deg. Gan fod gorgyffyrddiad rhwng yr adeg pan oedd y ffurflen yn fyw a chynnal y cyfweliadau, gwahoddwyd yr holl deuluoedd mewn grwpiau. O ran teuluoedd Dechrau'n Deg, cyn cyrraedd y targedau, amlygwyd y teuluoedd a oedd yn bodloni dau neu fwy o'r meini prawf samplu ar gyfer pob grŵp. O'r rhain, dewiswyd rhwng 10 ac 20 o deuluoedd ar hap i gymryd rhan. Pan gyrhaeddwyd y targedau, dewiswyd teuluoedd ar hap i gymryd rhan. Dewiswyd teuluoedd cymharu a oedd wedi cofrestru trwy'r ffurflen mynegi diddordeb ar hap ac fe'u gwahoddwyd mewn grwpiau. Cysylltwyd â chyfanswm o 125 o deuluoedd. O'r rhain, cwblhawyd 71 o gyfweliadau. Roedd hyn yn golygu mai'r gyfradd ymateb gyffredinol oedd 56.81%.

### 2.2.5 Dadansoddi

Dadansoddwyd yr holl gyfweliadau gan ddefnyddio dull dadansoddi thematig, a oedd yn cynnwys amlygu themâu allweddol o fewn ac ar draws y wybodaeth a gasglwyd. Bydd y canfyddiadau o ran ansoddol blwyddyn gyntaf y gwerthusiad yn rhoi gwybodaeth gychwynnol am safbwyntiau a phrofiadau cynrychiolwyr awdurdodau lleol, teuluoedd Dechrau'n Deg, a theuluoedd cymharu ynglŷn â Dechrau'n Deg. Bydd y canfyddiadau o'r gwerthusiad llawn yn cefnogi'r broses o ddatblygu cyfres o gasgliadau ac argymhellion y gellir gweithredu arnynt ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a

gyflwynir gan awdurdodau lleol, neu sy’n ceisio hyrwyddo datblygiad plant yn ystod y blynyddoedd cynnar yn ehangach.

## 2.3 Cyfyngiadau methodolegol

Mae prif gyfyngiad y gwaith ymchwil hwn yn ymwneud ag adnabod a chategoreiddio teuluoedd yn gywir fel teuluoedd Dechrau’n Deg neu deuluoedd cymharu. Roedd hyn yn anodd am ddau reswm. Yn gyntaf, nid oedd y teuluoedd eu hunain bob amser yn sylweddoli eu bod yn gymwys na bod y gwasanaethau yr oeddent yn eu defnyddio’n cael eu darparu yn rhan o Ddechrau’n Deg. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd lle mae’r rhaglen yn cael ei brandio’n wahanol, yn cael ei chyflwyno ochr yn ochr â darpariaeth arall, neu lle mae hawliadau’n gorgyffwrdd â gwasanaethau cyffredinol eraill. Roedd teuluoedd yn aml yn cael trafferth adnabod mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd, er enghraifft, fel gwasanaeth sydd wedi’i gysylltu’n benodol â Dechrau’n Deg, oherwydd bod gan bob teulu’r hawl i gael ymweliadau iechyd. Yn ail, nid oedd modd dilysu ein sampl o deuluoedd gan ddefnyddio codau post, gan nad oedd data cyfredol am gymhwysedd ar gyfer Dechrau’n Deg ar sail codau post ar gael i’r tîm ymchwil.

I liniaru hyn, casglwyd gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau a ddefnyddir trwy ffurflen mynegi diddordeb, a dilynwyd hyn gyda chwestiynau egluro yn ystod cyfweliadau. Er bod hyn wedi cryfhau ein gallu i wahaniaethu’r ddarpariaeth Dechrau’n Deg oddi wrth wasanaethau eraill, ceir rhywfaint o berygl camddosbarthu o hyd a dylid ei ystyried wrth ddehongli’r canfyddiadau.

# 3. Canfyddiadau

Mae’r bennod hon yn crynhoi’r wybodaeth allweddol a’r dystiolaeth a gasglwyd am weithredu’r rhaglen Dechrau’n Deg a’i heffaith, gan ddefnyddio safbwyntiau gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol, teuluoedd sydd wedi defnyddio ei gwasanaethau, a theuluoedd cymharu. Trafodir themâu yn ôl trefn eu pwysigrwydd cymharol, gan gyflwyno’r canfyddiadau a adroddwyd amlaf yn gyntaf.

Yn gyntaf, cyflwynir gwybodaeth a gafwyd gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol am weithredu’r rhaglen. Yn ail, amlinellir safbwyntiau teuluoedd ar gyflwyno’r rhaglen. Yn olaf, cyfunir safbwyntiau awdurdodau lleol a theuluoedd ar yr effaith y mae’r rhaglen wedi’i chael, ac yn parhau i’w chael, ar blant a’u teuluoedd.

## 3.1 Gweithredu Dechrau’n Deg – safbwyntiau awdurdodau lleol

Mae’r bennod hon yn amlinellu sut mae Dechrau’n Deg yn cael ei gweithredu o safbwynt awdurdodau lleol, gan gyfeirio at eu profiadau o ddylunio, cyflwyno, ac addasu’r rhaglen ledled Cymru. Mae’n ymdrin ag ystod o bynciau, gan gynnwys addasiadau lleol i’r rhaglen, allgymorth i deuluoedd y tu allan i ardaloedd craidd, a’r gorgyffyrddiad rhwng Dechrau’n Deg a rhaglenni eraill y blynyddoedd cynnar a pholisïau eraill perthnasol. Mae’r bennod hefyd yn trafod penderfyniadau gweithredol allweddol, fel targedu a dewis ardaloedd Dechrau’n Deg, dulliau o ymgysylltu â rhieni, ac enghreifftiau o arfer gorau wrth ddarparu gwasanaethau. Yn ogystal, myfyriodd awdurdodau lleol ar y prif heriau sy’n gysylltiedig ag ehangu Dechrau’n Deg. Rhennir gwersi a ddysgwyd o weithredu i lywio datblygiad yn y dyfodol a chefnogi darparu’n effeithiol.

### 3.1.1 Addasiadau a wnaed gan awdurdodau lleol i fodloni anghenion lleol

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi’r hyblygrwydd i awdurdodau lleol addasu sut mae Dechrau’n Deg yn cael ei chyflwyno er mwyn ymateb i anghenion eu cymunedau yn y ffordd orau. Er bod cynnig craidd y rhaglen wedi’i amlinellu’n glir mewn arweiniad cenedlaethol, mae ardaloedd unigol wedi defnyddio dulliau gwahanol o deilwra gwasanaethau, addasu meini prawf cymhwysedd, a blaenoriaethu agweddau ar y ddarpariaeth.

Yn ein cyfweliadau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol, adroddodd rhai eu bod wedi gwneud ychydig iawn o newidiadau, os unrhyw rai o gwbl, i ddylunio a darparu’r rhaglen, a bod y cynnig Dechrau’n Deg craidd yn gyflawn ac yn gyson ag arweiniad gwreiddiol Llywodraeth Cymru, i raddau helaeth.

Dywedodd sawl awdurdod lleol eu bod wedi mireinio’r meini prawf cymhwysedd daearyddol ar gyfer Dechrau’n Deg, gan ddefnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth. Mae’r rhain yn cynnwys data am ostyngiadau’r dreth gyngor, cymhwysedd am brydau ysgol am ddim, data ysgolion a gofal plant, a gwybodaeth broffesiynol gan ymarferwyr lleol. Mae’r dull hwn yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn aros yn ymatebol ac yn effeithiol. Er bod y rhaglen Dechrau’n Deg yn parhau i dargedu’r ardaloedd mwyaf difreintiedig ym mhob awdurdod

lleol, fel yr amlygir trwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAau), mae rhai awdurdodau'n addasu'r dull hwn neu'n ychwanegu ato i adlewyrchu amgylchiadau lleol yn well. Yn aml, mae'r addasiadau hyn yn cael eu sbarduno gan ystyriaethau ymarferol, fel ffiniau LSOA nad ydynt yn cyfateb yn union i anghenion cymunedol, newidiadau i batrymau'r boblogaeth, neu gamgyfatebiaeth rhwng lefelau amddifadedd a chyfraddau geni sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau.

Mae rhai awdurdodau lleol hefyd wedi crybwyll addasu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau, wrth i rai ardaloedd gefnu ar fodel 'un ateb sy'n addas i bawb' o blaid defnyddio dull a arweinir gan anghenion sy'n teilwra cymorth i amgylchiadau unigol y teulu. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol yn categoreiddio teuluoedd yn dair haen: dwys (angen llawer o gymorth), uwch (cymorth cymedrol), a chyffredinol (elfennau craidd yn unig).

> "Mae'r teuluoedd dwys yn cael cymorth dwys i'w symud allan o'r haen ddwys, ac yna mae'r teuluoedd cyffredinol yn cael yr elfennau craidd hyn yn unig." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Yn ogystal, soniodd awdurdod lleol efallai na fydd angen y gwasanaethau cymaint ar rai teuluoedd Dechrau'n Deg a gallant eu defnyddio fel y bo'r angen, tra bod y rhai y mae arnynt angen cymorth dwysach yn cael ymyriadau wedi'u teilwra. Mae'r dull "yr hyn sy'n bwysig" hwn wedi bod yn ganolog i asesu ac ymateb i anghenion teuluoedd yn effeithiol. Cyfeiriodd yr un awdurdod lleol at addasiad arall hefyd, sef defnyddio panel atgyfeirio a gyflwynir ar y cyd â Theuluoedd yn Gyntaf. Mae'r panel hwn yn galluogi teuluoedd o'r tu allan i ardaloedd dynodedig Dechrau'n Deg i gael gwasanaethau penodol, gan helpu i sicrhau bod cymorth ar gael i'r holl deuluoedd, ar lefel sy'n cyfateb i'w hanghenion unigol.

> "Mae'n ffyddlon i arweiniad gwreiddiol Llywodraeth Cymru o hyd, ond rydyn ni bellach yn gallu derbyn atgyfeiriadau i elfennau o'r rhaglen Dechrau'n Deg trwy banel atgyfeirio dim i saith yr ydyn ni'n ei gyflwyno ar y cyd â Theuluoedd yn Gyntaf [troednodyn 3]. Felly, fe all teulu gael mynediad at elfennau o'r rhaglen Dechrau'n Deg, ni waeth ble mae'n byw." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Mae awdurdodau eraill wedi cyflwyno addasiadau i'r gwasanaethau a gynigir, gan roi addasiadau neu ychwanegiadau ar waith wrth i amser fynd heibio. Er enghraifft, soniodd un awdurdod lleol eu bod yn rhoi mwy o bwyslais ar y cyfnod amenedigol, gan ddarparu mwy o ymyriadau magu plant a lleferydd ac iaith yn ystod 2 flynedd gyntaf bywyd plentyn, gan eu bod yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygiad diweddarach y plentyn. Crybwyllodd awdurdod lleol arall eu bod wedi gweithredu dwy ymyrraeth grŵp wedi'u seilio ar dystiolaeth i ategu'r ymyrraeth graidd ym maes cymorth lleferydd ac iaith. Y rhain yw "Siarad gyda'n gilydd", a luniwyd ar gyfer plant y nodwyd eisoes eu bod yn araf wrth ddatblygu lleferydd, a "Chwarae

Troednodiadau

[3] Mae'r panel hwn yn darparu fforwm lle gall gweithwyr proffesiynol a theuluoedd gael ymyrraeth gynnar a chymorth ar gyfer iechyd meddyliol a lles emosiynol plant. Mae'n ceisio sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth prydlon a phriodol trwy wasanaethau cydlynol.

gyda'n gilydd", sy'n targedu plant sy'n profi oedi cyffredinol mewn datblygiad, lle mae materion lleferydd yn eilaidd i ddiffygion ehangach mewn sgiliau chwarae a rhyngweithio.

### 3.1.2 Defnyddio allgymorth

Mae allgymorth yn galluogi awdurdodau lleol i ehangu cymorth Dechrau'n Deg (hyd at 25% o dargedau ehangu) i deuluoedd y tu allan i ardaloedd dynodedig sydd â ffactorau risg sylweddol, yn ogystal â theuluoedd sydd wedi symud i ffwrdd ond a oedd eisoes yn rhan o'r rhaglen. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cynnwys yr hyn maen nhw'n ei alw'n 'gymunedau o ddiddordeb', sydd, yn dibynnu ar yr ardal, yn gallu cynnwys grwpiau fel teuluoedd Sipsiwn, Roma, a Theithwyr, mudwyr, rhieni yn eu harddegau, teuluoedd digartref, ac ymadawyr gofal. Y nod yw sicrhau nad yw teuluoedd a phlant yn cael eu heithrio o gymorth o ganlyniad i ddaearyddiaeth.

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr awdurdodau lleol fanylu ar sut maen nhw'n defnyddio allgymorth yn eu hardaloedd. Dywedodd rhai cynrychiolwyr fod ceisiadau allgymorth yn cael eu gwneud amlaf ar gyfer plant, yn enwedig ar gyfer teuluoedd sy'n wynebu caledi ariannol neu pan fydd gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol, neu oedi wrth ddatblygu lleferydd ac iaith. Mewn cyferbyniad, mae llai o alw am gymorth magu plant neu ymwelydd iechyd, ac felly mae'r cymorth hwn ar gael yn fwy helaeth. Ym mhob achos, yn dibynnu ar yr angen a aseswyd, fe allai teuluoedd dderbyn naill ai'r pecyn Dechrau'n Deg llawn (gofal plant, magu plant, ymwelydd iechyd, a datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu) neu'r gwasanaeth sy'n fwyaf perthnasol i'w hamgylchiadau yn unig. Mae graddau'r allgymorth yn amrywio, ond mae'n cynrychioli cyfran fach o'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg, yn gyffredinol. Adroddodd un awdurdod lleol weithio gyda 50 i 60 o blant mewn gwasanaethau allgymorth, o gymharu ag oddeutu 1,000 mewn gwasanaethau craidd, tra crybwyllodd awdurdod lleol arall weithio gydag oddeutu 150 o deuluoedd ar eu rhestr allgymorth ac oddeutu 1,400 o blant sy'n derbyn gwasanaethau.

Nododd awdurdodau lleol fod atgyfeiriadau'n gallu dod o randdeiliaid amrywiol, gan gynnwys ymwelwyr iechyd, bydwragedd, gweithwyr cymdeithasol, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, a bod rhai ardaloedd hefyd yn caniatáu hunanatgyfeiriadau. Mewn rhai ardaloedd, mae paneli sy'n cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol, a staff y cyngor yn asesu teuluoedd ac yn penderfynu ar atgyfeiriadau priodol. Maen nhw hefyd yn amlygu bod teuluoedd yn cael eu blaenoriaethu, fel arfer, os oes ganddynt blant iau na 4 oed a'u bod yn dangos lefel uwch o ffactorau risg, fel trais domestig, symud y plentyn o'u gofal yn flaenorol, rhieni yn eu harddegau, neu anghenion dysgu ychwanegol. Mae rhai awdurdodau'n asesu atgyfeiriadau yn seiliedig ar ddangosyddion amrywiol, fel Lefelau Gofal Cymru a sgorau'r Offeryn Asesu Gwydnwch Teulu (FRAIT), i benderfynu pa deuluoedd fyddai'n elwa fwyaf o gymorth.

> "Nid yw'n fater syml eu bod nhw [teuluoedd] yn dod i gyfarfod a dweud: 'Dwi eisiau gofal plant yn unig'. Na, dydyn nhw ddim yn ei gael dim ond oherwydd eu bod nhw eisiau'r gofal plant. Rwy'n credu taw dyna ble mae'r llymder yn dechrau. Mae ganddyn nhw naill ai ffactor risg sylfaenol neu angen cymhleth oherwydd natur eu hamgylchiadau, ac mae angen pecyn cyfan o gymorth ar y teulu. Ac yna rydyn ni'n defnyddio'r allgymorth Dechrau'n Deg." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi allgymorth gan ei fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion unigol y teulu, ac roeddent yn cydnabod ei fod yn allweddol i gyrraedd grwpiau agored i niwed. Fodd bynnag, soniodd rhai ohonynt hefyd eu bod yn wynebu heriau oherwydd bod yr argyfyngau tai a chostau byw wedi cynyddu'r galw am allgymorth yn fawr, wrth i fwy o deuluoedd symud i lety dros dro, gwestai, neu ystadau tai newydd sy'n aml y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Adroddodd awdurdodau lleol er nad oedd digartrefedd yn broblem fawr ddegawd yn ôl, ei fod yn fater dybryd bellach, gyda mwy a mwy o deuluoedd agored i niwed, fel mamau yn eu harddegau. Yn yr un modd, mae caledi ariannol sy'n gysylltiedig â chostau byw cynyddol wedi achosi i fwy o deuluoedd geisio cymorth gofal plant trwy allgymorth. Nododd un awdurdod lleol eu bod yn derbyn ceisiadau gan rieni y byddai eu plant yn elwa'n fawr o ofal plant, ond nad ydynt yn gallu ei fforddio. Mae'r heriau hyn yn fwy amlwg mewn ardaloedd gwledig, lle mae angen teithio ymhellach, ac mae lleoedd gofal plant yn gyfyngedig.

### 3.1.3 Gorgyffwrdd â rhaglenni eraill a phontio rhyngddynt

Holwyd cynrychiolwyr awdurdodau lleol ynglŷn ag argaeledd rhaglenni eraill, tebyg a ddarperir yn eu hardaloedd a sut mae'r rhain yn gorgyffwrdd a rhyngweithio â Dechrau'n Deg. At ei gilydd, roedd yr ymatebion ynglŷn â dyblygu posibl rhwng rhaglenni tebyg yn gymysg. Adroddodd rhai awdurdodau lleol nad yw dyblygu'n digwydd yn eu hardaloedd, yn bennaf o ganlyniad i strwythur darpariaeth y blynyddoedd cynnar a'r ffordd y rheolir Dechrau'n Deg.

> "Rwy'n credu oherwydd fy mod i'n rheoli holl raglenni'r Blynyddoedd Cynnar, rydyn ni'n cydgysylltu â nhw i gyd. Y prif un dydw i ddim yn ei rheoli yw Teuluoedd yn Gyntaf, ac rydyn ni'n cyflwyno llawer o wasanaethau ar y cyd gyda'n gilydd." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Amlygodd awdurdod lleol arall fod Dechrau'n Deg yn cael ei strwythuro ochr yn ochr â rhaglenni eraill y blynyddoedd cynnar mewn ffordd integredig iawn, sy'n gwneud synnwyr o ystyried maint yr awdurdod lleol. Un o fanteision allweddol y dull hwn yw bod yr un tîm yn goruchwylio ehangu Dechrau'n Deg, digonolrwydd gofal plant, y cynnig gofal plant, a darpariaeth addysg nas cynhelir. Mae'r oruchwyliaeth ganolog hon yn rhoi dealltwriaeth gliriach o sut mae'r gwasanaethau hyn yn rhyngweithio, gan sicrhau bod polisïau'n cyd-fynd â'i gilydd a gwneud pontio'n fwy didrafferth wrth i blant symud o Ddechrau'n Deg i addysg.

Mewn rhai ardaloedd, mae Dechrau'n Deg wedi'i lleoli o fewn gwasanaethau plant a theuluoedd ehangach i atal dyblygu ac annog cydweithio. Mae'r strwythur hwn yn hwyluso cyfathrebu rhwng staff a gwell cynllunio er mwyn darparu cymorth cyfannol i deuluoedd. Mae teuluoedd y mae eu plant wedi mynd yn rhy hen i Ddechrau'n Deg yn gallu defnyddio gwasanaethau eraill o hyd, fel timau iechyd meddwl neu raglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf. Mae integreiddio hefyd yn helpu asiantaethau eraill i ddeall Dechrau'n Deg yn well, fel nad yw'n cael ei hystyried fel rhaglen ar wahân. Er y dywedwyd bod gweithredu'n parhau, soniodd awdurdod lleol fod y dull hwn wedi arwain at well cydlynu a model mwy integredig o gymorth i deuluoedd.

Ar y llaw arall, mynegodd rhai awdurdodau lleol bryderon ynglŷn â gorgyffyrddiad posibl o fewn y rhaglen, yn enwedig pan fydd sawl tîm yn cyflwyno ymyriadau tebyg. Er enghraifft, soniodd un awdurdod lleol fod cynghorwyr y blynyddoedd cynnar yn gweithio ochr yn ochr ag ymwelwyr iechyd, bod tîm magu plant mawr yn gweithredu'n gyfochrog, a bod timau ar wahân yn darparu cymorth ieithyddol ac ymyriadau cynnar eraill. I fynd i'r afael â hyn, mae gwasanaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i fapio'r ddarpariaeth a sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n briodol, gan gynnal cymysgedd cytbwys o ymyriadau (er enghraifft, osgoi gorbwyslais ar dylino babanod ar draul cymorth ieithyddol). Yn ogystal, mae gwasanaethau cymorth cynnar o fewn y Grant Plant a Chymunedau yn cydweithio'n agos i leihau dyblygu gymaint â phosibl.

### 3.1.4 Ymgysylltu â rhieni ac annog defnydd o Ddechrau'n Deg

Gofynnwyd i awdurdodau lleol fyfyrio ar sut maen nhw'n annog teuluoedd i ddefnyddio ac ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg. Crybwyllodd rhai awdurdodau lleol fod ymgysylltu â theuluoedd cymwys yn uniongyrchol ac mewn modd wedi'i dargedu yn arfer da. Mae'r dull hwn yn blaenoriaethu cysylltiad personol ar draul dibynnu ar farchnata neu ddeunyddiau hyrwyddol yn unig, ac yn sicrhau allgymorth prydlon pan gyrhaeddir cerrig milltir allweddol (er enghraifft, pan fydd plentyn yn dod yn gymwys ar gyfer gwasanaeth penodol). Mewn rhai achosion, dilynir hyn gan gymorth ychwanegol i helpu teuluoedd i oresgyn rhwystrau, fel anawsterau wrth gwblhau gwaith papur.

> "Rwy'n gwybod y bydd llawer o awdurdodau lleol eraill yn defnyddio marchnata a hyrwyddo yn unig, ond byddwn ni'n mynd yn syth at yr unigolyn. 'Bydd eich mab Thomas yn gymwys i gael gofal plant ar y dyddiad hwn. Hoffech chi ei gael?' Os na fyddwch chi'n dod, byddwn yn anfon gweithiwr cymorth i deuluoedd. Byddwn yn mynd i'ch tŷ. Rydyn ni wedi anfon llythyr atoch oherwydd rydyn ni'n ymwybodol bod sgiliau sylfaenol yn broblem yn ein hardal awdurdod lleol. Felly, byddwn yn dilyn llythyr gydag ymweliad cartref.
> Os ydyn nhw'n cael trafferth llenwi'r ffurflen, bydd gweithiwr cymorth i deuluoedd yn eistedd gyda nhw a llenwi'r ffurflen." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Crybwyllwyd hefyd yn ystod cyfweliadau yr ystyrir bod ymgysylltu â theuluoedd yn ystod beichiogrwydd yn arbennig o effeithiol, gan fod rhieni sy'n disgwyl yn fwy agored i dderbyn gwybodaeth a chymorth. Mae bydwragedd Dechrau'n Deg yn cyflawni rôl allweddol wrth dargedu meysydd ac annog cyfranogiad cynnar. Mae rhai awdurdodau lleol wedi rhoi rhaglenni cynenedigol ar waith, fel y cwrs "Croeso i'r Byd", sy'n gysylltiedig ag ymgysylltiad tymor hwy, gan fod teuluoedd yn fwy tebygol o barhau i ymgysylltu â gwasanaethau ar ôl i'w plentyn gael ei eni.

> "Mae'r teuluoedd eu hunain yn dewis dod i'n noson wybodaeth gynenedigol, yr ydyn ni'n ei hysbysebu beth bynnag, oherwydd pan fyddan nhw'n feichiog maen nhw eisiau'r cyngor yna. Maen nhw'n barod i wrando ar y cyngor yna. Felly, rydyn ni wedyn yn eu cofrestru ar gwrs "croeso i'r byd", sy'n fan cychwyn. Yn gyffredinol, rydyn ni'n gweld os ydyn nhw'n dilyn y cwrs "Croeso i'r byd", ein bod yn tueddu i'w cadw nhw am gyn hired ag y gallan nhw." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Yn ogystal, soniodd rhai awdurdodau lleol fod rhyngweithiadau cyson, dibynadwy yn cryfhau ymgysylltiad â rhieni. Mae ymddiriedaeth yn datblygu dros amser, gan ddechrau gyda rhyngweithiadau bach, hawdd eu trin cyn i rieni deimlo'n gyfforddus i rannu anghenion mwy cymhleth.

> "[…] i wneud beth rydych chi'n dweud y byddwch yn ei wneud, wyddoch chi, rydych chi'n dechrau gyda'r pethau bach. Ac yna datblygu hynny gyda theuluoedd. Ni fydd pobl yn rhannu eu problemau mawr â chi os nad ydyn nhw wedi ymddiried y pethau bach ynoch chi'n gyntaf, wyddoch chi, felly mae'n barhaus […]." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Mae parhad o ran staff, yn enwedig cadw'r un ymwelydd iechyd neu weithiwr allweddol, yn helpu i feithrin ymddiriedaeth hirdymor ac yn lleihau dryswch neu orbryder. Mae ymgysylltiad wedi'i deilwra, fel sesiynau aros a chwarae neu glinigau penodol ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, yn dangos sensitifrwydd i gyd-destunau cymunedol ac yn gwella ymgysylltiad.

Amlygodd cyfweleion o awdurdodau lleol hefyd fod cyfranogiad gwirfoddol yn gallu annog ymgysylltiad trwy leihau gwrthwynebiad a stigma, gan ganiatáu i deuluoedd gymryd rhan ar eu cyflymder eu hunain. Adroddodd sawl awdurdod lleol fod cefnu ar atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol o blaid hunanatgyfeirio trwy apiau neu wefannau wedi arwain at fwy o bresenoldeb gwirfoddol ac wedi meithrin perthynas fwy cadarnhaol a chydweithredol gyda theuluoedd. Nododd eraill fod cynnig sesiynau hyblyg, fel grwpiau galw heibio a chwarae a grwpiau datblygu iaith, yn fwy cyfleus i rieni ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i ailymgysylltu, sydd wedi bod yn arfer gorau wrth wella cyfranogiad rhieni.

> "[…] Ar un adeg, roedden ni'n derbyn atgyfeiriadau proffesiynol yn unig. Rydyn ni wedi newid hynny nawr, ac mae rhieni'n gallu hunanatgyfeirio trwy'r ap neu'r wefan. Felly, os ydyn nhw'n teimlo bod arnyn nhw angen ychydig o help gyda rhywbeth […] maen nhw'n fwy tueddol o ddod, yn hytrach na bod rhywun yn dweud wrthyn nhw fod rhaid iddyn nhw ddod […]." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Ar y llaw arall, roedd awdurdodau lleol hefyd wedi amlygu sawl ffactor sy'n parhau i gymhlethu neu gyfyngu ar ymgysylltu â rhieni.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol fod y ffordd y defnyddiwyd terminoleg y rhaglen ar y dechrau wedi'i gwneud yn fwy anodd ymgysylltu â rhieni. Roedd termau fel "anodd eu cyrraedd" neu gyd-destun gwrthdlodi wedi creu stigma o amgylch y rhaglen i ddechrau, gan atgyfnerthu ofnau ei bod wedi'i bwriadu ar gyfer teuluoedd difreintiedig yn unig. Fodd bynnag, dywedwyd hefyd bod y camdybiaethau hyn wedi lleihau dros amser wrth i bobl ddeall a derbyn y cynnig yn fwy.

> "Roedd rhai teuluoedd wedi gwrthod Dechrau'n Deg yn llwyr, ond roedd hynny ar ddechrau'r gwasanaeth […] roedd stigma ar y dechrau. […] Byddwn i'n dweud bod hynny wedi newid […] ond wrth iddi gael ei chyflwyno'n raddol, rwy'n credu bod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n eithaf bodlon arni nawr." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Yn ogystal, fel y crybwyllwyd uchod, mae perthnasoedd sefydlog ag ymwelwyr iechyd a gweithwyr cymorth i deuluoedd yn ganolog i feithrin ymddiriedaeth. Yn yr ystyr hon, soniodd rhai awdurdodau lleol yn ystod y cyfweliadau fod trosiant staff uchel, salwch, a newidiadau mynych i bersonél yn effeithio ar hyder rhieni, gan nad oedd teuluoedd yn gallu meithrin perthnasoedd cyson, therapiwtig.

Adroddodd rhai awdurdodau lleol hefyd fod ymgysylltu â theuluoedd yn gallu bod yn fwy anodd pan fydd ganddynt lawer o anghenion neu pan fyddant yn rhannu nodweddion penodol, fel perthyn i grwpiau penodol neu fyw mewn ardaloedd penodol. Er enghraifft, dywedodd rhai cyfweleion, yn eu profiad nhw, mai'r teuluoedd y mae arnynt angen cymorth fwyaf yw'r rhai anoddaf i ymgysylltu â nhw, yn aml. Yn nodweddiadol, mae'r teuluoedd hyn yn wynebu llawer o heriau cymhleth ac efallai na fyddant wedi defnyddio gwasanaethau o'r fath o'r blaen, ac felly byddant yn betrus neu'n ofnus ynglŷn â rhoi cynnig arnynt.

> "Nid yw'r teuluoedd y mae arnynt eu hangen fwyaf wedi eu gweld (gwasanaethau). Nid ydynt wedi rhoi cynnig arnynt o'r blaen. Maen nhw'n fwy amharod i'w defnyddio oherwydd eu bod yn rhywbeth anodd a gwahanol, ac mae llawer o faterion iechyd meddwl a gorbryder yn gysylltiedig â gadael plentyn gyda rhywun arall. A ydw i'n rhiant digon da? A fydd hyn yn rhoi argraff wael ohonof? A'r teuluoedd hynny yw'r rhai y mae gwir angen y gofal plant arnynt." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Yn yr un modd, amlygodd rhai awdurdodau lleol fod ymgysylltu â'u grwpiau buddiant, fel y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, yn gallu bod yn anodd iawn. Fe allai'r teuluoedd hyn fod yn amharod i fynychu sesiynau grŵp ac yn aml bydd yn well ganddynt dderbyn gwasanaethau mewn lleoliadau cymunedol cyfarwydd.

> "Mae'n gallu bod yn eithaf anodd ymgysylltu â'n cymunedau buddiant, fel y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. […] Mae'n gallu bod yn eithaf anodd meithrin perthnasoedd ymddiriedus gyda nhw. […] Maen nhw'n fwy cyfforddus yn eu hamgylchedd eu hunain, felly rydyn ni wedi sefydlu grŵp aros a chwarae o fewn un o'n safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, […] rydyn ni'n cynnal clinig ymwelwyr iechyd ar wahân yno fel y gallwn geisio meithrin perthnasoedd a datblygu ymddiriedaeth gyda nhw a cheisio ymgysylltu â nhw." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Amlygodd un awdurdod lleol fod daearyddiaeth yn gallu creu rhwystrau ychwanegol rhag mynediad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu denau eu poblogaeth. Mae pellterau teithio hir, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, a phrinder cyfleusterau gofal plant cyfagos yn ei gwneud yn fwy anodd i deuluoedd ddefnyddio gwasanaethau.

Soniodd dau awdurdod lleol y gallai teuluoedd sydd â phryderon diogelu blaenorol neu gyfredol osgoi ymwneud ag ymwelwyr iechyd oherwydd eu bod yn ofni y byddant yn craffu arnynt.

> "Yn eithaf aml, y teuluoedd y bu ganddynt bryderon diogelu yw'r rhai sydd wedi dweud nad ydynt eisiau ymwelwyr iechyd mwyach." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Yn olaf, crybwyllodd rhai awdurdodau lleol rwystrau sy'n benodol i elfennau. Er bod gofal plant Dechrau'n Deg yn parhau i fod yn ysgogwr cryf ar gyfer ymgysylltu o ganlyniad i'w fuddion uniongyrchol ac amlwg, mae elfennau eraill, fel cymorth magu plant, yn wynebu heriau parhaus. Mae'n gyffredin i bobl dynnu'n ôl o ymyriadau magu plant a gyflwynir mewn grwpiau neu ar sail un i un oherwydd bod y rhaglenni'n hir ac oherwydd eu bod yn credu bod y canfyddiadau'n llai amlwg na gofal plant neu therapi lleferydd ac iaith. Yn hanesyddol, mae ymgysylltiad â therapi lleferydd ac iaith wedi cael ei gyfyngu gan brinder staff a bylchau yn y gwasanaeth, er yr adroddodd awdurdodau lleol fod hyrwyddo rhagweithiol a mwy o staff wedi arwain at welliannau. Mae cyfranogiad mewn Grwpiau Plant Bach a Datblygu Iaith yn tueddu i ddirywio'n naturiol pan fydd plant yn cyrraedd 2 i 3 oed, ac mae rhieni'n dychwelyd i weithio, er bod teuluoedd a chanddynt anghenion uwch yn fwy tebygol o barhau i'w mynychu.

### 3.1.5 Yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ac enghreifftiau o arfer gorau

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr awdurdodau lleol fyfyrio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda wrth gyflwyno Dechrau'n Deg yn eu hardaloedd. Crybwyllwyd llawer o enghreifftiau yn ystod y cyfweliadau.

Mae llawer o awdurdodau lleol o'r farn mai un o brif gryfderau'r rhaglen yw cydleoli a gwaith amlasiantaethol, lle mae gwasanaethau'n cael eu lleoli ar un safle. Gan nad yw cydleoli'n un o ofynion ffurfiol y rhaglen, fe all olygu pethau gwahanol yn dibynnu ar yr awdurdod lleol. Mewn rhai ardaloedd, mae'n cyfeirio at bresenoldeb canolfannau i deuluoedd neu hybiau lle mae timau amlddisgyblaethol wedi'u cydleoli, gan gynnig gwasanaethau fel iechyd, cymorth magu plant, ac ymyriadau lleferydd ac iaith sydd oll yn cael eu cyflwyno o'r un canolfannau. Mewn ardaloedd eraill, mae'n gallu golygu bod timau ymwelwyr iechyd wedi'u cydleoli neu'n gweithio'n agos gyda darparwyr gofal plant. Mae'r dull hwn yn cynnig nifer o fuddion. Mae agosrwydd gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn gwella cydweithio ac yn hwyluso cymorth di-dor i deuluoedd, ac mae gweithwyr proffesiynol yn cydnabod bod gweithio ochr yn ochr â'i gilydd yn eu helpu i ddarparu gwasanaethau'n well. O safbwynt iechyd, soniodd un awdurdod lleol fod eu hymwelwyr iechyd yn ymwneud yn agos â rhaglenni magu plant ac yn cynnal rhai o'r sesiynau yn yr un ganolfan, sy'n helpu i ddenu teuluoedd i'r rhaglen. Mae teuluoedd yn elwa hefyd gan nad oes rhaid iddynt adrodd eu hanes droeon, sy'n lleihau'r baich arnynt.

> "Bydd ymwelwyr iechyd yn cyflwyno rhai o'r sesiynau ac yn cynnal ein clinigau babanod yn y canolfannau integredig lleol i blant o fewn yr ardal Dechrau'n Deg. Felly, mae hynny'n denu teuluoedd o'r ardaloedd hynny ac yna rydyn ni'n eu bwydo nhw a'u hanghenion i'r canolfannau integredig i blant. Felly, mae hynny'n enghraifft dda iawn o sut rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys ymwelwyr iechyd, ysgolion, a darparwyr gofal plant y sector preifat, yn chwarae rôl allweddol wrth gyflwyno'r rhaglen ar gamau amrywiol, ac ystyrir bod cydweithio â'r rhanddeiliaid hyn yn hanfodol i'w llwyddiant.

Dywedwyd bod ymwelwyr iechyd yn ganolog i'r model, gan gynorthwyo plant drwy gydol eu hymwneud â'r gwasanaeth Dechrau'n Deg a pharhau tan iddynt bontio i'r ysgol, pan fydd nyrsys ysgol yn cymryd drosodd. Tynnwyd sylw at eu hyblygrwydd fel agwedd allweddol ar ddarparu'r rhaglen. Er enghraifft, nododd rhai awdurdodau lleol eu bod yn allweddol i ddatblygu cysylltiadau cymunedol. Maen nhw'n gysylltiad pwysig rhwng gwasanaethau, gan amlygu ble mae angen cymorth a chynorthwyo ag atgyfeiriadau a chyfeirio ar gyfer teuluoedd.

O ran yr elfen gofal plant, mae ysgolion wedi bod yn bartneriaid allweddol, hefyd. Adroddodd rhai awdurdodau lleol fod cyllid y rhaglen wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu seilwaith, integreiddio gwasanaethau gofal plant, a chynorthwyo â chostau staffio. Crybwyllwyd bod model wedi'i seilio ar ysgolion wedi arwain at fuddion sylweddol, gan gynnwys galluogi plant i bontio'n ddi-dor i addysg gynradd a sicrhau staffio cyson, gan fod cyflogeion yn gweithio o dan delerau ac amodau cyflogaeth y cyngor.

> "Fe aethon ni at yr ysgolion oherwydd doedd gennym ni ddim yr elfen gofal plant o'r ddarpariaeth. Roedd hynny wedi cryfhau'r model darparu'n sylweddol. […] byddai llawer o'r plant hynny'n pontio i'r ysgolion yr oeddent wedi'u lleoli ynddynt hefyd." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Er mwyn ehangu Dechrau'n Deg a chyrraedd mwy o blant, mabwysiadodd rhai awdurdodau lleol "ddull gweddnewidiol", gan gefnu ar fodel a arweinir gan y cyngor yn unig ar gyfer darparu elfen gofal plant Dechrau'n Deg. Yn lle hynny, gwnaethant ffurfio partneriaethau â darparwyr gofal plant preifat. Dywedodd cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol hyn fod llawer o ddarparwyr preifat wedi croesawu'r cyfle oherwydd bod Dechrau'n Deg yn cynnig ffrwd gyllido ddibynadwy a chynaliadwy a oedd yn helpu i gynnal eu busnesau.

Ymdriniwyd yn greadigol â recriwtio a chadw staff gofal plant, hefyd. Defnyddiodd un awdurdod lleol gyllid ehangu i ddatblygu rhaglen brentisiaeth, gan gynorthwyo darparwyr a oedd yn dymuno cyflogi prentisiaid gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant lefel 3. Mae prentisiaid yn gweithio 16 awr yr wythnos ar y cyflog byw gwirioneddol. Mae mwy na 10 o brentisiaid wedi cwblhau'r rhaglen bellach, ac mae pob un ohonynt yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd mewn darpariaeth Dechrau'n Deg neu ddarpariaeth leol gysylltiedig. Disgrifiodd awdurdod lleol arall strategaeth hyblyg i reoli prinder staff, gan ganiatáu i ymarferwyr magu plant gyflenwi ar gyfer rolau gofal plant pan fydd angen ac ymgysylltu â phlant mewn lleoliadau gwahanol.

Ystyrir bod cyflogi staff arbenigol yn ffordd werthfawr o gefnogi gweithredu. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol yn cyflogi nyrs ddiogelu arbenigol, sy'n bwysig iawn i ymwelwyr iechyd, o ystyried cymhlethdod cynyddol anghenion teuluoedd ers COVID-19. Yn ôl yr awdurdod lleol, mae teuluoedd bellach yn wynebu mwy o heriau, mae ganddynt lai o adnoddau i fynd i'r afael â materion yn annibynnol, ac mae arnynt angen cymorth dwysach.

Maen nhw hefyd wedi cyflogi "gweithiwr tadau" i gynnwys tadau'n fwy gweithredol, yn ogystal â swyddog cymorth sy'n siarad Pwyleg i ymateb i gymuned Bwylaidd sy'n tyfu.

> "Rydyn ni wedi penodi gweithiwr tadau i'r tîm magu plant yn ddiweddar, ac mae hynny'n gweithio'n dda iawn ar hyn o bryd. […] Mae e wedi ymweld â llawer o

> grwpiau cynenedigol i wneud cymorth ar y cyd i geisio cynnwys tadau'n fwy […] Felly, mae'r adborth o hynny wedi bod yn dda iawn." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Amlygodd awdurdod lleol arall rôl eu gweithwyr tadau a phobl eraill arwyddocaol, y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys ymgysylltu â thadau, adolygu sut mae gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo, a chefnogi mwy o gynwysoldeb i rieni yn fwy cyffredinol. Mae'r rolau ychwanegol hyn yn helpu i deilwra cymorth i anghenion eu cymuned a dywedwyd eu bod yn gwahaniaethu eu dull oddi wrth awdurdodau lleol eraill.

Ystyrir bod addasu gwasanaethau i anghenion teuluoedd a gwybodaeth a chyd-destunau lleol yn arfer da. Fel y crybwyllwyd yn yr adran "Addasiadau a wnaed gan awdurdodau lleol i fodloni anghenion lleol", ni fydd dull 'un ateb sy'n addas i bawb' yn gweithio i bob defnyddiwr gwasanaeth, yn ôl pob tebyg. Canfyddir bod gwasanaethau'n fwy gwerthfawr pan fyddant yn cael eu ffurfio o amgylch anghenion penodol teuluoedd a chymunedau. Mae'n bwysig deall dynameg leol a diwylliannol; er enghraifft, crybwyllodd un awdurdod lleol fod ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei gryfhau trwy ddefnyddio lleoliadau cyfarwydd a chomisiynu aelodau o'r gymuned yr ymddiriedir ynddynt fel cyd-hwyluswyr. Yn yr un modd, mewn ardaloedd sy'n brin o ddarpariaeth gofal plant, mae gwybodaeth leol a data yn helpu i amlygu bylchau mewn gwasanaethau a llywio'r broses o ddyrannu adnoddau. Dywedodd un awdurdod lleol, mewn ardaloedd gwledig lle y ceir heriau o hyd, fod yr hyblygrwydd a gynigir gan ddarparwyr preifat yn golygu y gellir cyrraedd ardaloedd y byddai wedi bod yn anodd ehangu iddynt fel arall. Mae cydweithio traws-sector yn allweddol hefyd, gan fod addysg gynnar, tai, a Dechrau'n Deg yn aml yn gweithredu gydag agendâu gwahanol.

Soniodd rhai awdurdodau lleol hefyd am fuddion sicrhau ymyrraeth gynnar yn ystod y cam cynenedigol. Yn ddelfrydol, fe ddylai cymorth ddechrau yn ystod beichiogrwydd i fynd i'r afael â risgiau'n gynnar a rhoi'r dechrau gorau posibl i fabanod. Mae ymgysylltiad cynenedigol yn caniatáu i ymarferwyr feithrin ymddiriedaeth â theuluoedd cyn geni a chreu cynlluniau cymorth wedi'u teilwra yn seiliedig ar anghenion unigol. Yn ystod y cyfweliadau, amlygwyd bod rhai ardaloedd wedi cyflwyno gweithwyr cynenedigol penodol i asesu pa deuluoedd y mae arnynt angen ymyriadau dwysach. Fodd bynnag, dywedodd un awdurdod lleol fod y ddarpariaeth fydwreigiaeth bresennol yn rhychwantu tua 40% o'r teuluoedd beichiog yn unig, gan adael bwlch sylweddol. Ystyrir bod cryfhau allgymorth ar y cam hwn yn allweddol i gyflawni nodau atal ac ymyrraeth gynnar.

> "Fe ddylai Dechrau'n Deg ddechrau ar y cam cynenedigol os ydyn ni'n mynd i atal anghenion rhag dwysáu a rhoi dechrau da i fabanod mewn bywyd, mae angen iddo ddechrau ar y […] cam hwnnw. […] rydyn ni wedi defnyddio rhywfaint o'n cyllid, mae gennym ni ddau weithiwr cynenedigol ac fe amlygon nhw anghenion yn gynnar, fe amlygon nhw ba rai o'r teuluoedd y mae arnyn nhw angen cymorth ychwanegol dwys ac fe lunion nhw gynlluniau cymorth teulu." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

O ran ehangu, amlygodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol rai arferion gorau a oedd wedi hwyluso gweithredu yn eu hardaloedd. Roedd ambell awdurdod lleol wedi bod yn ymgysylltu â lleoliadau gofal plant nad ydynt yn rhan o Ddechrau'n Deg ers blynyddoedd, felly roeddent eisoes wedi sefydlu perthnasoedd â'r darparwyr hyn, a oedd yn hwyluso

cydlynu at ddibenion ehangu. Roedd llawer o'r staff yn y lleoliadau hyn hefyd wedi cael yr un hyfforddiant â gweithwyr Dechrau'n Deg. Roedd hyn yn golygu bod ehangu'n ddidrafferth ac yn cael ei groesawu, ac nad oedd darparwyr gofal plant presennol yn teimlo dan fygythiad oherwydd y newidiadau.

Tynnodd un awdurdod lleol sylw at werth panel allgymorth a phlentyn mewn angen, yn cynnwys arweinydd y tîm ymwelwyr iechyd, swyddog magu plant, a thîm cynghori ar ofal plant, sy'n rheoli atgyfeiriadau ar gyfer allgymorth, gofal plant, ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae galw cynyddol, yn enwedig ar gyfer cymorth iechyd meddwl ac ADY yn yr awdurdod lleol hwn, wedi creu pwysau capasiti, ac mae cyfarfodydd y panel yn cael eu cynnal ar hyd 2 ddiwrnod bellach yn lle'r 90 munud blaenorol.

Yn olaf, arloesedd defnyddiol arall a grybwyllwyd gan un awdurdod lleol yw'r ap Dechrau'n Deg, a ddatblygwyd yn ystod y pandemig COVID-19 i gynnal cyfathrebu â theuluoedd. Defnyddir yr ap i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau Dechrau'n Deg a rhoi awgrymiadau i helpu teuluoedd i ymgysylltu â'u plant. Er enghraifft, yn ystod y pandemig, roedd yr awdurdod hwn wedi dosbarthu pecynnau gweithgareddau i blant a'u hysbysebu trwy'r ap.

### 3.1.6 Heriau gweithredu

Adroddodd mwyafrif yr awdurdodau lleol fod argaeledd a chywirdeb data yn her allweddol o hyd, sy'n cyfyngu ar eu gallu i amlygu teuluoedd yn rhwydd wrth iddynt ddod yn gymwys, olrhain darparu'r holl wasanaethau, a gwerthuso'r hyn sy'n gweithio'n dda yn y rhaglen. Mae materion yn codi ar sawl lefel. Un o'r pryderon allweddol yw diffyg gwybodaeth uniongyrchol am fabanod newydd-anedig, sy'n cymhlethu cynllunio hirdymor, ac eto nid yw rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo i gael y wybodaeth hon er iddynt ofyn i fyrddau iechyd sawl gwaith. Mae canlyniadau data anghywir neu anghyflawn hefyd yn effeithio ar ddarparu'r rhaglen, gan greu heriau gweithredol ychwanegol. Er enghraifft, adroddodd un awdurdod lleol fod anghysondebau data wedi dod i'r amlwg wrth i fwy o deuluoedd ymuno â'r rhaglen, gan ysgogi adolygiad o ddata.

Crybwyllwyd mai un o'r rhesymau am y problemau hyn yw natur ddarniog systemau data. Cedwir data iechyd ar wahân ac mae'n rhaid ei allgludo â llaw. Mae'r dulliau rheoli data mewnol mewn rhai awdurdodau lleol yn dibynnu'n drwm ar daenlenni Excel a chyfrifiadau â llaw o hyd. Dywedodd rhai awdurdodau lleol fod ymwelwyr iechyd yn gallu cael at y llyfr genedigaethau integredig, sy'n cynnwys manylion llawn am yr holl blant yn eu llwythi achosion, ond nid oes gan Ddechrau'n Deg fynediad at y platfform hwn. Yn lle hynny, mae ymwelwyr iechyd fel arfer yn trosglwyddo gwybodaeth â llaw trwy roi ffurflenni cofrestru papur i rieni. Yn ogystal, efallai bydd byrddau iechyd yn anfon rhestrau hir o blant cymwys, ond weithiau nid yw'r rhain bob amser yn cyfateb i gronfa ddata Dechrau'n Deg. Mae camgyfatebiaethau'n digwydd yn gyffredin oherwydd (i) ffurflenni papur anghyflawn neu sydd ar goll, (ii) teuluoedd sy'n symud heb ddiweddaru eu cofnodion, a (iii) chofnodi data â llaw ar systemau gwahanol, sy'n cyflwyno anghysondebau. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhai awdurdodau lleol wrthi ar hyn o bryd yn sefydlu cytundebau rhannu data gyda byrddau iechyd, a allai wella hyn yn y dyfodol.

Mae'r bylchau hyn mewn data yn effeithio ar werthuso'r rhaglen hefyd. Adroddodd rhai awdurdodau lleol fod byrddau iechyd yn gofyn am ddadansoddiad o ganlyniadau Dechrau'n Deg, ond nad ydynt yn darparu'r data crai sy'n angenrheidiol i allu dadansoddi. Er bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r heriau hyn ac wedi cymryd camau i wella partneriaethau rhannu gwybodaeth, adroddodd awdurdodau lleol fod cynnydd wedi bod yn araf, a bod setiau data anghyflawn yn parhau i rwystro dadansoddiad ystyrlon a gwella gwasanaethau.

Yn olaf, mae llwythi gwaith uchel yn cyfyngu ymhellach ar ddefnyddio data. Adroddodd un awdurdod lleol nad oes ganddynt lawer o amser i ddadansoddi data i lywio ymarfer neu gefnogi timau. Er enghraifft, er bod data'n cael ei gasglu am ddiffyg ymgysylltiad, nid oes digon o gapasiti yn aml i fynd i'r afael â'r materion y mae'n eu hamlygu.

Er na amlygwyd ansawdd data fel cryfder yn gyffredin, dywedodd un awdurdod lleol fod derbyn data dibynadwy gan wasanaethau iechyd am deuluoedd cymwys wedi bod yn werthfawr iawn iddynt, gan ei fod wedi eu helpu i dargedu cymorth yn effeithiol.

Her gyffredin arall a amlygwyd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yw'r cyfyngiadau cyllidebol maen nhw'n eu hwynebu wrth gynllunio a chyflwyno'r rhaglen, yn ogystal â'r ffordd y dyrennir cyllidebau iddynt. Cydnabyddir bod Dechrau'n Deg yn defnyddio llawer o adnoddau, yn enwedig y ddarpariaeth gofal plant mewn ysgolion, sy'n cyflogi staff ar delerau ac amodau'r awdurdod lleol. Mewn rhai cyfweliadau, dywedwyd er bod dyraniadau cyllidebol wedi aros yr un peth, bod costau gweithredol wedi parhau i gynyddu, gan greu pwysau ariannol cynyddol.

Er bod cyllid yn cael ei ddarparu ar sail 3 blynedd bellach, soniodd rhai awdurdodau lleol fod cyllid blynyddol yn her ariannol. Pwysleisiwyd bod trefniadau cyllido tymor byr fel hyn yn creu anawsterau wrth recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel. Gall contractau blynyddol atal gweithwyr proffesiynol medrus rhag ymuno â'r sector neu aros ynddo, gan danseilio sefydlogrwydd ac ansawdd y gwasanaeth.

Mae darparwyr gofal plant, yn enwedig meithrinfeydd preifat, wedi dweud wrth awdurdodau lleol nad yw cyfraddau cyllid Dechrau'n Deg (a osodir gan awdurdodau lleol) yn aml yn talu am gost wirioneddol y ddarpariaeth. Mewn llawer o feithrinfeydd, mae'r swm a delir fesul plentyn yn is na'u ffioedd preifat safonol, sy'n golygu nad yw'n ariannol hyfyw iddynt gymryd rhan. Dywedodd rhai meithrinfeydd eu bod yn gwneud cais am gyllid Dechrau'n Deg dim ond oherwydd bod ganddynt sawl plentyn cymwys eisoes wedi'u cofrestru, yn hytrach nag oherwydd ei fod yn fodel busnes cynaliadwy.

> "Felly, rydyn ni wedi cael sylwadau (gan feithrinfeydd) nad ydyn ni'n talu digon o arian am y gwaith rydyn ni'n gofyn iddyn nhw ei wneud. […] oherwydd ni fyddai'r swm y bydden ni'n ei roi ar gyfer plentyn byth yn gallu disodli'r hyn y bydden nhw'n ei godi ar rywun yn breifat." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Yn ogystal, dywedodd un awdurdod lleol fod cyllid yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru gynt, ond ei fod bellach yn cael ei sianelu trwy'r Grant Plant a Chymunedau. Mae'r newid hwn yn golygu bod angen trafod cyllid yn lleol, sy'n creu ansicrwydd i ddarparwyr ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd awdurdod lleol arall yn teimlo'n ffodus bod eu harweinwyr Grant Plant a Chymunedau yn deall hyblygrwydd y cyllid ac nad ydynt yn herio dyraniadau ar gyfer Dechrau'n Deg, yn gyffredinol. Mae hyn yn

galluogi gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar i gydweithio'n fwy effeithiol. Wedi dweud hynny, cyfeiriwyd at rai cyfyngiadau ynglŷn â hyblygrwydd cyllid o hyd, sy'n gallu creu pwysau weithiau wrth ddatblygu gwasanaethau.

Amlygwyd hefyd fod cyllid ar gyfer ymyriadau datblygu iaith yn creu pwysau penodol, wrth i rai awdurdodau lleol ddweud bod y gyllideb sydd ar gael yn llai na'r hyn sy'n cyfateb i un cyflog amser llawn.

Adroddodd llawer o awdurdodau lleol am anawsterau recriwtio a chadw parhaus ar gyfer staff Dechrau'n Deg a staff gofal plant eraill, gyda swyddi allweddol yn wag am gyfnod hir (e.e., ymwelwyr iechyd, gweithwyr clinigol proffesiynol, a rolau arbenigol), sy'n tanseilio darparu'r rhaglen. Mae'r prinder gweithwyr gofal plant proffesiynol wedi ysgogi rhai ardaloedd i fabwysiadu model "datblygu eich rhai eich hun", gan hyfforddi a datblygu staff yn fewnol i lenwi bylchau (gweler yr adran "Yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ac enghreifftiau o arfer gorau"). Mae'r her hon yn bodoli ar sawl lefel. Amlygodd rhai awdurdodau lleol fylchau mawr mewn swyddi staff uwch, yn enwedig ym maes gofal plant ac ymweliadau iechyd. Dywedodd un awdurdod lleol mai recriwtio a chadw o fewn gwasanaethau ymwelwyr iechyd fu eu her fwyaf yn ystod y 4 blynedd diwethaf. Mae nifer yr ymwelwyr iechyd sydd newydd hyfforddi wedi lleihau'n sylweddol, tra bod llawer o aelodau staff profiadol wedi ymddeol neu symud ymlaen, sy'n golygu ei bod yn anodd recriwtio staff yn eu lle. Mae'r prinder hwn yn y gweithlu wedi creu her barhaus o ran cynnal safonau ansawdd uchel ar draws gwasanaethau.

> "Rwy'n credu mai'r her fwyaf i ni yn ystod y pedair blynedd diwethaf fyddai staffio, felly cael y trefniadau recriwtio a chadw iawn i'r gwasanaeth system iechyd. Mae nifer yr ymwelwyr iechyd sydd wedi cael eu hyfforddi wedi lleihau'n eithaf sylweddol dros y blynyddoedd. Ac mae llawer o staff wedi ymddeol o'r gwasanaeth neu symud ymlaen i rolau eraill. Ac yna bu'n anodd iawn recriwtio i'r rolau hynny." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Soniwyd ei bod hefyd yn anodd recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, a bod rhai awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar fagu hyder mewn sgiliau Cymraeg presennol staff i fodloni gofynion y gwasanaeth.

Mae ffactorau allweddol a grybwyllwyd sy'n cyfrannu at y materion hyn yn cynnwys (i) bod cyflogau yn y sector gofal plant yn isel o gymharu â sectorau eraill, (ii) bod y ddibyniaeth ar gontractau tymor byr yn ei gwneud hi'n anodd denu a chadw staff medrus, a (iii) bod gofynion cymwysterau yn gallu creu rhwystrau, er enghraifft, pan na fydd gwarchodwyr plant hŷn yn bodloni safonau newydd i'w cynnwys yn y rhaglen, neu pan fydd rhaid i leoliadau aros i staff gwblhau hyfforddiant ychwanegol cyn y gallant ymuno â'r gweithlu.

Adroddwyd bod y broses o ehangu Dechrau'n Deg wedi creu cymhlethdodau cyllido ychwanegol. Er bod cyllid ehangu wedi'i glustnodi i ddechrau, sy'n golygu na ellid ei ddefnyddio i gynnal y rhaglen bresennol, arweiniodd hyn at anghydbwysedd o ran adnoddau, gan nad oedd awdurdodau lleol yn gallu ailgyfeirio cyllid i'r meysydd lle'r oedd ei

angen fwyaf [troednodyn 4]. Soniodd un awdurdod lleol fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno'n ddiweddarach i beidio â chlustnodi Cam 2, gan roi mwy o hyblygrwydd o ran sut y defnyddir adnoddau. Fodd bynnag, wrth i broses ehangu Cam 3 fynd rhagddi, mae pryderon wedi codi y gallai clustnodi gael ei ailgyflwyno, gan felly gyfyngu ar yr hyblygrwydd o ran defnyddio adnoddau.

Er y cydnabuwyd yn gyffredinol bod ymwelwyr iechyd yn cyflawni rôl allweddol yn y rhaglen, ac yr amlygwyd bod eu hyblygrwydd a'u dull cymunedol yn gryfderau allweddol, nodwyd rhai heriau hefyd. Dywedodd llawer o awdurdodau lleol fod y rhaglen wedi cael ei hailstrwythuro, a oedd wedi effeithio ar ddarparu gwasanaethau'n effeithlon. Dywedodd rhai cyfweleion fod yr elfen iechyd wedi newid ar ôl y pandemig, sy'n cyflwyno heriau o ran darparu. O dan y model cyn COVID, roedd ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg wedi'u hymgorffori yn y gymuned, roeddent yn gweithio o adeiladau Dechrau'n Deg, roedd ganddynt lwythi achosion isel, ac roeddent yn ffurfio perthnasoedd cryf â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Roeddent yn hyrwyddo'r rhaglen o enedigaeth, gan sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r hyn a oedd ar gael iddynt ac yn ymgysylltu'n gynnar.

Dywedodd tua 1/5 o'r awdurdodau lleol a gyfwelwyd fod y model hwn wedi newid bellach; nid yw ymwelwyr iechyd yn gweithio mewn adeiladau Dechrau'n Deg ac mae ganddynt lwythi achosion cymysg (Dechrau'n Deg a chyffredinol). Mae'r newid hwn wedi gwanhau ymgysylltiad â rhieni trwy (i) leihau cysylltiad â theuluoedd Dechrau'n Deg, (ii) creu dryswch ynglŷn â chymhwysedd, a (iii) golygu bod teuluoedd weithiau'n cael gwybodaeth anghywir am eu hawl i ofal plant Dechrau'n Deg.

> "Roedd ein hymwelwyr iechyd cyn y pandemig wedi cyfuno'n un, felly roedden ni'n arfer bod â thimau Dechrau'n Deg ar wahân a thimau generig ar wahân, a oedd yn gweithio'n dda. Roedd popeth yn gweithio'n dda pan oedd hynny'n digwydd, ond oherwydd y prinder ymwelwyr iechyd yn gyffredinol, bu'n rhaid i ni gyfuno'r tîm yn un." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Yn ogystal, adroddodd un awdurdod lleol y bu'n rhaid iddo gefnu ar fodel gwasanaeth wedi'i gydleoli o ganlyniad i ailstrwythuro a arweiniwyd gan y cyngor. Yn flaenorol, darparwyd ei gynnig magu plant gan dîm a oedd wedi'i gydleoli'n llawn a oedd yn gweithio o un adeilad. Yn dilyn yr ailstrwythuro, mae'r tîm bellach wedi'i rannu ar draws sawl hyb. Mae'r gwahaniad hwn yn golygu ei bod yn fwy anodd i integreiddio gwasanaethau ac mae wedi cymhlethu'r broses o ddarparu cymorth cydgysylltiedig i deuluoedd, oherwydd bod angen ailasesu ac addasu'n barhaus.

Adroddodd awdurdodau lleol fod anghenion teuluoedd yn fwy cymhleth a dwys bellach, a bod hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar staff sy'n wynebu heriau o'r fath bob dydd, gan effeithio ar eu lles a'u hysbryd. Er bod ambell awdurdod lleol yn rhoi rhai mesurau ar waith (e.e., trefnu digwyddiadau lles i ddod â staff at ei gilydd a rhoi cyfle i drafod heriau ar y cyd), ystyrir mai'r hyn sy'n effeithio ar ysbryd yn gyffredinol yw'r pwysau parhaus sy'n gysylltiedig â darparu llawer o wasanaethau a bodloni gofynion sy'n cynyddu. Mae'r pwysau cyson hyn yn effeithio

Troednodiadau

[4] Mae'r cyllid wedi'i glustnodi nes i'r broses gyflawni gael ei chwblhau. Bu hyn yn wir am bob cam wrth i awdurdodau lleol gyrraedd eu targedau cyflawni.

ar gynaliadwyedd a chadw staff, gyda rhai aelodau staff yn dweud y gallent ennill cyflog tebyg yn gweithio mewn lleoliadau eraill heb y straen maen nhw'n ei wynebu nawr.

Dywedodd awdurdodau lleol fod darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg mewn ardaloedd gwledig yn gallu bod yn arbennig o anodd. Yn wahanol i ardaloedd trefol, lle y gall un hyb wedi'i gydleoli wasanaethu llawer o deuluoedd, mae angen i ardaloedd gwledig gael sawl swyddfa mewn gwahanol fannau, sy'n golygu bod y model yn defnyddio llawer mwy o adnoddau. Mae'r her hon wedi dwysáu wrth i'r rhaglen ehangu i ardaloedd newydd, ac mae rhai awdurdodau lleol yn dweud bod rhaid i'w gwasanaethau bellach rychwantu ardaloedd mawr iawn sy'n aml yn brin eu poblogaeth.

Mae'r amgylchiadau hyn yn creu anawsterau i deuluoedd ac ymarferwyr. Crybwyllodd un awdurdod lleol fod teuluoedd yn gallu byw hyd at 30 munud o'r lleoliad Dechrau'n Deg agosaf, tra bod ymarferwyr cymunedol yn gallu treulio hyd at awr yn teithio rhwng lleoliadau. Mae awdurdodau lleol wedi cyflwyno sawl mesur lliniaru i fynd i'r afael â'r heriau hyn, fel defnyddio Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd o bell a chyflwyno rhai rhaglenni magu plant ar-lein, sy'n lleihau'r angen i staff a theuluoedd deithio.

#### 3.1.6.1 Heriau sy'n gysylltiedig ag ehangu'r rhaglen

Mae awdurdodau lleol hefyd yn rhannu rhai heriau sy'n benodol i Gamau 2 a 3 ehangu'r rhaglen. Mae Dechrau'n Deg bellach wedi newid i system dwy haen sy'n golygu bod rhai teuluoedd yn derbyn yr ystod lawn o wasanaethau (h.y. gofal plant a mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd, yn ogystal â chymorth magu plant a chymorth datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu pan fydd angen) a bod eraill yn derbyn yr elfen gofal plant yn unig. Mae'r dull hwn yn golygu bod mwy o blant bellach yn gallu elwa o ofal plant Dechrau'n Deg na fyddent wedi derbyn unrhyw gymorth yn flaenorol.

Fodd bynnag, yn ystod y cyfweliadau, dywedodd rhai awdurdodau lleol fod y gwahaniaeth hwn yn ei gwneud hi'n anodd rheoli disgwyliadau rhieni, yn enwedig mewn ardaloedd ehangu Cam 2 lle mae rhieni weithiau'n tybio bod holl wasanaethau Dechrau'n Deg ar gael iddynt os bydd arnynt eu hangen. O ganlyniad, mae ymwelwyr iechyd yn cael cwestiynau a chwynion yn aml gan rieni nad ydynt yn gallu cael gwasanaethau ychwanegol.

Mynegodd cyfwelai arall bryder hefyd fod ehangu'r elfen gofal plant yn unig yn peryglu tanseilio blynyddoedd o waith a wnaed i gyfleu'r neges bod Dechrau'n Deg yn fwy na gofal plant yn unig.

Yn ogystal, amlygodd un awdurdod lleol fod y ddarpariaeth graidd wreiddiol wedi bod yn destun proses comisiynu gofal plant drwyadl, a bod gan wasanaethau gontract hyd at 2028. I ddiogelu'r gwasanaethau hynny, mae ardaloedd ehangu'n cynnig model gwahanol, sy'n golygu nad yw teuluoedd mewn ardaloedd ehangu'n gallu cael yr un gwasanaethau gofal plant, heblaw mewn achosion pan fydd angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu gymorth ADY. Mae hyn wedi achosi rhwystredigaeth i deuluoedd, yn ôl yr awdurdod lleol hwn. Awgrymodd yr un cynrychiolydd y dylid bod wedi brandio'r broses o ehangu'r elfen gofal plant yn unig yn wahanol er mwyn rheoli disgwyliadau'n fwy effeithiol.

Dywedodd rhai cyfweleion hefyd fod Cam 2 yr ehangu wedi golygu bod rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda mwy o ddarparwyr gofal plant preifat. Er y disgwyliwyd hyn, mae graddfa'r ehangu wedi cyflwyno heriau o ran cynnal cysondeb ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Ym marn un awdurdod lleol, mae rhai o'r darparwyr yn brin o'r blynyddoedd o

hyfforddiant a phrofiad sy'n benodol i Ddechrau'n Deg, ac maen nhw wedi cael llai o gymorth, buddsoddiad, a monitro ansawdd.

O ganlyniad, dywedodd yr un awdurdod lleol fod angen iddynt fuddsoddi adnoddau ychwanegol i gefnogi darparwyr preifat a gwella ansawdd. Adroddodd awdurdod lleol arall fod llawer o leoliadau sy'n ymuno o dan yr ehangu wedi'u graddio'n sylweddol is na lleoliadau Dechrau'n Deg craidd. Roedd y graddfeydd hyn wedi'u seilio ar asesiadau ansawdd mewnol a gynhelir gan yr awdurdod lleol trwy ymweliadau monitro, sydd hefyd yn gallu helpu i amlygu'r angen am gymorth ychwanegol. I hyrwyddo cysondeb, maen nhw wedi cynnig yr holl hyfforddiant Dechrau'n Deg i ddarparwyr nad ydynt yn rhan o Ddechrau'n Deg er mwyn rhannu arferion gorau. Fodd bynnag, pan nad yw'r cyllid yn cyfateb i'r cyfraddau y gall darparwyr ddisgwyl eu derbyn ar gyfer lleoliadau preifat, mae'n anodd annog darparwyr preifat yn gyson i ymwneud â'r cyfleoedd hyn.

> "Roedden ni'n synnu, […] roedden ni'n gwybod y byddai ychydig yn wahanol, ond doedden ni ddim yn sylweddol pa mor wahanol (ansawdd lleoliadau gofal plant newydd). Rydyn ni'n graddio ein lleoliadau, fel ein bod ni'n gwybod pwy sydd angen ychydig mwy o gymorth nag eraill, felly mae'r lleoliadau newydd hynny'n cael mwy o gymorth gan y tîm cynghori." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Adroddodd rhai awdurdodau lleol fod oedi o ran cyfathrebu a chael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cam 3 yr ehangu wedi creu heriau cynllunio a gweithredu. Roedd yr oedi hwn yn rhannol gysylltiedig ag amseru'r setliad cyllideb cenedlaethol, a effeithiodd ar allu Llywodraeth Cymru i gadarnhau dyraniadau a chymeradwyaethau. O ganlyniad, profodd rhai awdurdodau lleol effeithiau cynyddol, gan gynnwys methu dyddiadau dechrau ar gyfer Cam 3 ac anawsterau recriwtio. Mae'n cymryd 3 i 4 mis i recriwtio staff fel arfer, a heb gymeradwyaethau prydlon, ni all awdurdodau lleol ddechrau'r broses yn ddigon cynnar i fodloni dyddiadau dechrau bwriadedig. Gall cyfnodau rhybudd ar gyfer staff newydd ychwanegu mwy o bwysau amser hefyd. Dywedodd ambell gyfwelai hefyd y gallai oedi gynyddu risg tanwario, o ystyried bod cyllid yn cael ei ddyrannu o fis Ebrill i fis Mawrth, a allai arwain at oblygiadau i ddyraniadau yn y dyfodol. Yn ogystal, gall cyhoeddiadau ynglŷn ag ehangu Dechrau'n Deg weithiau beri i deuluoedd ddisgwyl y bydd lleoedd ar gael ar unwaith, gan greu rhwystredigaeth pan fydd oedi cyn gweithredu.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi gweld nad yw'r cynnydd mewn cyllid yn ddigonol i gyfateb i'r ehangu. Mae'r galw cynyddol a chwyddiant wedi ymestyn adnoddau awdurdodau lleol, gan adael llawer o blant heb fynediad at y gwasanaethau ychwanegol y mae arnynt eu hangen. Mae rhai awdurdodau lleol yn pryderu'n arbennig am gynnal lefelau cyllid ar yr un pryd â sicrhau ansawdd gwasanaethau gofal plant, yn enwedig o dan Gam 3 yr ehangu.

Er nad oedd Llywodraeth Cymru wedi mynnu proses gomisiynu ar gyfer elfen gofal plant yr ehangu (y tu hwnt i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru), mae rhai awdurdodau wedi cynnal eu prosesau comisiynu a monitro eu hunain i gynnal ansawdd, gan gynnwys ymweliadau misol â phob lleoliad. Fodd bynnag, ar adeg y cyfweliad, adroddwyd nad oedd eglurder ynglŷn â phryd y bydd Cam 3 yn cael ei gymeradwyo na faint o gyllid a fydd yn cael ei ddyrannu; mae'n anodd i awdurdodau lleol gynllunio gwasanaethau a threfnu adnoddau'n effeithiol ar eu cyfer.

> "Mae cam dau wedi cymryd llawer o amser heb oriau staff ychwanegol neu gydag ychydig iawn o oriau staff ychwanegol. Ac yna cam tri, […] gofynnwyd i ni

sut bydden ni'n ei gyflawni, beth oedden ni'n mynd i'w wneud, ond doedd gennym ni ddim syniad am y cyllid, felly a ydych chi'n creu rhestr ddymuniadau hir neu'r byd delfrydol. Ac yna maen nhw'n dweud, wel, na, chewch chi ddim mo'r arian." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Adroddodd awdurdodau lleol fod allgymorth yn wynebu amrywiaeth o heriau sy'n gallu cyfyngu ar ei hygyrchedd a'i effeithiolrwydd. Mewn ardaloedd gwledig, mae'n anodd i deuluoedd fynychu gwasanaethau wyneb yn wyneb fel sesiynau aros a chwarae neu grwpiau gofal plant oherwydd pellterau teithio hir. Gall galw uchel, ynghyd ag argaeledd staff a chapasiti gofal plant cyfyngedig, atal teuluoedd rhag defnyddio'r holl wasanaethau sydd ar gael. Yn ogystal, mae'r argyfyngau tai a chostau byw parhaus wedi achosi i fwy o deuluoedd, gan gynnwys mamau yn eu harddegau a phoblogaethau eraill agored i niwed, gael eu lleoli mewn gwestai neu lety dros dro y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg craidd, gan gynyddu'r galw am allgymorth. Yn olaf, mae llawer o atgyfeiriadau'n canolbwyntio'n bennaf ar ofal plant, nad yw'n mynd i'r afael ag anghenion ehangach y teulu, o bosibl. Mae awdurdodau'n amlygu, er bod hyn wedi cael ei liniaru'n rhannol trwy baneli seiliedig ar anghenion a meini prawf cymhwysedd wedi'u targedu, ei fod yn parhau i rwystro teuluoedd rhag cael mynediad at wasanaethau eraill heblaw am ofal plant.

## 3.2 Gweithredu Dechrau'n Deg – safbwyntiau teuluoedd Dechrau'n Deg

Mae'r adran hon yn manylu ar sut mae Dechrau'n Deg yn cael ei chyflwyno'n ymarferol a sut mae teuluoedd yn profi'r rhaglen o'r cysylltiad cyntaf i ymgysylltiad parhaus. Mae'n archwilio sut mae teuluoedd yn dod i wybod am y rhaglen, eu disgwyliadau cychwynnol, ac i ba raddau y bodlonir y rhain. Mae hefyd yn ystyried bodlonrwydd â'r gwahanol elfennau cymorth, y rhwystrau a'r heriau sy'n dylanwadu ar fynediad, ac awgrymiadau'r teuluoedd eu hunain ar gyfer gwella. Cynhwyswyd teuluoedd cymharu i roi gwybodaeth ychwanegol am sut mae aelwydydd nad ydynt yn cymryd rhan yn gweld a defnyddio gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Gyda'i gilydd, mae'r safbwyntiau hyn yn taflu goleuni ar effeithiolrwydd, hygyrchedd, a chynwysoldeb y ddarpariaeth Dechrau'n Deg, gan helpu i amlygu cryfderau wrth ddarparu'r rhaglen a chyfleoedd ar gyfer datblygu ymhellach.

### 3.2.1 Ymwybyddiaeth o'r rhaglen a phenderfynu ymgysylltu

Gofynnwyd i'r teuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg sut cawsant wybod am y rhaglen gyntaf a'u rhesymau dros benderfynu manteisio ar y gwasanaethau. Diben hyn oedd ein helpu i ddeall sut mae'r rhaglen yn cyrraedd teuluoedd, effeithiolrwydd cyfathrebu a lledaenu gwybodaeth, a pha mor hygyrch yw gwybodaeth am y rhaglen. Yn ogystal, holwyd y teuluoedd cymharu ynglŷn â'u hymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw a'u teuluoedd, yn ogystal â ph'un a oeddent yn ymgysylltu â'r gwasanaethau hynny ar hyn o bryd neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

#### 3.2.1.1 Sut y cafodd teuluoedd wybod am Ddechrau'n Deg

Clywodd mwyafrif y teuluoedd am Ddechrau'n Deg gyntaf trwy atgyfeiriadau neu apwyntiadau ymwelydd iechyd, sef y llwybr mwyaf cyffredin o bell ffordd. Dywedodd llawer

eu bod wedi cael eu cyflwyno i'r rhaglen pan amlygodd ymwelwyr iechyd bryderon, fel oedi wrth ddatblygu lleferydd, neu pan ddyrannwyd mwy o gymorth gan ymwelydd iechyd iddynt oherwydd eu bod yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg. Esboniodd eraill eu bod wedi cael gwybod yn ystod apwyntiadau rheolaidd.

Roedd hefyd yn gyffredin i deuluoedd gael gwybod am y rhaglen trwy ffrindiau, teulu, cydweithwyr, neu gymdogion. Yn aml, dywedodd rhieni fod rhieni eraill a oedd eisoes yn defnyddio'r gwasanaeth wedi eu hannog i ymuno, a hynny weithiau gan amlygu gwasanaethau penodol fel gofal plant neu gymorth magu plant.

Cynhaliodd sawl rhiant eu hymchwil eu hunain ar-lein. Gwnaethant chwilio am opsiynau gofal plant, cyngor ar fagu plant, neu gymorth cyffredinol i'w plant, a chawsant wybod am Ddechrau'n Deg trwy wefan eu gwasanaeth gwybodaeth lleol. Dywedodd rhai fod sianeli cyfryngau cymdeithasol penodol wedi cyfrannu at gynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglen, e.e. grwpiau Facebook eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol.

Daeth grŵp llai o deuluoedd i wybod am y rhaglen trwy ddarparwyr gofal iechyd, fel meddygon, therapyddion galwedigaethol, neu arbenigwyr eraill, a oedd naill ai wedi'u hatgyfeirio'n uniongyrchol neu argymell eu bod yn archwilio'r cymorth sydd ar gael. Mewn rhai achosion, roedd ysgolion, rheolwyr cylch chwarae, neu staff Dechrau'n Deg eu hunain wedi gwneud atgyfeiriadau, sy'n golygu bod teuluoedd wedi ymuno â'r rhaglen trwy rwydweithiau proffesiynol yn hytrach na hunanatgyfeirio.

Yn olaf, dywedodd nifer lai o rieni eu bod wedi dechrau defnyddio'r gwasanaethau heb sylweddoli eu bod yn rhan o Ddechrau'n Deg, neu eu bod wedi cael cynnig y gwasanaeth yn rhan o weithgareddau cymunedol, fel tylino babanod, neu drwy ganolfan integreiddio teuluoedd.

#### 3.2.1.2 Pam yr oeddent wedi penderfynu ei defnyddio

Y rheswm mwyaf cyffredin pam oedd teuluoedd yn ystyried defnyddio Dechrau'n Deg oedd pryder ynglŷn â datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu eu plant. Roedd llawer o rieni'n pryderu nad oedd eu plant yn cyrraedd cerrig milltir, eu bod yn araf yn dechrau siarad, neu'n cael trafferth mynegi eu hunain. I rai, roedd anghenion dysgu ychwanegol neu gyflyrau fel Syndrom Down yn cynyddu'r angen brys i geisio cymorth, gan eu bod eisiau cymorth arbenigol i roi'r dechrau gorau posibl i'w plant.

> "Mae'n cynorthwyo rhieni. Rydw i wedi'i defnyddio o'r blaen, ac roedd yn dda gyda fy mhlentyn cyntaf. Mae'n helpu i wella datblygiad a sgiliau cymdeithasol plant. At ei gilydd, mae'n helpu i baratoi plant ar gyfer yr ysgol." (Teulu Dechrau'n Deg)

Roedd gofal plant yn ysgogwr arall cryf. Roedd rhieni'n gweld gofal plant Dechrau'n Deg fel ffordd o greu mwy o amser i'w hunain, p'un a oedd hynny'n golygu dychwelyd i weithio, rheoli cyfrifoldebau'r aelwyd, neu ganolbwyntio ar faban newydd tra bod plant hŷn yn mynychu gweithgareddau strwythuredig. Roedd yr oriau a ariennir yn apelio'n fawr at deuluoedd a oedd dan bwysau ariannol. Roedd rhieni hefyd yn gwerthfawrogi gofal plant fel cyfle i'w plant gymdeithasu, datblygu annibyniaeth, a pharatoi'n well ar gyfer yr ysgol.

> “Roeddwn i’n ôl yn gweithio’n amser llawn i allu darparu ar gyfer y teulu, ond hefyd oherwydd roeddwn i eisiau i’m merch ddechrau cymdeithasu […] a gallu datblygu cysylltiadau a pherthnasoedd â phlant eraill.” (Teulu Dechrau’n Deg)

Roedd y cymorth magu plant sydd ar gael yn denu nifer sylweddol o deuluoedd hefyd. Roedd rhai eisiau arweiniad i ymdopi â heriau fel gorbryder, iselder ôl-enedigol, anawsterau wrth ffurfio cwlwm agosrwydd â’u plant, neu reoli ymddygiad. Roedd eraill yn chwilio am rywle i gysylltu â rhieni eraill trwy sesiynau grŵp neu gwnsela, lle y gallent rannu profiadau, cael tawelwch meddwl, a chynyddu hyder yn eu sgiliau magu plant.

> “Roeddwn i’n credu ’mod i wedi paratoi ar gyfer bod yn dad nes i’m gwraig roi genedigaeth i’m mab. Fe sylwes i fy mod i’n cael trafferth gyda llawer o bethau, yn cael trafferth deall fy maban, yn cael trafferth deall ei anghenion. […] Roeddwn i’n teimlo bod angen y cymorth magu plant arna’i.” (Teulu Dechrau’n Deg)

Roedd y gwasanaeth mwy o gymorth gan ymwelydd iechyd yn apelio at deuluoedd a oedd eisiau ymweliadau gwirio rheolaidd a chyngor proffesiynol. Roedd rhieni’n credu y byddai’r ymweliadau ychwanegol a’r arweiniad wedi’i deilwra yn rhoi tawelwch meddwl iddynt, yn enwedig pan oeddent yn wynebu sefyllfaoedd cymhleth. Esboniodd un rhiant, er enghraifft, ei fod yn pryderu’n fawr am ddiagnosis awtistiaeth ei blentyn ac yn gobeithio cael cymorth i reoli’r ansicrwydd.

> “Fel rhiant, roedd arna’i angen llawer o gymorth oherwydd doedd gen i ddim syniad na phrofiad o gael plentyn ag awtistiaeth. […] Roedd yn adeg ryfedd iawn i mi, felly roedd gwir angen cymorth arna’i.” (Teulu Dechrau’n Deg)

Yn olaf, roedd enw da’r rhaglen wedi dylanwadu ar rai teuluoedd. Roeddent yn gobeithio elwa o brofiadau cadarnhaol ffrindiau a pherthnasau, ac roedd y rhai hynny a oedd eisoes wedi defnyddio un elfen o Ddechrau’n Deg yn aml yn awyddus i archwilio gwasanaethau eraill. Yn yr achosion hyn, roedd rhieni’n disgwyl i’r rhaglen ddarparu cymorth cyson a dibynadwy ar draws gwahanol feysydd bywyd teuluol.

#### 3.2.1.3 Teuluoedd cymharu

Cyflwynodd y teuluoedd cymharu ddarlun mwy cymysg o ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth i deuluoedd ac ymgysylltiad â nhw. Roedd rhai’n amlwg yn ymwybodol o Ddechrau’n Deg, ac roedd un rhiant yn gallu rhestru pedair elfen y rhaglen, tra bod gan eraill ymwybyddiaeth rannol ohoni’n unig, a oedd yn aml yn gyfyngedig i ddarparu gofal plant. Roedd gan nifer o deuluoedd ychydig o wybodaeth am Ddechrau’n Deg neu ddim gwybodaeth amdani o gwbl, ac yn lle hynny daethant i wybod am fathau eraill o gymorth trwy grwpiau cymunedol, canolfannau lleol i deuluoedd, neu eu meddyg teulu. Yn aml, roedd y canolfannau hyn yn cynnig gweithgareddau, fel dosbarthiadau magu plant, grwpiau babanod, neu sesiynau tylino babanod, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a dyma’r unig fath o gymorth hygyrch a oedd ar gael yn aml i deuluoedd mewn ardaloedd gwledig.

Pan ofynnwyd iddynt am eu hymgysylltiad, disgrifiodd y teuluoedd cymharu brofiadau amrywiol. Roedd nifer ohonynt wedi cael cymorth yn y gorffennol, fel therapi lleferydd ac iaith trwy’r Tîm o Amgylch y Teulu, neu gylchoedd chwarae a methrinfeydd a gynhelir gan

elusennau. Dewisodd eraill ddarpariaeth feithrin breifat pan gyrhaeddodd eu plant oedran meithrin. Fodd bynnag, disgrifiodd llawer o deuluoedd ymgysylltiad uniongyrchol cyfyngedig neu ddim ymgysylltiad uniongyrchol â gwasanaethau cymorth ffurfiol, er eu bod yn cydnabod y buddion posibl. Mynegodd sawl un ddiddordeb mewn rhaglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf neu Ddechrau'n Deg, ond nid oeddent wedi gallu cael atynt eto, naill ai oherwydd cyfyngiadau cymhwysedd, diffyg darpariaeth leol, neu ymwybyddiaeth gyfyngedig o sut i gymryd rhan.

### 3.2.2 Disgwyliadau cychwynnol

Gofynnwyd i deuluoedd Dechrau'n Deg beth roeddent yn ei ddisgwyl pan roeddent yn ystyried gwasanaethau Dechrau'n Deg gyntaf. Roedd hyn yn cynnwys eu gobeithion ar gyfer y cymorth a gynigir, y canlyniadau yr oeddent eu heisiau ar gyfer eu plant a nhw eu hunain, a'r rhesymau pam yr oeddent yn credu y gallai'r rhaglen fod yn ddefnyddiol iddynt. Mae archwilio'r disgwyliadau cychwynnol hyn yn taflu goleuni ar yr hyn sydd bwysicaf i rieni ar yr adeg ymgysylltu, yr anghenion maen nhw eisiau mynd i'r afael â nhw, a'r rôl y disgwylir i Ddechrau'n Deg ei chwarae wrth gefnogi bywyd teuluol.

#### 3.2.2.1 Gofal plant

Fynychaf, roedd teuluoedd yn disgwyl i ofal plant Dechrau'n Deg ganiatáu i'w plant gymdeithasu a datblygu sgiliau cymdeithasol. Roedd llawer hefyd yn disgwyl i bresenoldeb gefnogi datblygiad ehangach, gan gynnwys hyder a galluoedd ieithyddol, a chrybwyllodd rhai gyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn benodol. Disgwyliwyd hefyd y byddai'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd diogel a gofalgar, gyda gweithgareddau strwythuredig a fyddai'n helpu i baratoi plant ar gyfer yr ysgol.

> "Fy mhrif ddisgwyliad oedd y byddai'n darparu amgylchedd gofalgar lle gallai hi ddatblygu ei sgiliau cymdeithasol a'i galluoedd ieithyddol." (Teulu Dechrau'n Deg)

Dywedodd sawl rhiant eu bod yn gobeithio am ddysgu creadigol a dysgu seiliedig ar chwarae yn hytrach na chwarae distrwythur. Roedd eraill yn gweld y rhaglen fel ffordd o roi amser i rieni ar gyfer gwaith, hyfforddiant neu ddatblygiad personol, ac i helpu i gydbwyso cyfrifoldebau gofal plant o fewn yr aelwyd.

Mewn nifer lai o achosion, roedd disgwyliadau'n adlewyrchu diffyg eglurder ynglŷn â'r hyn y bwriedir i'r rhaglen Dechrau'n Deg ei ddarparu, ac roedd rhai teuluoedd yn disgwyl cymorth ariannol neu ofal plant yn y cartref. Dywedodd ambell riant nad oedd ganddynt ddisgwyliadau clir neu eu bod yn amau gwerth y gwasanaeth cyn cofrestru.

O ran p'un a fodlonwyd neu rhagorwyd ar ddisgwyliadau, dywedodd teuluoedd amlaf fod y gwasanaeth wedi rhagori ar eu disgwyliadau. Dywedwyd bod y staff yn gyfeillgar, yn gefnogol ac yn wasanaethgar, a dywedodd rhai rhieni fod y lleoliad gofal plant yn cynnig amgylchedd a oedd yn debycach i ysgol nag yr oeddent wedi disgwyl. Roedd llawer o deuluoedd yn credu y bodlonwyd eu disgwyliadau, yn enwedig o ran diogelwch eu plant, eu datblygiad cymdeithasol, a'u parodrwydd ar gyfer yr ysgol. Ni fodlonwyd disgwyliadau pan fu camddealltwriaeth ynglŷn â natur y cymorth, fel disgwyl cymorth ariannol neu ddarparu gofal gartref.

> “Doeddwn i ddim yn disgwyl iddi fod mor wych ag ydyw nawr. […] Doeddwn i ddim yn disgwyl iddi fod yn rhywbeth y byddwn yn dweud wrth bobl eraill amdano.” (Teulu Dechrau’n Deg)

#### 3.2.2.2 Mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd

Dywedodd y rhan fwyaf o deuluoedd nad oedd ganddynt lawer o ddisgwyliadau cychwynnol ynglŷn â’r gwasanaeth ymwelwyr iechyd, gan ei fod yn rhywbeth a oedd yn cael ei gynnig iddynt, yn syml. Nid oedd rhai’n llwyr ddeall rôl yr ymwelydd iechyd o flaen llaw. Pan fynegwyd disgwyliadau, roedd rhieni’n disgwyl cyngor proffesiynol a monitro datblygiad eu plentyn, cymorth gyda bwydo, neu arweiniad ar lywio canlyniadau iechyd, fel awtistiaeth. Roedd nifer fach yn disgwyl mewnbwn mwy ffurfiol neu dechnegol, fel seminarau, cyrsiau, neu atebion seiliedig ar wyddoniaeth. Roedd eraill yn bryderus ynglŷn â’r gwasanaeth, gan ddisgwyl i ymwelwyr iechyd eu barnu, yn enwedig o ran arferion magu plant.

> “Roeddwn i’n disgwyl y gallwn i ddod o hyd i rywun sy’n gallu, wyddoch chi, defnyddio’r proffesiynoldeb i’m helpu gyda phroses ddatblygiadol fy mhlentyn.” (Teulu Dechrau’n Deg)

Roedd profiadau o b’un a fodlonwyd disgwyliadau yn amrywio, ond roeddent yn gadarnhaol, yn bennaf. Dywedodd sawl teulu y rhagorwyd ar eu disgwyliadau, gan ddisgrifio ymwelwyr iechyd fel bod yn gefnogol, yn bresennol, ac yn rhagweithiol wrth fonitro datblygiad eu plentyn. Dywedodd rhieni a oedd yn ofni cael eu barnu i ddechrau eu bod wedi’u siomi ar yr ochr orau pan ganolbwyntiwyd yn llwyr ar les y plentyn, ac roeddent yn gwerthfawrogi’r cyngor ymarferol, anfarnol a gynigiwyd. Dywedodd eraill fod y gwasanaeth wedi bodloni eu disgwyliadau, yn enwedig pan oeddent eisiau cymorth proffesiynol i ddeall cynnydd datblygiadol neu anghenion iechyd eu plentyn. Mewn ambell achos, ni fodlonwyd disgwyliadau oherwydd bod rhieni wedi disgwyl darpariaeth addysgol fwy strwythuredig, fel cyrsiau neu seminarau.

> "Fe wnaethon nhw fwy na’r disgwyl. Fe wnaethon nhw’r ymdrech i’ch cynorthwyo chi ac ymweld â chi.” (Teulu Dechrau’n Deg)

#### 3.2.2.3 Cymorth magu plant

Roedd disgwyliadau cychwynnol teuluoedd Dechrau’n Deg o gymorth magu plant yn amrywio. Roedd llawer yn disgwyl arweiniad a oedd yn canolbwyntio ar ofal plant, iechyd, a lles, yn enwedig o ran datblygiad plant, anghenion synhwyraidd, neu reoli ymddygiad. Roedd rhai’n disgwyl cael lle i ofyn cwestiynau a rhannu profiadau gyda rhieni eraill, tra bod ambell un yn gobeithio cael cymorth iechyd meddwl penodol. Nid oedd gan rai teuluoedd lawer o ddisgwyliadau cyn ymgysylltu, neu ddim disgwyliadau, gan eu bod yn ansicr o’r hyn yr oedd y gwasanaeth yn ei gynnwys. Roedd nifer fach yn pryderu y gallent gael eu barnu neu eu hymyleiddio wrth ymuno â’r rhaglen, neu y byddai’r cymorth yn ffurfiol iawn neu wedi’i seilio ar ystafell ddosbarth.

> “Doeddwn i ddim yn disgwyl llawer, ond fel rhiant newydd, roeddwn i’n disgwyl cael cymorth magu plant, sy’n cynnwys gofal plant, magu plant, rheoli ymddygiad ac yn y blaen. […] A dwi’n credu fy mod i wedi’i gael. […] Roedd yn fwy na beth oeddwn i’n ei ddisgwyl […].” (Teulu Dechrau’n Deg)

I’r rhan fwyaf, bodlonwyd disgwyliadau neu rhagorwyd arnynt. Roedd rhieni’n gwerthfawrogi’r cyngor ymarferol a’r gefnogaeth emosiynol a gynigiwyd, yn enwedig y rhai hynny a oedd yn profi’r gwasanaeth am y tro cyntaf fel rhieni newydd. Gwnaethant amlygu bod y sesiynau’n rhyngweithiol yn hytrach na chaeth, a bod y staff yn rhoi cyngor adeiladol y gellid ei roi ar waith gartref. Dywedodd sawl rhiant nad oedd eu hofnau ynglŷn â barnu wedi cael eu gwireddu ac, yn lle hynny, bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn gefnogol. Rhagorwyd ar ddisgwyliadau rhieni eraill oherwydd bod y cymorth wedi mynd y tu hwnt i gyngor ar ofal plant i ymdrin â lles ehangach a hyder fel rhieni. Ni fodlonwyd disgwyliadau mewn ambell achos, a hynny fel arfer oherwydd teimlwyd bod mwy o bwyslais ar blant yn hytrach na rhoi sgiliau i rieni’n uniongyrchol, neu oherwydd nad oedd y ddarpariaeth yn cyfateb i’w rhagdybiaeth ynglŷn â fformat addysgu mwy strwythuredig. Fodd bynnag, mewn achosion o’r fath, dywedodd rhai rhieni fod y profiad yn gadarnhaol o hyd er ei fod yn wahanol i’r hyn yr oeddent wedi’i ddychmygu.

> “Yn y pen draw, fe ragorodd ar fy nisgwyliadau. Felly, doeddwn i ddim yn disgwyl mwy, roeddwn i’n disgwyl llai mewn gwirionedd. […] Fe aeth ymhell y tu hwnt i’m disgwyliadau ac, o ganlyniad, rydw i wedi’i argymell i bobl eraill. […] Rydw i fel hyrwyddwr nawr.” (Teulu Dechrau’n Deg)

#### 3.2.2.4 Datblygu lleferydd, iaith, a chyfathrebu

Gan amlaf, roedd teuluoedd yn disgwyl y byddai cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn helpu eu plant gyda datblygiad ac eglurder lleferydd ac yn gwella cyfathrebu yn gyffredinol. Roedd llawer hefyd yn gobeithio y byddai’r cymorth yn hybu hyder eu plentyn a’i helpu i gymdeithasoli, yn ogystal â rhoi arweiniad iddynt ar sut i atgyfnerthu cynnydd gartref. Roedd rhai rhieni’n disgwyl cynnig mwy generig, fel sesiynau grŵp neu daflenni, tra bod eraill yn disgwyl gwasanaeth personol, proffesiynol. Dywedodd nifer lai nad oedd ganddynt lawer o ddisgwyliadau cyn defnyddio’r rhaglen, neu ddim disgwyliadau, ac nid oedd un rhiant yn disgwyl i’r cymorth weithio o gwbl.

> “Roeddwn i wir yn gobeithio, wyddoch chi, am unrhyw beth i helpu i ysgogi fy merch, i hybu ei hunan-barch a’i helpu i gymdeithasu’n well, ei helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol gwell. […] Fel plentyn a oedd yn byw mewn cymdogaeth lle mae llawer o blant, ni fyddai’n chwarae gyda’i brawd hyd yn oed na chyda phlant eraill cymaint. Ac roeddwn i’n meddwl bod hynny’n ymwneud â’i hanhwylder lleferydd. Ac roeddwn i’n gobeithio y byddai’r rhaglen hon yn ei helpu.” (Teulu Dechrau’n Deg)

Yn ymarferol, bodlonwyd neu rhagorwyd ar ddisgwyliadau, fel arfer. Dywedodd rhieni fod y cymorth wedi’i deilwra ac yn ymarferol, ac amlygodd rhai fuddion derbyn sesiynau un i un, asesiadau seiliedig ar chwarae, a gwiriadau rheolaidd gyda therapyddion. Roedd teuluoedd yn gwerthfawrogi’r map trywydd a’r adnoddau a ddarparwyd i’w defnyddio gartref, a roddodd fwy o hyder iddynt i gefnogi sgiliau cyfathrebu eu plentyn. I rai, roedd y cymorth wedi rhagori ar eu gobeithion cychwynnol, gan helpu eu plentyn i ddatblygu ffyrdd amgen o’i fynegi ei hun a gwella ei hunan-barch cyffredinol.

> “Roeddwn i’n gobeithio am fwy o eiriau, yn syml. Ond roedden nhw’n anelu’n uwch. Roedden nhw’n anelu am fwy na geiriau yn unig. Bydden nhw’n helpu i gynyddu ei hyder i gyfathrebu, nid dim ond siarad.” (Teulu Dechrau’n Deg)

Pan na fodlonwyd disgwyliadau’n llawn, anaml yr oedd hyn o ganlyniad i ansawdd y cymorth a ddarparwyd. Er enghraifft, roedd rhai rhieni’n disgwyl i’r ddarpariaeth gael ei chyflwyno mewn fformat penodol, fel sesiynau grŵp, sesiynau strwythuredig, neu adnoddau mwy uniongyrchol, ond cawsant wasanaeth o fath gwahanol yn lle hynny. Er eu bod yn aml yn gwerthfawrogi’r ddarpariaeth a gawsant yn y pen draw, roedd y gamgyfatebiaeth rhwng yr hyn yr oeddent yn ei ddychmygu i ddechrau a’r hyn a ddarparwyd wedi creu ymdeimlad o ddisgwyliad heb ei fodloni. Yn bwysig, roedd y pryderon hyn yn adlewyrchu materion yn ymwneud ag amser, cyfathrebu, ac eglurder gwybodaeth yn hytrach nag anfodlonrwydd ag arbenigedd, proffesiynoldeb, neu ganlyniadau’r cymorth ei hun.

### 3.2.3 Bodlonrwydd â’r rhaglen

Holwyd y teuluoedd Dechrau’n Deg ynglŷn â pha mor fodlon yr oeddent â’r gwasanaethau a gawsant. Roedd hyn yn cynnwys eu safbwyntiau ar ansawdd a defnyddioldeb y cymorth, i ba raddau yr oedd wedi bodloni eu hanghenion, a’r canlyniadau yr oeddent wedi sylwi arnynt iddyn nhw eu hunain a’u plant. Mae archwilio bodlonrwydd yn taflu goleuni ar sut mae teuluoedd yn profi’r rhaglen yn ymarferol, y gwerth maen nhw’n ei briodoli i wahanol elfennau o’r ddarpariaeth, a meysydd lle y gellid cryfhau’r cymorth. Gofynnwyd i’r teuluoedd cymharu hefyd fyfyrio ar ba mor fodlon ydynt â’r cymorth maen nhw wedi’i gael. Trafodir rhwystrau a heriau a brofir gan deuluoedd yn yr adran nesaf.

#### 3.2.3.1 Gofal plant

Roedd y bodlonrwydd cyffredinol â chymorth gofal plant Dechrau’n Deg yn uchel iawn. Rhoddodd llawer o deuluoedd sgôr 10 allan o 10 i’r gwasanaeth, gan ddweud eu bod yn fodlon iawn. Rhoddodd eraill sgorau o 9 neu 9.5 allan o 10, a oedd yn adlewyrchu cymeradwyaeth gref gyda mân awgrymiadau ar gyfer gwella. Rhoddodd sawl rhiant sgôr o 8 neu 8.5 allan o 10, gan nodi profiadau cadarnhaol ond hefyd amlygu meysydd fel argaeledd cyfyngedig y gwasanaeth, cymarebau staff i blant, neu heriau amserlenni. Rhoddodd nifer fach sgorau is, sef 7 allan o 10 neu 5 allan o 10, a oedd yn aml yn gysylltiedig â disgwyliadau heb eu bodloni, camwybodaeth, neu brofiadau negyddol. Dywedodd ambell riant yn syml fod eu bodlonrwydd yn “fwy na 10”, sy’n pwysleisio cymaint y gwerthfawrogir y gofal plant a ddarperir.

Ar draws yr holl sgorau, bron, roedd rhieni’n canmol ansawdd y staff yn gyson. Dywedwyd bod y staff wedi’u cydlynu’n dda, yn broffesiynol, yn hawdd mynd atynt, ac yn ymatebol, ac roeddent yn gwerthfawrogi eu sylw diffuant i anghenion plant. Canmolwyd y staff am gyfathrebu’n glir a rhoi cymorth personol, er enghraifft, gydag anawsterau bwyta neu nodi anghenion dysgu ychwanegol. Roedd rhieni a roddodd 9 neu 10 allan o 10 yn aml yn pwysleisio bod y staff yn ganolog i’w profiadau cadarnhaol.

> “Roedd y cymorth wedi rhagori ar fy nisgwyliadau. Mae’n rhywbeth cymysg. Roeddwn i nid yn unig wedi cael cymorth gofal plant rhagorol, wyddoch chi, ond ymwelydd iechyd a chymorth ieithyddol. […] mae’r staff yn wybodus ac mae fy

> lles yn bwysig iddynt. Felly, byddwn i'n dweud […] fy mod yn fodlon iawn â'r cymorth a gefais. Roedd y staff wedi'u cydlynu'n dda ac yn ymatebol i anghenion y plant […]." (Teulu Dechrau'n Deg)

Dywedodd teuluoedd fod eu plant wedi addasu i'r lleoliadau gofal plant yn gyflym, yn mwynhau mynychu, ac yn elwa o ryngweithio cymdeithasol, gweithgareddau strwythuredig, a phrofiadau nad oeddent ar gael gartref. Roedd sawl rhiant wedi cysylltu eu sgorau bodlonrwydd uchel (yn aml 9 neu 10 allan o 10) â gwelliant mewn sgiliau cymdeithasu eu plentyn, ei ffrindiau, a'i gyfleoedd i ddatblygu. Crybwyllwyd bod cymorth ar gyfer sgiliau Cymraeg yn ganlyniad pwysig hefyd.

> "Maen nhw'n broffesiynol […] ac mae datblygiad fy mhlentyn yn wirioneddol bwysig iddynt, yn enwedig ei lleferydd a'i sgiliau cymdeithasol." (Teulu Dechrau'n Deg)

#### 3.2.3.2 Mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd

At ei gilydd, mynegodd teuluoedd safbwyntiau cadarnhaol ynglŷn â chymorth gan ymwelwyr iechyd, gyda llawer yn rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10. Dywedodd sawl un eu bod yn fodlon iawn neu fod y gwasanaeth yn amhrisiadwy. Roedd sgorau o 8.5 a 9.5 allan o 10 yn adlewyrchu profiadau cadarnhaol gyda mân awgrymiadau yn unig ar gyfer gwella. Rhoddodd nifer o rieni 8 allan o 10 ac roeddent yn fodlon at ei gilydd, fel arfer, ond yn codi pryderon penodol ynglŷn ag eglurder disgwyliadau, cyfathrebu, neu ddilyniant staff.

Roedd sgorau uchel yn aml yn gysylltiedig ag amlder ac ansawdd cysylltiad. Roedd rhieni'n gwerthfawrogi ymweliadau wythnosol parhaus, anogaeth glir gan staff i ddefnyddio gwasanaethau, a'r tawelwch meddwl a ddaw yn sgil gallu cysylltu â'u hymwelydd iechyd pan fydd angen. Pwysleisiodd un rhiant a roddodd 9 allan o 10 i'r gwasanaeth ei fod yn fodlon iawn oherwydd bod ei ymwelydd iechyd ar gael yn aml ac yn rhoi cymorth cyson.

> "Rwy'n credu eu bod nhw wedi gwneud gwaith gwych. Mae gennych chi'r cymorth ychwanegol […] yn y feddygfa bob wythnos. Felly, os nad yw'n amser a drefnwyd ar gyfer apwyntiad, fe allwch hi fynd i'w gweld nhw. Maen nhw'n eich cynghori i godi'r ffôn a galw'r swyddfa os oes gennych unrhyw bryderon. […] maen nhw'n eich annog chi i'w defnyddio nhw a gwneud y mwyaf o'u cymorth." (Teulu Dechrau'n Deg)

#### 3.2.3.3 Cymorth magu plant

Roedd y bodlonrwydd cyffredinol â chymorth magu plant yn uchel. Rhoddodd llawer o rieni 10 allan o 10 i'r gwasanaeth, gan ddweud eu bod yn fodlon iawn neu'n eithriadol o fodlon. Roedd sgorau o 9 allan o 10 yn gyffredin hefyd, tra bod nifer o rieni wedi rhoi sgorau o 7 neu 8 allan o 10 iddo. Rhoddodd lleiafrif bach sgorau is o 6.5, 5, neu 4 allan o 10.

Esboniodd rhieni a roddodd sgorau uwch yn aml fod y cymorth wedi cynyddu eu hyder a rhoi tawelwch meddwl iddynt eu bod yn gwneud y penderfyniadau iawn. Roeddent yn gwerthfawrogi gallu gofyn cwestiynau a chael arweiniad yn gynnar, a roddodd fwy o sicrwydd iddynt yn eu dewisiadau magu plant.

> "Wyddoch chi, pan fydd rhywun sydd wedi cael profiad yno gyda chi bob cam o'r ffordd, yn dangos i chi'r pethau iawn i'w gwneud, y camau iawn i'w cymryd […] hyd yn oed os byddwch chi'n gwneud camgymeriad, nid yw'n ddiwedd y byd. Camgymeriadau bach ydyn nhw y gellir eu cywiro. Ond os byddwch chi'n cael eich gadael ar eich pen eich hun, fe allai'r rhan fwyaf o gamgymeriadau fod yn waeth nag y gallwch ei ddychmygu. Felly, mae gwybod […] bod gwasanaeth sy'n eich helpu i ganfod eich ffordd yn rhywbeth na ellir ei brynu am arian. Mae'n amhrisiadwy." (Teulu Dechrau'n Deg)

Thema gref arall oedd y cyfle i rannu pryderon unigol yn agored a chysylltu â theuluoedd eraill. Dywedodd rhieni fod hyn wedi'u helpu i ddysgu gan ei gilydd, teimlo'n llai ynysig, a chael ymdeimlad o berthyn.

> "Rydw i wir yn mwynhau'r ffaith bod pob unigolyn yn cael cyfle i siarad am ei broblemau a sut i'w datrys." Teulu Dechrau'n Deg)

Amlygwyd ansawdd uchel y sesiynau, hefyd. Roedd y teuluoedd yn gwerthfawrogi dilyniant y rhaglen, yr amrywiaeth o weithgareddau a theganau, a'r ffordd y trefnwyd y sesiynau. Soniodd rhai am gymaint yr oedd eu plant yn mwynhau'r sesiynau ac yn siarad amdanynt yn ddiweddarach, a oedd yn ychwanegu at eu bodlonrwydd.

#### 3.2.3.4 Datblygu lleferydd, iaith, a chyfathrebu

Roedd y bodlonrwydd cyffredinol â gwasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn uchel. Rhoddodd llawer o rieni 10 allan o 10 i'r gwasanaeth, a rhoddodd sawl un sgôr o 9 allan o 10 iddo. Rhoddwyd sgorau o 8 i 8.5 allan o 10 hefyd, a rhoddodd nifer fach o rieni sgorau is. Mae'r sgorau hyn yn adlewyrchu profiad cadarnhaol at ei gilydd, ac adroddodd mwyafrif y teuluoedd fuddion sylweddol i'w plant, ochr yn ochr ag ambell her ymarferol.

Amlygodd rhieni fuddion clir i ddatblygiad eu plant. Disgrifiodd llawer welliannau amlwg i allu eu plant i gyfathrebu a rhyngweithio ag eraill. Rhannodd sawl un enghreifftiau o blant a oedd wedi bod yn ynysig yn gymdeithasol neu'n cael trafferth ymgysylltu yn flaenorol, ond a ddaeth yn fwy hyderus a pharod i gyfathrebu ar ôl cael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Hyd yn oed ar gyfer plant nad oeddent yn siarad eto, sylwodd rhieni ar gynnydd ystyrlon wrth i amser fynd heibio, a gyfrannodd at sgorau uchel, yn aml tua 8 allan o 10.

> "Heb y gwasanaethau hyn a oedd ar gael i mi, dydw i ddim yn credu y byddai lleferydd fy mhlentyn wedi datblygu." (Teulu Dechrau'n Deg)

Thema allweddol arall oedd gwerth therapi uniongyrchol ac arweiniad ymarferol. Roedd rhieni a roddodd sgôr o rhwng 8 a 9 allan o 10 i'r gwasanaeth wedi amlygu pwysigrwydd y ffaith bod therapyddion yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac yn rhoi cyngor i rieni. Dywedodd llawer fod y cymorth hwn wedi helpu plant i ddatblygu ffyrdd amgen o gyfathrebu pan nad oeddent wedi dechrau llefaru eto, a oedd wedi tawelu eu meddwl ac yn werthfawr iddynt.

> "Fe helpodd fy mhlentyn ieuengaf i ddatblygu sgiliau cyfathrebu. Mae wedi bod o gymorth mawr, a gweithiodd y therapydd yn uniongyrchol gyda fy mhlentyn, a

> rhoddodd arweiniad i ni rieni. Roedd yn wych. Roeddwn i'n teimlo mor falch wrth ei ddefnyddio." (Teulu Dechrau'n Deg)

Amlygwyd bod dilyniant ac ymatebolrwydd staff yn hanfodol i sicrhau y gallai plant a rhieni elwa'n llawn o'r gwasanaeth. Roedd ansawdd cymorth staff yn ffactor arall a oedd yn dylanwadu ar brofiadau rhieni. Canmolodd rhieni'r empathi, yr amynedd, a'r gofal a ddangoswyd gan therapyddion, gan nodi bod bodlonrwydd yn gwella'n aml pan oedd plentyn yn cael ei baru â therapydd a oedd yn gweddu'n dda.

> "Mae'n ymddangos bod lles y plant wir yn bwysig i'r staff. Mae'n fwy na 'dyma'r swydd i fi' yn unig, wyddoch chi. Roedden nhw'n awyddus iawn ac wedi datblygu perthynas, cwlwm agosrwydd gyda'r plant, sydd […] wedi cynyddu eu hunan-barch, mewn gwirionedd […]. Roeddwn i'n gallu gweld y gwahaniaethau yn ystod y pythefnos nesaf o ddefnyddio'r gwasanaeth. Ac er bod hyn yn broffesiynol, roedden nhw hefyd wedi gwneud iddo deimlo'n gartrefol. […] Roedden nhw'n amyneddgar ac yn garedig ac yn empathetig, ac roedd y plant wir yn bwysig iddyn nhw." (Teulu Dechrau'n Deg)

#### 3.2.3.5 Teuluoedd cymharu

Disgrifiodd y teuluoedd cymharu ystod o lefelau bodlonrwydd â'r cymorth yr oeddent wedi'i gael y tu allan i Ddechrau'n Deg, hefyd. Siaradodd rhai yn gadarnhaol iawn, gydag un rhiant yn dweud bod y cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu a gafodd yn "ddefnyddiol iawn", gan roi sgôr o "10 allan o 10" iddo. Roedd eraill yn gwerthfawrogi mynediad at ddarpariaeth gofal plant leol, fel cylchoedd chwarae a gynhelir gan elusennau neu ganolfannau i deuluoedd, a oedd nid yn unig wedi helpu i gynyddu hyder plant ond a oedd hefyd wedi rhoi'r amser i rieni chwilio am waith neu ofalu am eu hiechyd meddwl eu hunain. Ar yr un pryd, pwysleisiodd y teuluoedd hyn fod y galw am ofal plant wedi cynyddu'n sydyn ers COVID-19 a'r cynnydd mewn costau byw, gan arwain at bryderon ynglŷn ag argaeledd a phrinder staff. Nodwyd bylchau yn y ddarpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu hefyd, gydag un rhiant yn rhoi sgôr o 8 allan o 10 i wasanaethau, gan ddweud y byddai ei fodlonrwydd wedi bod yn uwch petai cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi bod ar gael ochr yn ochr â gofal plant.

Amlygodd sawl teulu cymharu werth cymdeithasol grwpiau magu plant a chanolfannau i deuluoedd. Roedd y lleoliadau hyn yn rhoi cyfleoedd i gysylltu â rhieni eraill, teimlo'n llai ynysig a chael cyngor ymarferol, yr oedd llawer o'r farn eu bod yr un mor bwysig ag ymyriadau uniongyrchol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Dywedwyd yn gyson bod staff yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt, ac yn gymwynasgar wrth gyfeirio at gymorth ychwanegol, fel atgyfeiriadau i therapi lleferydd.

### 3.2.4 Rhwystrau a heriau

Er bod bodlonrwydd yn adlewyrchu'r agweddau cadarnhaol ar ymgysylltiad teuluoedd â gwasanaethau, mae'r un mor bwysig ystyried y rhwystrau a'r heriau a allai gyfyngu ar fynediad, defnydd, neu effeithiolrwydd cymorth. Gofynnwyd i'r teuluoedd fyfyrio ar unrhyw anawsterau a gawsant wrth ymgysylltu â'r rhaglen, fel cyfyngiadau ymarferol, bylchau yn y ddarpariaeth, neu heriau wrth fodloni eu hamgylchiadau unigol. Mae deall y rhwystrau hyn

yn helpu i amlygu meysydd lle nad yw'r rhaglen yn cyrraedd ei chynulleidfa fwriadedig, o bosibl, yn amlygu anghydraddoldebau o ran mynediad neu brofiad, ac yn cyfeirio at gyfleoedd ar gyfer gwella'r ddarpariaeth. Trafododd teuluoedd cymharu y rhwystrau yr oeddent wedi'u hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau cymorth tebyg, hefyd.

#### 3.2.4.1 Rhwystrau a heriau yn ymwneud â'r rhaglen gyffredinol

Yr her a grybwyllwyd fwyaf oedd diffyg eglurder ynglŷn â sut i lywio'r system a diffyg lledaenu gwybodaeth yn rhagweithiol. Disgrifiodd rhieni anawsterau wrth ddeall y broses atgyfeirio a chynefino, ac roedd llawer yn ansicr pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth gywir. Dywedodd sawl teulu y bu'n rhaid iddynt chwilio ar-lein neu ddibynnu ar ffrindiau i ddod o hyd i'r manylion cyswllt iawn. Roedd eraill o'r farn nad oedd gwybodaeth am wasanaethau ar gael yn rhwydd neu fod yr arweiniad a gawsant yn ddryslyd.

Roedd profiadau teuluoedd o gael at Ddechrau'n Deg yn amrywio ar draws gwasanaethau. I lawer, roedd y broses yn syml ac yn cael ei chefnogi'n dda, yn enwedig pan oedd yn cael ei harwain gan ymwelwyr iechyd, gweithwyr allweddol, neu gysylltiadau eraill. Fodd bynnag, roedd mynediad yn ddryslyd neu'n feichus i eraill, gan y bu'n rhaid iddynt gysylltu i gael nifer o ddarnau aneglur o wybodaeth a gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain. Amlygodd rhai rhieni oedi, diffyg lledaenu gwybodaeth, prinder staff (gweler yr adran 'Heriau gweithredu', er enghraifft), a llwybrau atgyfeirio aneglur.

Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r ffordd y mae mynediad at wasanaethau'n cael ei bennu yn ôl cod post yn hytrach nag angen neu incwm. Roedd teuluoedd o'r farn bod y dull hwn yn annheg ac yn anghyson, yn enwedig i'r rhai a oedd yn byw ychydig y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg a fyddai wedi elwa o gymorth. Disgrifiodd un teulu, er nad oeddent yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg, sut yr oeddent wedi codi'r mater hwn gyda'r darparwr Dechrau'n Deg agosaf i'w cyfeiriad cartref ac wedi cael mynediad i'r gwasanaeth yn y pen draw.

#### 3.2.4.2 Gofal plant

Un rhwystr allweddol rhag y ddarpariaeth gofal plant oedd diffyg hyblygrwydd mewn amserlenni gofal plant. Er bod y sail resymegol wrth wraidd y sesiynau 2.5 awr ar gyfer elfen gofal plant Dechrau'n Deg wedi'i gwreiddio mewn ymchwil sy'n ffafrio cysylltiad byrrach, mynych i gefnogi datblygiad y plentyn a phontio o'r cartref i'r lleoliad, esboniodd rhieni nad oedd yr amserau penodedig yn aml yn cyd-fynd â'u hymrwymiadau gwaith, felly roedd hi'n anodd manteisio ar y lleoedd a oedd ar gael. Pwysleisiodd sawl teulu fod anhyblygrwydd yr amserlen yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb y gwasanaeth i rieni sy'n gweithio. Awgrymodd un rhiant, er enghraifft, y byddai 2 ddiwrnod llawn o ofal plant yn fwy buddiol na 2.5 awr y dydd, oherwydd byddai hyn yn caniatáu iddo ganolbwyntio'n llwyr ar waith neu ymrwymiadau eraill heb orfod tarfu ar ei ddiwrnod i gasglu ei blentyn ganol dydd.

Yn unol â hyn, mynegodd rhai rhieni bryderon hefyd ynglŷn â nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael. Teimlai llawer nad oedd y 2.5 awr y dydd safonol yn ddigonol i fodloni eu hanghenion gofal plant. Dywedodd eraill nad oedd digon o gymorth gan y gwasanaeth yn ystod gwyliau'r ysgol, a oedd yn gadael bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth.

> "Un rhwystr yw'r ffaith nad yw'n cael ei gynnal yn ystod gwyliau'r ysgol, felly, wyddoch chi, rwy'n credu ein bod ni'n eithaf ffodus i gael fy mam yng nghyfraith. Mae fy mhartner yn cynnal ei fusnes ei hun, ac roeddwn i'n arfer bod â chyflogwr hyblyg iawn. […] Weithiau, hefyd, mae'n cael ei gynnal am tua dwy awr a hanner yn unig. Rwy'n cymryd bod hynny er budd y plant, ond dybiwn i na fydd rhai pobl yn elwa oherwydd nad yw mor gyfleus i'r rhieni […]. Yn ei hanfod, erbyn i chi ddod adref, does gennych chi ddim llawer o amser i wneud rhywbeth cyn gadael eto i fynd i'w nôl nhw. Felly, rydych chi'n gwneud penderfyniad er pennaf les y plentyn, mewn gwirionedd." (Teulu Dechrau'n Deg)

Roedd rhestrau aros ac oedi cyn cael gwasanaethau yn cyflwyno her arall. Disgrifiodd teuluoedd aros am gyfnod hir cyn cael cynnig lle, mwy na dau fis mewn rhai achosion. Adroddodd rhai nad oedd lleoedd ar gael yn eu lleoliad gofal plant lleol hyd yn oed pan oedd eu plentyn yn gymwys. Esboniodd un rhiant fod ei blentyn ond yn gallu cael lle pan oedd yn 2 flwydd a 10 mis oed, sy'n golygu ei fod wedi colli'r cyfle i gael cymorth am lawer o'r cyfnod cymwys.

> "Nid her, mewn gwirionedd, ond anfodlonrwydd, sef y lleoedd cyfyngedig a'r rhestr aros. […] Fyddan nhw ddim yn eich galw chi i ddweud bod ganddyn nhw le i chi, neu weithiau fe allen nhw anghofio amdanoch chi oherwydd, fel y dywedais, maen nhw'n cynnig gwasanaethau rhagorol, ond mae hefyd rhestr o bobl sy'n aros i gofrestru eu plant yno." (Teulu Dechrau'n Deg)

Nodwyd materion hygyrchedd hefyd yn ymwneud â darparu gofal plant. Disgrifiodd rhai teuluoedd anawsterau wrth gael mynediad at feithrinfeydd cyfagos, tra dadleuodd eraill y byddai'n decach petai gwasanaethau'n cael eu hymestyn i gyrraedd ardaloedd mwy anghysbell.

Cyfeiriodd nifer lai o rieni at rwystrau ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynglŷn â chymarebau staffio, a chymharodd un rhiant y gwasanaeth yn anffafriol â meithrinfa breifat lle'r oedd lefelau staff yn uwch.

> "Roedd y staff yn hyfryd iawn. Does gen i ddim byd negyddol i'w ddweud am y staff, ond roedd yn teimlo fel petaen nhw wedi'u gorymestyn yn fawr o fewn eu rôl." (Teulu Dechrau'n Deg)

Roedd trafnidiaeth yn fater a gododd droeon: roedd angen cymorth ar rai teuluoedd i gyrraedd lleoliadau gofal plant, tra dywedodd eraill fod costau trafnidiaeth yn ychwanegu baich ariannol. Roedd cyfathrebu'n achos pryder hefyd, gyda rhieni'n adrodd am oedi wrth gael diweddariadau ar gynnydd eu plentyn a diffyg cyfathrebu ar yr adeg casglu. Yn olaf, tynnodd ambell deulu sylw at argaeledd cyfyngedig darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mewn un achos, roedd plentyn a oedd wedi dechrau mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg wedi cael ei drosglwyddo'n ddiweddarach i ddarpariaeth Saesneg. Roedd hyn yn destun siom i'w rieni a oedd eisiau i'w plentyn gael ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

#### 3.2.4.3 Mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd

Nodwyd bod amserau aros yn cyflwyno her, hefyd. Disgrifiodd un rhiant aros am 4 i 5 mis i gael cymorth gan nyrs seiciatrig gymunedol Dechrau'n Deg, er bod y teulu'n ffodus yn yr

achos hwn gan eu bod eisoes yn cael cymorth gan eu hymwelydd iechyd. Soniodd eraill am oedi cyn cael y cymorth o ganlyniad i brinder staff neu darfu yn ystod cyfnod COVID-19, pan symudodd ymweliadau ar-lein.

> "Yn yr ardal ddifreintiedig lle'r oeddwn i'n aros, nid oedd yr adnoddau'n darparu gwasanaeth cynhwysfawr ac roedd hyn yn creu rhwystrau i mi oherwydd roeddwn i'n disgwyl gwasanaeth y gallen ni ddibynnu arno'n drwm […]." (Teulu Dechrau'n Deg)

Roedd nifer fach o rieni'n teimlo nad oedd gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael yn eang, ac felly bod angen iddynt ddibynnu ar ffrindiau neu gysylltiadau lleol i gael gwybod amdano. Roedd rhai o'r farn nad oedd y gwasanaeth yr un mor hygyrch ym mhob ardal, gyda bylchau yn y ddarpariaeth neu ddiffyg gwybodaeth gan feddygon teulu ac awdurdodau lleol.

Mynegodd rhai rhieni bryderon ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â materion sensitif fel iselder ôl-enedigol. Awgrymwyd bod angen gweithdrefnau cliriach a mwy cyson i sicrhau asesiadau a gwaith dilynol priodol pryd bynnag y codir iselder ôl-enedigol. Mewn un enghraifft, gweithiwr proffesiynol arall, yn hytrach na'r ymwelydd iechyd, oedd wedi cydnabod yr angen am asesiad pellach ac annog camau priodol.

Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn ag arferion cyfathrebu, fel dim gwybod o flaen llaw pryd y byddai ymweliad yn digwydd neu ddiffyg dilyniant pan fyddai staff yn newid. Roedd y newidiadau hyn yn annifyr i deuluoedd, ac roedd rhai rhieni a roddodd sgorau bodlonrwydd is yn teimlo nad oedd digon o gymorth pontio pan oedd staff newydd yn cymryd drosodd.

Yn ogystal, mynegodd ambell deulu bryderon ynglŷn ag ansawdd y cymorth. Roedd rhai'n teimlo bod y cyngor yn rhy elfennol, heb fod yn barhaus, neu'n nawddoglyd ar adegau. Er enghraifft, rhannodd un rhiant brofiad gydag ymwelydd iechyd a geisiodd fynnu safbwyntiau ar fagu plant nad oeddent yn cyd-fynd â dulliau'r rhieni.

> "Roeddwn i'n teimlo eu bod nhw'n dda o ran gwirio cynnydd […], ond roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael fy nhrin yn nawddoglyd oherwydd bod fy ymwelydd iechyd yn canolbwyntio ar arddulliau magu plant nad oeddwn i'n cytuno â nhw mewn gwirionedd […] Ac roedd hynny'n anodd, ceisio esbonio y byddwn i'n gwneud pethau'n wahanol ond bod angen cymorth arna'i o hyd." (Teulu Dechrau'n Deg)

#### 3.2.4.4 Cymorth magu plant

Yr her fwyaf cyffredin oedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut i lywio'r system a'r cynigion a oedd ar gael. Cyfeiriodd rhieni droeon at gael gwybod am gymorth yn anffurfiol trwy ffrindiau yn hytrach na thrwy wybodaeth uniongyrchol gan weithwyr iechyd proffesiynol neu awdurdodau lleol. Hyd yn oed pan oedd teuluoedd yn ymwybodol o raglenni magu plant, dywedodd rhai fod manylion am gymhwysedd, cynnwys, neu sut i gael at sesiynau yn aneglur. Gan nad oedd gwybodaeth yn cael ei lledaenu'n rhagweithiol, roedd rhieni'n teimlo y gallai llawer o bobl eraill elwa o'r cymorth ond efallai nad oeddent yn gwybod ei fod yn bodoli hyd yn oed.

> "Mae'r her yn ymwneud â gwybodaeth, yn bennaf, yn fy marn i. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o'r peth ac nid wyf yn credu bod gwybodaeth yn cael

> ei hanfon allan yn briodol. Ni ddywedodd fy meddyg teulu unrhyw beth wrthyf. Byddwn i wedi bod yn y tywyllwch oni bai am fy ffrind yr oeddwn i'n cwyno wrtho am y rhan fwyaf o'r heriau yr oeddwn i'n eu hwynebu." (Teulu Dechrau'n Deg)

Yn ogystal â bylchau mewn gwybodaeth, amlygodd rhai rhieni rwystrau diwylliannol ac ieithyddol. Dywedasant y gallai gwasanaethau fod yn llai hygyrch i deuluoedd nad ydynt o Gymru neu nad ydynt yn siarad Cymraeg. Soniodd ambell deulu hefyd y gallai rhieni fod yn amharod i gymryd rhan mewn cymorth grŵp o ganlyniad i ddisgwyliadau diwylliannol. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae un awdurdod lleol wedi mynd i'r afael â'r her hon trwy gyflogi ymarferydd lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n siarad Pwyleg i gyflwyno'r elfen hon i'r gymuned Bwylaidd sy'n tyfu.

> "Mae'r heriau'n cynnwys ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r rhaglen ymhlith teuluoedd a'r rhwystrau diwylliannol a fyddai'n atal teuluoedd y mae arnynt ei hangen rhag ei defnyddio." (Teulu Dechrau'n Deg)

Rhwystr arall a gododd droeon oedd absenoldeb gofal plant yn ystod sesiynau, a oedd yn ei gwneud yn anodd i rieni ganolbwyntio neu fynychu'n gyson. Er enghraifft, esboniodd un rhiant nad oedd yn gallu parhau i fynychu'r sesiynau gan fod angen gormod o sylw ar ei blentyn yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn yr un modd, dywedodd rhiant arall er bod y cwrs yr oedd ganddo ddiddordeb ynddo ar gael yn lleol, fod diffyg darpariaeth gofal plant yn golygu na allai ei wraig gymryd rhan.

Disgrifiodd rhai rhieni anawsterau wrth drefnu dosbarthiadau o amgylch ymrwymiadau gwaith a theuluol, yn enwedig gan fod llawer o raglenni'n cael eu cynnig yn y bore yn ystod yr wythnos yn unig. Esboniodd un rhiant, er enghraifft, nad oedd yn gallu mynychu'r sesiynau yr oedd ganddo ddiddordeb ynddynt oherwydd eu bod yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith.

Cyfeiriodd rhieni eraill at heriau yn ymwneud â thrafnidiaeth a lleoliad, ac roedd rhai'n teimlo bod dosbarthiadau'n anodd eu cyrraedd neu nad oeddent yn cyd-fynd â'u harferion rheolaidd. Mynegodd ambell un bryderon ynglŷn â phrinder staff (gweler yr adran 'Heriau gweithredu', er enghraifft), a oedd weithiau'n amharu ar gysondeb neu ansawdd y ddarpariaeth.

#### 3.2.4.5 Datblygu lleferydd, iaith, a chyfathrebu

Roedd yr her fwyaf cyffredin a fynegwyd yn ymwneud ag amserau aros. Yn aml, roedd rhai teuluoedd yn wynebu oedi hir rhwng atgyfeirio a dechrau cael cymorth, yn amrywio o sawl wythnos i gymaint â 3 mis. I rieni yr oedd eu plant eisoes yn cael trafferth, roedd y cyfnod hwn yn teimlo'n "ddiddiwedd" ac yn dwysáu pryderon bod eu plentyn yn colli'r cyfle i gael cymorth cynnar hollbwysig. Esboniodd rhai rhieni fod oedi hir yn golygu bod perygl y gallai teuluoedd droi at wasanaethau eraill neu golli'r cyfle i gael y ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn gyfan gwbl.

> "Rwy'n credu mai un o'r heriau wrth gael at y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yw hyd y cyfnod […] ar ôl y cysylltiad cyntaf. Fe gymerodd bron tri mis cyn i mi allu cael y gwasanaeth. Rwy'n credu […] y dylai'r amser gael ei fyrhau i wythnosau, efallai, neu fisoedd ar yr hwyraf […]." (Teulu Dechrau'n Deg)

Roedd amserlennu'n fater arall a gododd droeon. Dywedodd llawer o rieni fod sesiynau'n cael eu cynnig yn ystod y diwrnod gwaith fel arfer, a oedd yn creu anawsterau i'r rhai hynny a oedd yn gweithio'n amser llawn. Yn aml, roedd mynychu'n golygu cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith, ac er y canmolwyd staff am eu hyblygrwydd wrth fodloni anghenion teuluoedd, roedd rhieni'n parhau i gredu y byddai mwy o ddarpariaeth gyda'r nos neu'r tu allan i oriau yn gwneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch. Disgrifiodd sawl un heriau wrth gydlynu sesiynau ag amserlennu prysur yr aelwyd, yn enwedig pan roeddent yn cydbwyso llawer o gyfrifoldebau.

> "Un o'r heriau yr oeddwn i'n eu hwynebu gyda'r cymorth lleferydd oedd amserlennu. Rwy'n credu bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn ystod y dydd, ac weithiau mae'n anodd i mi drefnu hyn o amgylch fy amserlen waith. Ond, roedd y tîm yn gymwynasgar ac yn hyblyg." (Teulu Dechrau'n Deg)

Er bod y rhain yn llai cyffredin, amlygodd nifer o rieni rwystrau yn gysylltiedig â ffactorau ieithyddol a diwylliannol. Roedd yn anodd i deuluoedd o gefndiroedd mudol, yn enwedig y rhai hynny nad oedd y Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, gael mynediad at wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu neu ddeall gwybodaeth amdanynt. Esboniodd un rhiant fod cymunedau gwledig, lle'r oedd teuluoedd yn aml yn gweithio sawl swydd ac nad oedd ganddynt lawer o amser i ymchwilio i wasanaethau, dan anfantais yn arbennig. Pwysleisiwyd yr angen am wybodaeth mewn ieithoedd eraill ac allgymorth mwy rhagweithiol, er enghraifft, trwy rwydweithiau cymunedol yr ymddiriedir ynddynt, fel mosgiau lleol yn ei chael hi'n anodd.

Disgrifiodd grŵp llai o rieni heriau personol neu logistaidd. Roedd rhai'n teimlo'n annifyr ynglŷn â dynameg staff, gan bryderu y gallai rhyngweithio agos rhwng eu plentyn a staff effeithio ar eu cwlwm agosrwydd nhw. Soniodd eraill am anawsterau cychwynnol gyda therapyddion, ac y bu angen gwneud newidiadau cyn oeddent yn gyfforddus â'r cymorth.

#### 3.2.4.6 Teuluoedd cymharu

Gofynnwyd i'r teuluoedd cymharu hefyd fyfyrio ar unrhyw anawsterau yr oeddent wedi'u profi, neu'n disgwyl eu profi, wrth gael at wasanaethau i deuluoedd a'r blynyddoedd cynnar. Mae eu hadroddiadau'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am y rhwystrau ehangach a allai atal teuluoedd o'r tu allan i'r rhaglen rhag ymgysylltu â chymorth, gan amlygu materion yn ymwneud ag ymwybyddiaeth, hygyrchedd, a thegwch.

Roedd diffyg gwybodaeth hygyrch yn thema a gododd droeon. Er y dywedodd rhai rhieni nad oeddent wedi profi rhwystrau rhag cael at wasanaethau yn bersonol, dywedodd eraill nad oedd gwasanaethau bob amser wedi'u hysbysebu'n dda, a'i bod yn aml yn aneglur pa gymorth a oedd ar gael neu sut i gael ato. Roedd yr ansicrwydd hwn yn arbennig o heriol i rieni newydd; disgrifiodd sawl un deimlo'n ansicr pwy i ofyn iddynt am gymorth neu ble i ddechrau wrth lywio gwasanaethau lleol. Pan oeddent yn gyfarwydd â'r system, roedd rhieni'n teimlo bod ymgysylltu'n haws yn gyffredinol, ond fe allai'r diffyg eglurder cychwynnol atal defnydd o wasanaethau.

Roedd rhwystrau ieithyddol yn fater o bwys mewn rhai cymunedau. Dywedodd un rhiant, er enghraifft, er bod ei bartner wedi cael ei chefnogi'n dda trwy ofal cynenedigol, ei bod yn

anodd i lawer o deuluoedd nad ydynt yn siarad Saesneg yn ei ardal ef gael gwybodaeth am ofal iechyd a gofal plant gan nad oedd deunyddiau ar gael yn eu hiaith. Awgrymodd y byddai darparu taflenni mewn ystod ehangach o ieithoedd, heblaw am Gymraeg a Saesneg, yn dileu rhwystrau pwysig i lawer o bobl.

Cyfeiriodd rhieni eraill at heriau yn ymwneud â darparu gwasanaethau. Disgrifiodd rhai oriau agor cyfyngedig mewn canolfannau lleol, yn ogystal â throsiant staff uchel, a oedd yn lleihau dilyniant a dibynadwyedd cymorth.

Nid oedd sawl teulu cymharu wedi defnyddio gwasanaethau cymorth i deuluoedd o gwbl. Roedd y rhesymau'n amrywio: roedd rhai'n credu nad oeddent yn gymwys (er enghraifft, oherwydd nad oeddent yn bodloni meini prawf penodol fel statws anabledd), tra chyfeiriodd eraill at ddiffyg ymwybyddiaeth, diffyg amser, neu ganfyddiad nad oedd angen cymorth. Esboniodd un rhiant er ei fod wedi chwilio ar-lein, nad oedd gwybodaeth am wasanaethau cymorth i deuluoedd ar gael yn rhwydd, ac awgrymodd y gallai presenoldeb cryfach ar gyfryngau cymdeithasol helpu i gyrraedd mwy o rieni. Dywedodd rhiant arall, a oedd yn llai hyderus wrth ddefnyddio platfformau digidol, fod y pwyslais ar hysbysebu ar-lein wedi bod yn rhwystr.

Roedd pryderon ynglŷn â thegwch a chynrychiolaeth yn amlwg hefyd. Roedd un rhiant yn teimlo, ac yntau'n rhiant Du, ei fod yn cael ei anwybyddu neu na wrandawyd arno'n aml pan oedd yn ceisio cymorth. Er na ddisgrifiodd hyn fel gwahaniaethu uniongyrchol, teimlai nad oedd gwasanaethau'n rhoi digon o sylw i anghenion teuluoedd Du, a oedd yn dibynnu'n aml ar ddatblygu eu rhwydweithiau cymunedol eu hunain.

At ei gilydd, pwysleisiodd y teuluoedd cymharu fod rhwystrau'n ymwneud yn fwy â bylchau mewn cyfathrebu, hygyrchedd, a chynwysoldeb nag allgáu uniongyrchol. Mae eu profiadau'n dangos pwysigrwydd llwybrau gwybodaeth cliriach, darpariaeth ddiwylliannol sensitif, a modelau gwasanaeth mwy hyblyg sy'n cydnabod y ffyrdd amrywiol y mae teuluoedd yn ymgysylltu â chymorth.

### 3.2.5 Awgrymiadau ar gyfer gwella

Gofynnwyd i'r teuluoedd Dechrau'n Deg rannu eu hawgrymiadau ynglŷn â sut gellid gwella'r pedwar gwasanaeth craidd. Mae eu hadborth yn adlewyrchu ystod eang o syniadau ynglŷn â sut gallai gwasanaethau gynorthwyo rhieni a phlant yn well. Roedd themâu allweddol yn cynnwys yr angen am fwy o hyblygrwydd, hygyrchedd, cyfathrebu clir, a chymorth wedi'i deilwra, yn ogystal â phwysigrwydd creu cysylltiadau cryfach rhwng teuluoedd a darparwyr gwasanaethau.

#### 3.2.5.1 Gofal plant

Pan ofynnwyd iddynt am awgrymiadau ynglŷn â'r gwasanaeth gofal plant, tynnodd y teuluoedd Dechrau'n Deg sylw at bwysigrwydd amserlennu hyblyg, yn ogystal â'r gallu i grynhoi neu gyfuno sesiynau. Er enghraifft, fe allai'r opsiwn i gyfuno'r bloc 2.5 awr safonol ar ddiwrnodau penodol fod yn ddefnyddiol i rieni y mae angen iddynt weithio. Byddai amserau gollwng a chodi hyblyg yn werthfawr iawn, oherwydd byddent yn caniatáu i rieni reoli ymrwymiadau gwaith, cymudo, a chyfrifoldebau eraill yn fwy effeithiol. Mae rhieni hefyd yn mynegi'r angen am oriau gwasanaeth estynedig, gan gynnwys sesiynau gyda'r nos ac ar

y penwythnos, yn ogystal ag oriau ychwanegol yn ystod gwyliau'r ysgol, os oes modd. Gofynnwyd hefyd am fwy o oriau gofal plant wedi'u hariannu i gynorthwyo teuluoedd sy'n gweithio'n rhan-amser ac yn amser llawn.

O ran hyblygrwydd y gwasanaeth ei hun, amlygodd teuluoedd yr angen am hyblygrwydd o ran oedran cymwys, fel cofrestru plant iau neu ddarparu gofal hyd at 5 oed. Awgrymodd rhieni hefyd ehangu cwmpas daearyddol gwasanaethau a chynyddu allgymorth er mwyn sicrhau bod mwy o deuluoedd yn gallu cael at y rhaglen. Yn ogystal, maen nhw'n awgrymu y gellid darparu cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer trafnidiaeth i liniaru'r heriau sy'n gysylltiedig â chanolfannau gofal plant sydd wedi'u lleoli'n bell oddi wrth y cartref neu'r gwaith.

Hoffai rhieni weld Dechrau'n Deg yn gwneud mwy o ymdrech i ddileu gwahaniaethu, gan sicrhau bod yr holl blant a rhieni'n teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu. Er enghraifft, disgrifiodd un rhiant achos o ymddygiad hiliol a gwahaniaethol gan rai staff Dechrau'n Deg, a gododd bryderon y gallai eu plant wynebu triniaeth debyg o fewn lleoliadau gofal plant. Fodd bynnag, ar ôl codi'r mater gydag uwch aelodau staff, dywedodd ei fod wedi derbyn sylw'n brydlon ac nad oedd wedi digwydd eto.

> "Ni waeth am gefndir diwylliannol, rwy'n credu y dylai pawb gael ei drin heb ragfarn, heb ymdeimlad o hiliau a gwahaniaethau. Byddwn i'n falch iawn petai pob rhan o'r sefydliad yn gwella er mwyn sicrhau nad yw'r pethau yna'n bodoli, fel o ran hiliau. Dylai gwahaniaethu gael ei ddileu'n llwyr fel bod pobl yn teimlo cariad, yn teimlo ymdeimlad o berthyn, ac yn hapus." (Teulu Dechrau'n Deg)

Yn olaf, mae teuluoedd yn cydnabod pwysigrwydd gwella cyfathrebu rhyngddyn nhw a darparwyr gwasanaethau, gan awgrymu defnyddio sianeli cliriach, fel platfformau cyfryngau cymdeithasol, i hwyluso cyfnewid gwybodaeth ac arweiniad ynglŷn â'u plant neu'r meithrinfeydd yn brydlon. Rhannodd un rhiant ei phrofiad o gael lle wedi'i ddyrannu'n awtomatig i'w phlentyn mewn meithrinfa Saesneg, er ei bod wedi gofyn am opsiwn Cymraeg. Gan ddilyn cyngor yr ymwelydd iechyd, fe ymwelodd â dwy feithrinfa Gymraeg a rhoddwyd gwybod iddi fod ei merch yn gymwys ar gyfer y ddwy. Fodd bynnag, canfu'n ddiweddarach nad yw'r meithrinfeydd hyn ar restr ddarparwyr y gwasanaeth. Argymhellodd y rhiant y dylai teuluoedd gael mwy o wybodaeth am yr ysgolion sydd ar gael, cyfle i ddewis, a mynediad teg at ddarpariaeth gofal plant Gymraeg o'r dechrau, gan sicrhau bod dewis y rhieni'n cael ei barchu ac yn gyson ar draws gwasanaethau. Roedd hefyd yn ymddangos bod angen mwy o eglurder ynglŷn â pha leoliadau sy'n gallu darparu gofal plant Dechrau'n Deg.

Mae awgrymiadau ychwanegol ar gyfer gwella'r gwasanaeth yn cynnwys gwella cyfleoedd dysgu trwy weithgareddau rhiant a phlentyn, yn enwedig yn yr awyr agored; cynyddu argaeledd staff i roi mwy o sylw unigol i blant; a chefnogi sgiliau iaith Gymraeg yn y gwasanaeth.

#### 3.2.5.2 Mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd

Mae teuluoedd wedi amlygu bod angen gwell cyfathrebu rhwng ymwelwyr iechyd a theuluoedd i wella'r gwasanaeth ymweliadau iechyd. Maen nhw'n pwysleisio y byddai

gwybodaeth glir a phrydlon am apwyntiadau, newidiadau i staff, a'r hyn y bydd pob ymweliad yn canolbwyntio arno yn fuddiol iawn ac yn meithrin ymddiriedaeth. Er enghraifft, mae rhieni'n awgrymu y byddai negeseuon atgoffa ynglŷn ag archwiliadau a mynediad haws at wybodaeth ar-lein yn lleihau straen neu ddryswch, yn enwedig i rieni sydd ag amserlenni prysur neu fwy o blant. Fe allai cadw mewn cysylltiad â'r ymwelydd iechyd yn gyson helpu i wella eglurder ynglŷn â'r broses a beth i'w ddisgwyl ar bob cam, oherwydd bydd teuluoedd yn teimlo'n fwy gwybodus, yn teimlo eu bod yn cael mwy o gymorth, ac yn teimlo y gallant fod yn fwy ymatebol.

Thema arall allweddol yw teilwra gwasanaethau i anghenion unigol. Gofynnodd teuluoedd sydd â phlant ag anghenion arbennig am gymorth mwy cyson sydd ar gael yn rhwydd. Maen nhw'n gwerthfawrogi ymwelwyr iechyd sy'n gallu rhoi arweiniad a chymorth personol. Er enghraifft, amlygodd un teulu'r heriau sy'n gysylltiedig â llywio cymhlethdodau ychwanegol gofalu am blentyn anabl a dod o hyd i arweiniad wedi'i deilwra.

Mae teuluoedd hefyd yn awgrymu ehangu cyrhaeddiad a chwmpas gwasanaethau ymwelwyr iechyd. Mae'r awgrym hwn yn cynnwys ymdrin ag ystod ehangach o bynciau, fel pryderon iechyd meddwl, anhwylderau bwyta, a heriau ymddygiadol, yn ogystal â chynyddu amlder ymweliadau ac argaeledd arbenigwyr. Mae teuluoedd yn credu y byddai cydgysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau iechyd, fel gwell cydweithio rhwng meddygon teulu, awdurdodau lleol, a gwasanaethau arbenigol, yn gwneud y gwasanaeth yn fwy cynhwysol a helpu teuluoedd i gael gofal arbenigol yn fwy effeithlon.

#### 3.2.5.3 Cymorth magu plant

Awgrymodd teuluoedd y gellid gwella gwasanaethau magu plant trwy gynyddu hyblygrwydd amserlenni er mwyn addasu'n well i ymrwymiadau rhieni. Er enghraifft, mae cyrsiau a grwpiau cymorth yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith yn aml, felly mae'n anodd eu mynychu. Byddai cynnig sesiynau gyda'r nos, ar y penwythnos, ac ar-lein neu opsiynau wedi'u recordio yn ei gwneud yn haws i rieni gymryd rhan. Mae angen hyblygrwydd hefyd ar gyfer rhieni sydd â nifer o blant neu gyfrifoldebau eraill, gan ganiatáu iddynt ddilyn cyrsiau heb straen ychwanegol. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol (gweler yr adran "Yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ac enghreifftiau o arfer gorau"), defnyddiodd un awdurdod lleol ap Dechrau'n Deg yn ystod COVID. Gweithiodd hyn yn dda i rannu gwybodaeth â rhieni a hyrwyddo negeseuon allweddol am ymgysylltu â phlant ac arferion magu plant effeithiol.

Mae dileu rhwystrau rhag mynychu yn ystyriaeth arall. Amlygodd rhieni fod eu cyfrifoldebau gofal plant yn eu hatal rhag ymuno â dosbarthiadau, sy'n awgrymu y byddai gofal plant ar y safle a ddarperir ar yr un pryd â'r sesiynau yn fuddiol iawn. Pwysleisiwyd hygyrchedd hefyd, a gofynnodd teuluoedd am fwy o grwpiau'n agos iddynt, yn ddelfrydol o fewn pellter cerdded, ac o ddewis sy'n cael eu cynnal yn yr un lleoliad â'r lleoedd gofal plant er mwyn lleihau amser teithio a chostau ychwanegol.

Argymhellodd y cyfranogwyr gynyddu allgymorth a chyfathrebu ynglŷn â'r gwasanaeth magu plant i ymgysylltu ag ystod ehangach o deuluoedd a chynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglen, gan ddarparu gwybodaeth glir am y gwasanaethau sydd ar gael. Roedd rhai o'r opsiynau a argymhellwyd yn cynnwys seminarau ar-lein, hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol, a rhannu digwyddiadau'n gyhoeddus. O safbwynt y rhieni, mae darparu

gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd yn helpu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn eu hannog i geisio cymorth pan fydd angen. Crybwyllodd y teuluoedd Dechrau'n Deg y byddai sesiynau adborth amlach yn fuddiol, oherwydd gall darparwyr gwasanaethau ddysgu'n gyflymach ac addasu'r gwasanaeth i fodloni anghenion rhieni'n well.

Soniodd teuluoedd am deilwra gwasanaethau i anghenion unigol ac amrywiol, gan amlygu pwysigrwydd gwasanaethau diwylliannol sensitif sy'n cynrychioli cymunedau amrywiol, yn ogystal â'r angen am gymorth mwy personol sy'n adlewyrchu amgylchiadau unigryw pob rhiant. Er enghraifft, amlygwyd y gallai ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rhaglen fod yn gyfyngedig ymhlith teuluoedd sydd â gwahaniaethau diwylliannol ac nad yw'r Saesneg yn famiaith iddynt. Yn ogystal, pwysleisiodd rhieni'r angen i staff gael hyfforddiant parhaus er mwyn iddynt fod yn fwy empathetig a sylwgar, gan greu mannau lle mae rhieni'n teimlo'n gyfforddus i rannu profiadau a phryderon.

Yn olaf, awgrymodd rhieni ehangu cyfleoedd dysgu a hyfforddi. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni addysg i rieni, cyrsiau cymorth cyntaf, a chymorth i rianta plant yn eu harddegau. Byddai adnoddau fel gwefan sy'n cynnwys deunyddiau cymorth addysgol hefyd yn helpu rhieni i gael at arweiniad yn haws.

#### 3.2.5.4 Datblygu lleferydd, iaith, a chyfathrebu

Amlygodd y teuluoedd Dechrau'n Deg fod angen i amserlenni sesiynau fod yn fwy hyblyg i wella'r gwasanaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Esboniodd rhieni y dylai sesiynau gyd-fynd yn well ag oriau gwaith fel bod rhieni'n gallu mynd â'u plant i'r sesiynau'n rhwydd.

Mynegodd rhieni bryderon ynglŷn â'r amserau aros i blant ddechrau defnyddio'r gwasanaeth. Nodwyd bod y cyfnod rhwng yr atgyfeiriad a dechrau'r sesiynau yn aneglur, sy'n gwneud teuluoedd yn ansicr beth i'w ddisgwyl ac yn creu gorbryder ac ansicrwydd. Er enghraifft, disgrifiodd un rhiant aros 3 mis rhwng yr atgyfeiriad a dechrau'r sesiynau, tra dywedodd un arall fod y cyfnod aros hir yn rhwystredig. Awgrymodd rhieni fod Dechrau'n Deg yn lleihau'r cyfnod rhwng asesu, cofrestru, a dechrau'r sesiynau, yn ogystal â darparu amserlen glir i helpu teuluoedd i ddeall yr amserau aros disgwyliedig yn well.

Yn gysylltiedig â llinellau amser, argymhellodd rhieni hefyd fod sesiynau'n cael eu cynnig yn amlach er mwyn atal bylchau hir rhyngddynt, sy'n amharu ar ddysgu a chynnydd plant. Yn ogystal, cyfeiriodd teuluoedd at bwysigrwydd cael llinell amser glir ar gyfer y gwasanaeth sy'n amlinellu'r gwahanol gamau a cherrig milltir allweddol. Byddai'r llinell amser hon yn helpu rhieni i wybod beth i'w ddisgwyl ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt, hyd yn oed os oes seibiau na ellir eu hosgoi rhwng sesiynau.

> "Byddai sesiynau amlach gyda'r therapyddion lleferydd yn ddefnyddiol. Byddai o gymorth mawr petai hynny'n cael ei wella. Byddai trefnu sesiynau amlach yn beth da oherwydd, weithiau, rwy'n teimlo ein bod ni'n gwneud cynnydd ac yna bydd bwlch rhwng y sesiwn nesaf. Byddai'n beth da petai rhywbeth yn gallu cael ei wneud am yr amserlennu a sesiynau amlach." (Teulu Dechrau'n Deg)

Mynegodd teuluoedd awydd am fwy o amlygiad iaith Gymraeg a diwylliannol, gan ychwanegu adnoddau i helpu plant i ymarfer y Gymraeg gartref, ynghyd â mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â'r iaith trwy ganeuon, gweithgareddau, a phrofiadau diwylliannol. Byddai'r ychwanegiadau hyn nid yn unig yn atgyfnerthu dysgu y tu allan i sesiynau, ond hefyd yn cryfhau cysylltiadau diwylliannol ar gyfer plant a rhieni.

Mae teuluoedd yn credu y byddai cynyddu adborth gan rieni am y gwasanaeth yn beth da. Rhannodd un rhiant, yn ei phrofiad hi, fod gallu cysylltu â darparwr y gwasanaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi caniatáu iddi ofyn am gael newid therapydd. Nid oedd yn credu bod y therapydd cychwynnol yn addas i'w phlentyn, ac roedd newid i therapydd newydd wedi arwain at ganlyniadau gwell o lawer. Awgrymodd rhieni y byddai cyflwyno gwiriadau rheolaidd i gasglu adborth yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn ymatebol i anghenion teuluoedd ac yn gallu addasu, pan fydd angen.

Yn olaf, dywedodd teuluoedd er bod gwasanaethau eraill eisoes yn cynnig cyfleoedd i rieni ffurfio cysylltiadau cymdeithasol, y gallai'r gwasanaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu ddod yn lle ychwanegol a gwerthfawr i gael cymorth gan gymheiriaid. Amlygwyd pwysigrwydd creu ffyrdd, fel systemau cyfeillio neu grwpiau cymheiriaid, i rieni gysylltu â phobl eraill sy'n rhannu profiadau tebyg i gefnogi datblygiad lleferydd ac iaith eu plant. Awgrymwyd y byddai cysylltiadau o'r fath yn helpu rhieni i rannu gwybodaeth, lleihau gorbryder, a theimlo'n llai ynysig.

### 3.2.6 Darpariaeth Gymraeg

Adroddodd y rhan fwyaf o deuluoedd y cynigiwyd gwasanaethau iddynt yn Gymraeg. Manteisiodd nifer o rieni ar hyn, yn enwedig y rhai hynny a oedd yn siaradwyr Cymraeg eu hunain neu a oedd eisiau i'w plentyn dyfu'n ddwyieithog. Yn aml, roedd y rhieni hyn o'r farn bod darpariaeth Gymraeg yn bwysig ar gyfer hunaniaeth a diwylliant, a dywedodd rhai eu bod yn falch o gael gofal plant, cymorth magu plant, neu grwpiau cymunedol dwyieithog. Roedd nifer fach wedi cymryd camau pendant i chwilio am leoliadau cyfrwng Cymraeg neu newid o rai Saesneg i Gymraeg pan ddaeth lleoedd ar gael, hyd yn oed os oedd hyn yn gofyn am ymdrech ychwanegol.

> "Ie, cynigiwyd darpariaeth Gymraeg ac roedd yn bwysig i ni drwy gydol ein profiad o Ddechrau'n Deg. Does gen i ddim llawer o hyder yn fy iaith fy hun, wyddoch chi, ond doeddwn i ddim eisiau i'm plant gael profiad tebyg, felly roeddwn i eisiau rhaglen sy'n gallu eu cefnogi nhw […] ac iddynt […] ddysgu gan rywun proffesiynol." (Teulu Dechrau'n Deg)

Penderfynodd eraill beidio â manteisio ar ddarpariaeth Gymraeg er iddi gael ei chynnig, gan flaenoriaethu cyfleustra, hygyrchedd, a grwpiau llai o faint, yn aml, ar draul yr iaith addysgu. Er enghraifft, dewisodd rhai rhieni leoliadau Saesneg oherwydd eu bod yn agosach i gartref neu'n haws eu cyrraedd o'r gwaith. Dewisodd eraill flaenoriaethu lleoliadau â llai o blant i fodloni anghenion dysgu ychwanegol eu plentyn, gan fod gweithwyr proffesiynol wedi rhoi gwybod iddynt fod lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn tueddu i fod yn fwy. Dewisodd ambell deulu wasanaethau lle'r oedd y sesiynau'n gweddu'n well i'w harferion dyddiol neu eu

trefniadau gofal plant, gan ddewis ymarferoldeb ar draul iaith wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chyfranogi.

> “Na, dwi ddim yn credu. Ond, yn hytrach, beth sy’n bwysig i fi a fy nheulu yw bod gwasanaethau da, dibynadwy yn cael eu darparu pan fydd angen.” (Teulu Dechrau’n Deg)

Adroddodd grŵp llai na chynigiwyd darpariaeth Gymraeg iddynt o gwbl, er y dywedodd rhai y byddent wedi hoffi cael y dewis. At ei gilydd, er bod darpariaeth Gymraeg ar gael i’r rhan fwyaf o deuluoedd, roedd ymgysylltiad yn dibynnu ar gydbwysedd rhwng gwerth diwylliannol, amgylchiadau personol, ac ystyriaethau ymarferol.

### 3.2.7 Darparu gwasanaethau eraill

Manteisiodd y rhan fwyaf o deuluoedd ar yr holl wasanaethau a gynigiwyd iddynt neu a oedd ar gael iddynt trwy’r rhaglen Dechrau’n Deg. Ond esboniodd nifer lai pam yr oeddent wedi dewis manteisio ar lai. Roedd yn well gan rai ganolbwyntio ar y cymorth a oedd yn fwyaf perthnasol i’w hanghenion yn unig, tra penderfynodd eraill roi cynnig ar un gwasanaeth ar y tro cyn ystyried rhai ychwanegol. Roedd y teuluoedd hyn yn gwerthfawrogi’r gallu i deilwra Dechrau’n Deg i’w hamgylchiadau unigol, hyd yn oed os nad oeddent yn defnyddio’r ddarpariaeth lawn.

Cyfeiriodd ambell riant at rwystrau a oedd yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn gwasanaethau eraill. Y rheswm mwyaf cyffredin oedd diffyg amser, a oedd yn aml yn gysylltiedig ag amserlenni gwaith, cyfrifoldebau gofal plant, a heriau cydbwyso bywyd teuluol ag ymrwymiadau eraill. Disgrifiodd rhieni deimlo na allent gynnwys apwyntiadau ychwanegol neu sesiynau grŵp mewn bywydau a oedd eisoes yn brysur, hyd yn oed pan oedd ganddynt ddiddordeb yn y cymorth. Mewn achosion eraill, roedd rhieni’n teimlo’n anghyfforddus â mathau penodol o ddarpariaeth, fel ymweliadau cartref, neu fe wnaethant esbonio nad oeddent yn credu bod angen gwasanaethau ychwanegol, nad oeddent yn ymwybodol ohonynt, neu na allent gofio beth a gynigiwyd.

> “Doeddwn i ddim yn gallu derbyn yr holl ddosbarthiadau a gynigiwyd oherwydd ymrwymiadau eraill. Byddwn i’n hoffi cael mwy o ddosbarthiadau magu plant a mwy o gefnogaeth emosiynol i rieni, fel cwnsela.” (Teulu Dechrau’n Deg)

## 3.3 Effaith Dechrau’n Deg ar blant a’u teuluoedd

Mae’r adran hon yn archwilio sut mae pedwar gwasanaeth craidd Dechrau’n Deg, sef gofal plant, mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd, cymorth magu plant, a datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu, wedi effeithio ar blant a’u rhieni. Gan gyfeirio at safbwyntiau teuluoedd ac awdurdodau lleol, mae’r adran hon yn amlygu buddion y rhaglen, yn ogystal â meysydd lle mae teuluoedd yn credu y gellid ei gwella. Mae’r myfyrdodau’n cyflwyno’r effaith uniongyrchol y mae’r gwasanaethau hyn wedi’i chael ar fywyd beunyddiol, a’r newidiadau tymor hwy y mae teuluoedd ac awdurdodau lleol yn gobeithio eu gweld wrth i’r rhaglen barhau. Mae’r adran hefyd yn rhannu profiadau teuluoedd cymharu nad ydynt yn gymwys ar gyfer Dechrau’n Deg, gan roi cyferbyniad defnyddiol trwy gyflwyno’r heriau maen nhw’n eu hwynebu pan nad ydynt yn cael cymorth gan wasanaethau i deuluoedd.

### 3.3.1 Gofal plant

O ran yr effeithiau ar blant, crybwyllodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a theuluoedd Dechrau'n Deg eu bod yn credu bod lleoliadau gofal plant wedi gwella eu sgiliau cymdeithasol. Mae'r lleoliadau hyn yn caniatáu i blant gymdeithasu â'u cyfoedion, gan gynyddu eu hyder a'u cynnwys mewn gweithgareddau sy'n helpu i wella eu sgiliau iaith a lleferydd cyffredinol, yn ogystal â'u sgiliau Cymraeg. Mae'r ddau grŵp rhanddeiliaid yn amlygu bod y gwasanaeth yn fuddiol i ddatblygiad gwybyddol a dysgu plant. Mae'r gwasanaeth yn datblygu doniau plant, gan eu hamlygu i brosesau dysgu, tanio eu chwilfrydedd, a chyflwyno cyfres o weithgareddau y gallant ymgysylltu â nhw.

Soniodd y ddau grŵp cyfweld am sut mae gofal plant yn helpu i baratoi plant ar gyfer yr ysgol trwy feithrin arferion mwy strwythuredig, gan helpu i hwyluso'r pontio i addysg ffurfiol. Mae plant hefyd yn ennill sgiliau annibyniaeth gwerthfawr sy'n eu paratoi ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, maen nhw'n dysgu sut i wisgo cotiau ac esgidiau glaw eu hunain, bwydo eu hunain gan ddefnyddio cyllyll a ffyrc a llestri iawn, a mynd i'r tŷ bach yn annibynnol. Mae'r sgiliau pob dydd hyn yn meithrin hyder, hunanddibyniaeth, a pharodrwydd i gymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol.

> "Mae hi'n gallu rhyngweithio â phlant, mae hi'n gallu dysgu, wyddoch chi, ac yn bwysicaf oll, gwneud pethau na fyddwn i'n eu gwneud gartref. Felly, wyddoch chi, does gen i ddim amser i wneud celf a chrefft, ond maen nhw'n gwneud hynny gyda'r gwarchodwr plant, wyddoch chi.
>
> Mynd â hi i'r llyfrgell, maen nhw'n mynd yno i ganu caneuon. Beth bynnag, wyddoch chi, mae'r pethau bach yma'n cronni ac mae hi wedi blodeuo, wyddoch chi, mae hi mor hyderus nawr […] Felly, rwy'n gwybod ei bod hi'n ddiogel, yn hapus. Ac mae hi wedi ffynnu." (Teulu Dechrau'n Deg)

O ran yr effeithiau ar rieni, mae'r ddau grŵp cyfweld yn amlygu bod y gwasanaeth yn darparu seibiant o gyfrifoldebau gofal plant. O safbwyntiau'r teuluoedd Dechrau'n Deg a'r cynrychiolwyr awdurdodau lleol, mae'r gwasanaeth yn rhoi mwy o amser i rieni ar gyfer gweithgareddau eraill yn eu diwrnod. Er enghraifft, amser o ansawdd iddyn nhw eu hunain neu fel pâr, sy'n lleihau'r angen i feddwl am drefnu oriau gwaith a gofalu am y plentyn, gan ganiatáu iddynt weithio mwy o oriau, gwneud ymarfer corff, astudio, a/neu neilltuo mwy o amser i blant eraill a bodloni anghenion eraill y teulu gyda hyblygrwydd.

Effaith arall yr adroddwyd amdani yw sut mae'r cymorth gofal plant yn lleddfu straen a phwysau. Mae'r cymorth ariannol y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu yn agwedd bwysig arall, gan leihau pwysau ariannol, hyrwyddo sicrwydd ariannol, a helpu teuluoedd i ailgyfeirio eu cyllideb i fodloni anghenion eraill y teulu, fel darparu bwyd. Pwynt arall a grybwyllwyd gan deuluoedd oedd bod mynediad at gymorth gofal plant a ariennir wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i gael plant. Hebddo, mae'n bosibl na fyddent wedi gallu fforddio cael plant ychwanegol. Mae'r effaith gadarnhaol ar les meddyliol a chorfforol rhieni yr un mor bwysig. Mae llai o straen oherwydd nad ydynt mwyach yn dibynnu'n drwm ar y teulu estynedig, yn cwtogi gwaith, neu'n rhoi'r gorau i weithio. Mae mwy o hyder yn ansawdd y gofal y mae plant

yn ei gael, ymddiriedaeth mewn meithrinfeydd ac ymarferwyr, a sicrwydd bod eu plant yn datblygu a gwneud cynnydd, sydd oll yn cefnogi sefydlogrwydd y teulu a lles rhieni.

> "Mae wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fi a fy nheulu, oherwydd ei fod wedi helpu i leddfu llawer o'r straen roedden ni'n mynd trwyddo, o ran gofal plant. Roedden ni'n gallu gwneud pethau eraill, y rhan fwyaf o'n gweithgareddau ein hunain sy'n fuddiol i ni." (Teulu Dechrau'n Deg)

Mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol a theuluoedd Dechrau'n Deg yn amlygu dau fudd ychwanegol: yn gyntaf, bod rhieni'n gallu ffurfio rhwydwaith cymdeithasol a chysylltu â rhieni eraill sydd â phlant o oedran tebyg. Yn ail, mae rhieni'n cael gwybodaeth am eu plant mewn gofal plant, sy'n caniatáu iddynt wella eu sgiliau magu plant a chael gwybodaeth newydd am anghenion eu plant ac, yn y pen draw, eu cefnogi mewn ffordd well.

### 3.3.2 Mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd

Roedd y ddau grŵp cyfweld o'r farn bod y gwasanaeth mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd yn cael effaith sylweddol ar blant, yn enwedig trwy adnabod anghenion yn gynnar a darparu ymyrraeth brydlon. Mae teuluoedd sy'n defnyddio Dechrau'n Deg yn adrodd bod ymwelwyr iechyd yn darparu mynediad cyflymach at ofal; derbyniodd un teulu gymorth ar yr un diwrnod ar gyfer argyfwng iechyd eu plentyn ar adeg pan oedd bron yn amhosibl cael apwyntiad meddyg. Mae ymweliadau iechyd rheolaidd yn golygu y gellir adnabod anghenion gwybyddol, corfforol, ac emosiynol plant yn gynharach, gan arwain at ganlyniadau gwell. Er enghraifft, fel yr adroddwyd gan deuluoedd, nid yw un plentyn yn teimlo'n isel mwyach, mae'n cysgu'n dda, ac mae ei ddatblygiad yn ffynnu, tra bod un arall wedi cael cymorth cynnar ar gyfer oedi posibl mewn twf.

Mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol a theuluoedd Dechrau'n Deg hefyd yn credu bod ymwelwyr iechyd yn allweddol wrth adnabod anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal ag oedi mewn datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn dweud bod integreiddio gwasanaethau cynenedigol yn gwella'r dull ataliol hwn ymhellach, gan sicrhau bod ymyriadau ar waith yn gynnar ac yn dilyn plant wrth iddynt dyfu, heb oedi diangen.

> "Budd pwysig arall yw adnabod anghenion yn gynnar. Trwy ymgysylltu â phlant cyn iddynt ddechrau'r ysgol, gellir amlygu a mynd i'r afael ag anghenion datblygiadol neu ddysgu ychwanegol posibl yn gynharach, gan wella canlyniadau a hwyluso'r pontio i addysg ffurfiol." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol a theuluoedd Dechrau'n Deg yn dweud bod cymorth gan ymwelwyr iechyd yn ddarpariaeth allweddol sy'n lleddfu straen a phwysau mewn bywyd pob dydd. Mae rhieni'n gwerthfawrogi dibynadwyedd a hyblygrwydd ymwelwyr iechyd, sy'n rhoi rhybudd cyn ymweld ac yn creu ymdeimlad o gysur yn hytrach na tharfu. I lawer, mae gwybod yn syml y gallant gysylltu unrhyw bryd gyda chwestiynau neu bryderon yn rhoi tawelwch meddwl iddynt ac yn eu hatal rhag teimlo fel methiant neu'n ynysig. Dywedodd teuluoedd sy'n defnyddio Dechrau'n Deg fod y cymorth rheolaidd hwn yr ymddiriedir ynddo'n eu helpu i wynebu heriau fel pryderon ynglŷn â chwsg, iechyd y geg, neu gerrig milltir twf, gan gynnig rhyddhad ar unwaith a hyder tymor hwy iddynt.

Roedd ymwelwyr iechyd hefyd yn cyflawni rôl weddnewidiol wrth wella sgiliau magu plant a chwalu rhwystrau rhag iechyd a gofal gwell. Mae'r ddau grŵp rhanddeiliaid yn amlygu'r cyngor ymarferol, y tawelwch meddwl, a'r wybodaeth newydd y mae ymwelwyr iechyd yn eu rhoi am ddiogelwch a gofal, yn ogystal â strategaethau ar gyfer cefnogi dysgu a thwf. Er enghraifft, mae'r gweithgareddau a gynhelir gan ymwelwyr iechyd nid yn unig yn helpu rhieni i ddatblygu sgiliau, ond hefyd yn cryfhau'r cwlwm agosrwydd gyda'u plant. Mae dysgu nid yn unig yn cynyddu hyder rhieni, ond hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i blant dyfu, rhoi cynnig ar bethau newydd, a byw bywydau iachach.

> "Mae'n ymwneud â gweithio gyda rhieni. Eu helpu nhw i fagu'r plant fel bod gennych chi'r capasiti, ond mae ganddyn nhw'r ymagwedd feithringar, sylwgar yna at y plant. Mae'n ymwneud â'r perthnasoedd yna. Ac rwy'n credu, yn y dyddiau cynnar, dyna beth mae ymweliadau iechyd dwys yn caniatáu i ni ei wneud. Mae'n caniatáu i ni gyfleu'r negeseuon a'r ddealltwriaeth yna a chefnogi'r rhieni agored iawn i niwed hynny y mae arnyn nhw angen modelau rôl ac nad ydyn nhw'n gwybod sut i wneud oherwydd does neb erioed wedi dangos iddyn nhw." (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

Trwy gysylltu teuluoedd â gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau iechyd ehangach, mae ymwelwyr iechyd yn helpu i oresgyn heriau mynediad a sicrhau bod anghenion yn cael eu bodloni'n gynharach, gan leihau tebygolrwydd ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae teuluoedd Dechrau'n Deg yn amlygu pwysigrwydd y perthnasoedd ymddiriedus, gofalgar maen nhw'n eu ffurfio gyda'u hymwelwyr iechyd, gan eu disgrifio fel gweithwyr proffesiynol sy'n gwrando, yn deall, ac yn eirioli ar eu rhan o ddifrif. Mae'r ymddiriedaeth hon, ynghyd â dull ataliol, nid yn unig yn cryfhau hyder yn y gwasanaeth, ond hefyd yn cyfrannu at gynnal sefydlogrwydd teuluol a meithrin perthnasoedd cryfach yn y cartref.

### 3.3.3 Cymorth magu plant

Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a theuluoedd Dechrau'n Deg o'r farn bod cymorth magu plant yn cael effaith gadarnhaol ar blant trwy gryfhau'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn a gwella lles cyffredinol. Mae teuluoedd sy'n defnyddio Dechrau'n Deg yn dweud bod yr arweiniad maen nhw'n ei gael wedi'u helpu i ffurfio perthynas agosach a mwy ymatebol â'u plant, sy'n arwain at ganlyniadau iechyd gwell a mwy o sefydlogrwydd emosiynol, yn eu barn nhw. Mae teuluoedd sydd â sawl plentyn yn dweud bod y gwasanaeth hefyd wedi helpu rhieni i gydbwyso sylw ar draws brodyr a chwiorydd, gan sicrhau bod pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi a'i gynnwys. Mae'r ddynameg deuluol gryfach hon nid yn unig yn gwella profiadau dyddiol plant gartref, ond hefyd yn creu amgylchedd mwy meithringar sy'n cefnogi eu twf a'u datblygiad hirdymor.

> "I mi, mae cymorth magu plant wedi cynyddu fy hyder, ac mae'n gwella fy sgiliau a'm strategaethau magu plant. Hefyd, mae'n fy helpu i hyrwyddo datblygiad fy mhlentyn, rheoli ymddygiad a ffurfio perthnasoedd cryf gyda fy mhlant. A dwi wedi sylwi ei fod wedi helpu fy mhlant hefyd. Mae wedi helpu i ffurfio perthynas gryfach rhwng y rhiant a'r plentyn, ac mae hefyd wedi helpu i wella canlyniadau iechyd fy mhlentyn." (Teulu Dechrau'n Deg)

O safbwynt yr awdurdodau lleol a’r teuluoedd Dechrau’n Deg, mae cymorth magu plant wedi cynyddu hyder rhieni, gan eu helpu i deimlo’n fwy galluog yn eu rôl. Rhoddodd y gwasanaeth brofiadau uniongyrchol iddynt a disgwyliadau realistig o ran ymddygiad eu plentyn, ynghyd â strategaethau ymarferol fel gosod ffiniau a defnyddio technegau tawelu. Mae’r arweiniad a roddwyd wedi bod yn amhrisiadwy i rieni newydd yn arbennig, gan roi tawelwch meddwl iddynt a’r wybodaeth i gefnogi datblygiad eu plant. Wrth i amser fynd heibio, mae’r sgiliau hyn wedi arwain at welliannau hirdymor, ac mae teuluoedd yn dweud eu bod yn teimlo’n fwy hyderus wrth ymateb i heriau ac yn gallu darparu gofal cyson. Amlygwyd hefyd bod y gwasanaeth yn annog mwy o ymgysylltiad gan dadau. Fodd bynnag, ar yr un pryd, er bod cynnydd wedi’i wneud, roedd teuluoedd yn credu bod lle i dadau gymryd rhan yn fwy sylweddol o hyd.

> “Mae wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Roedd popeth yn ddiymdrech, roedd popeth yn rhwydd, roedd yn dda a’r ffaith bod y sesiwn un i un, y sgyrsiau a’r anogaeth yno i chi. Felly, mae’n fwy fel petaen nhw’n eich cyfarwyddo chi fel nad ydych chi’n gwneud camgymeriadau penodol.” (Teulu Dechrau’n Deg)

Effaith gadarnhaol arall a grybwyllwyd yw bod y gwasanaeth wedi helpu i gryfhau perthnasoedd teuluol a gwella lles cyffredinol. Disgrifiodd teuluoedd sut oedd sesiynau grŵp a dosbarthiadau magu plant wedi eu hannog i fyfyrio ar berthnasoedd yr aelwyd, darparu strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad ac anghenion emosiynol plant, a chreu lle i rannu heriau gyda chymheiriaid a staff Dechrau’n Deg. Roedd un tad, er enghraifft, yn credu y bu’r rhaglen yn allweddol i’w helpu i addasu a chyfrannu mwy gartref. Heb y cymorth hwn, roedd llawer o deuluoedd yn credu y byddent wedi bod yn fwy ynysig, yn llai hyderus, ac yn methu ymdopi.

Yn ogystal, pwysleisiodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a theuluoedd y rhyddhad y mae’r gwasanaeth yn ei roi trwy leihau straen a chynnig amgylchedd diogel, cefnogol. Mae grwpiau magu plant, sesiynau therapi, a rhwydweithiau cymheiriaid nid yn unig yn darparu gofal a chyngor ymarferol, ond hefyd yn helpu rhieni i ddatblygu dulliau ymdopi, gwneud ffrindiau, a ffurfio cysylltiadau cymdeithasol. Mae’r cyfuniad hwn o arweiniad a chymorth yn gwneud teuluoedd yn fwy gwydn, mewn gwell sefyllfa i reoli anawsterau, ac yn llai tebygol o deimlo wedi’u llethu neu’n unig.

> “Un o fuddion cymdeithasol mawr Dechrau’n Deg yn y meysydd craidd yw ei rôl wrth feithrin cysylltiadau cymunedol. Mewn cymunedau Dechrau’n Deg traddodiadol, mae teuluoedd yn aml yn ffurfio perthnasoedd cryf yn gynharach o lawer ym mywyd eu plentyn.” (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

### 3.3.4 Datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu

Mae’r cymorth datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi cael effaith weddnewidiol ar ddatblygiad plant, yn enwedig trwy adnabod anghenion lleferydd ac iaith yn gynnar. Amlygodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a theuluoedd sy’n defnyddio Dechrau’n Deg fod y gwasanaeth ieithyddol yn helpu plant i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu yn gynharach mewn bywyd, a bod llawer yn cael cymorth yn iau ac yn dangos cynnydd yn gynt. Er enghraifft,

disgrifiodd teuluoedd blant yn datblygu o fod yn ddi-eiriau i ffurfio brawddegau cyflawn, ar yr un pryd â gwella eu geirfa, eu hynganiad, a’u heglurder cyfathrebu.

Mae’r cynnydd hwn mewn lleferydd a chyfathrebu wedi cryfhau perthnasoedd a bywyd teuluol hefyd. Mae teuluoedd Dechrau’n Deg yn dweud ei bod bellach yn haws deall eu plant, sy’n lleihau straen a rhwystredigaeth gartref ac yn caniatáu ar gyfer rhyngweithiadau mwy ystyrlon. Lle’r oedd rhwystrau cyfathrebu’n creu heriau yn flaenorol, gall plant bellach fynegi eu hanghenion, eu hemosiynau, a’u dewisiadau’n glir, sy’n helpu rhieni i ymateb yn hyderus. Mae’r newidiadau hyn wedi gwella’r cwlwm agosrwydd cyffredinol rhwng y rhiant a’r plentyn, yn ogystal â pherthnasoedd rhwng brodyr a chwiorydd, gan ganiatáu i blant chwarae, rhannu, a chysylltu â’u brodyr a’u chwiorydd.

Mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, mae teuluoedd Dechrau’n Deg wedi sylwi bod plant a arferai aros yn dawel neu ar eu pen eu hunain bellach yn gallu rhyngweithio mwy â’u cyfoedion, ymuno â chwarae, a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau grŵp. Mae’r gwasanaeth wedi galluogi plant i ddewis sut i ymgysylltu ag eraill, sydd wedi bod yn weddnewidiol yn ôl rhieni. Mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn credu bod y gwasanaeth nid yn unig yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, ond hefyd yn eu paratoi’n fwy effeithiol ar gyfer yr ysgol, gan roi’r annibyniaeth a’r gwydnwch iddynt sy’n angenrheidiol ar gyfer addysg ffurfiol.

> “Mae cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn hollbwysig ac mae’n cael effaith hirdymor ar eu haddysg a’u cyflogaeth yn y dyfodol, ac yn y blaen. Mae targedu hynny yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol.” (Cynrychiolydd awdurdod lleol)

O ran ei effaith ar y teuluoedd, mae’r cymorth wedi lleddfu straen a rhoi’r hyder iddynt gefnogi twf eu plant. Soniodd teuluoedd Dechrau’n Deg am y tawelwch meddwl sy’n dod yn sgil gwybod bod eu plentyn yn cael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi’i dargedu mewn amgylchedd meithringar cyn dechrau’r ysgol, a’r rhyddhad yr oeddent yn ei deimlo wrth ddechrau gweld gwelliant amlwg yn sgiliau cyfathrebu ac ieithyddol eu plentyn. Mae cynrychiolwyr awdurdodau lleol a theuluoedd Dechrau’n Deg yn pwysleisio bod y gwasanaeth yn rhoi offer a strategaethau ymarferol i rieni er mwyn iddynt gefnogi dysgu iaith gartref, gan ddangos sut i sgaffaldio datblygiad ieithyddol eu plant ac mai nhw eu hunain yw eiriolwr gorau eu plentyn.

Roedd rhieni’n teimlo’n hyderus, a’u bod wedi’u grymuso ac yn gallu cyfathrebu’n well â’u plant, a oedd yn lleihau rhwystredigaethau dyddiol a’u galluogi i ymateb yn fwy effeithiol i anghenion eu plentyn. Roedd y gwasanaeth wedi helpu rhieni i sylweddoli bod ganddynt yr offer iawn i helpu eu plentyn i ffynnu. Roedd y gwelliannau hyn mewn cyfathrebu hefyd yn cryfhau perthnasoedd teuluol. Dywedodd rhieni a arferai deimlo bod rhwystr rhyngddyn nhw â’u plant eu bod nhw’n gallu deall ei gilydd o’r diwedd, a bod hyn yn creu perthnasoedd cryfach ac yn gwella bywyd teuluol, yn y pen draw.

> “Mae wastad wedi bod yn anodd cyfathrebu â’m plant. Ond, mae hynny’n haws o lawer nawr. Mae wedi gwella, rydyn ni’n cyfathrebu’n rhydd, ac rydyn ni’n gallu deall ein hunain yn haws ac yn well o lawer. Felly, mae hynny wedi bod yn wych.” (Teulu Dechrau’n Deg)

### 3.3.5 Edrych tuag at y dyfodol: Effeithiau Dechrau'n Deg ar deuluoedd yn y dyfodol

Wrth edrych tuag at y dyfodol, rhannodd teuluoedd Dechrau'n Deg ystod eang o obeithion ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac roedd llawer ohonynt yn canolbwyntio ar welliannau i'r gwasanaethau eu hunain. Pwysleisiodd rhieni fod angen mwy o hygyrchedd i deulueodd sy'n gweithio, mwy o adnoddau Cymraeg, a bod angen ymestyn yr oedran cymwys fel bod plant yn gallu elwa o gymorth yn gynharach (cyn 2 oed) ac yn hwyrach, y tu hwnt i 4 oed. Roedd gwella cyfathrebu'n thema gyson hefyd, wrth i deuluoedd ofyn am wybodaeth fwy eglur am y lleoedd gofal plant sydd ar gael, diweddariadau rheolaidd ar gynnydd eu plant, a chyfeiriadau gwell at grwpiau arbenigol, fel y rhai hynny sy'n cynnig cymorth awtistiaeth neu anghenion dysgu ychwanegol.

Mae teuluoedd yn dweud bod angen ehangu'r gwasanaethau i fwy o ardaloedd. Er enghraifft, dywedwyd bod mynediad at y rhaglen yn ffactor allweddol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â thai. Esboniodd rhieni fod argaeledd Dechrau'n Deg yn dylanwadu ar eu penderfyniad ynglŷn â ble i fyw, a bod rhai wedi dewis peidio â symud i ardaloedd nad ydynt yn rhan o Ddechrau'n Deg er mwyn aros o fewn ardal y rhaglen. Mae teuluoedd hefyd yn disgwyl, trwy ehangu, y bydd y rhaglen yn parhau i chwalu rhwystrau rhag cyfleoedd iechyd a gwaith. Pwysleisiwyd bod cost uchel gofal plant yn atal rhieni, ac yn enwedig mamau, rhag dychwelyd i'r gwaith, gan fod y ffioedd yn gallu bod yn fwy na'u henillion.

Ar yr un pryd, myfyriodd teuluoedd ar y newidiadau maen nhw'n gobeithio eu gweld yn eu haelwydydd. Soniwyd am leihau straen a gorbryder, iddyn nhw a'u plant. Er enghraifft, rheoli heriau dydd i ddydd yn well, neu helpu plant i deimlo'n hyderus ac yn llai pryderus am adael y tŷ neu fynd i ofal plant. Disgrifiodd teuluoedd ddyheadau am gysylltiadau teuluol cryfach, gyda chyfathrebu agosach rhwng partneriaid, mwy o amser gyda phlant, a pherthynas well rhwng y rhiant a'r plentyn. Roedd rhai rhieni hefyd eisiau datblygu eu sgiliau eu hunain, gan gynyddu eu hyder wrth fagu plant, a chryfhau eu gallu i lywio beichiogrwydd, anabledd, neu heriau eraill yn wybodus ac yn wydn.

Yn olaf, mynegodd teuluoedd obeithion uchel ynglŷn â datblygiad, iaith, a dysgu plant. Roedd llawer yn gobeithio gweld cynnydd parhaus mewn lleferydd a chyfathrebu, gan gynnwys sgiliau Cymraeg, ochr yn ochr â gwelliannau ehangach i ryngweithio cymdeithasol, hyder, a pharodrwydd academaidd. Roedd rhieni hefyd yn awyddus i'w plant wneud ffrindiau â'u cyfoedion tra'u bod yn parhau i dyfu'n unigolion hapus, hyderus, a chyflawn.

### 3.3.6 Teuluoedd cymharu

Adroddodd teuluoedd nad ydynt wedi defnyddio Dechrau'n Deg ond sydd wedi ymgysylltu â rhaglenni neu wasanaethau eraill tebyg eu bod wedi profi cymysgedd o fuddion a bylchau mewn cymorth. Roedd rhai o'r gwasanaethau yr oeddent wedi'u defnyddio yn cynnwys gofal cynenedigol, gofal plant y telir amdano mewn meithrinfa, darpariaeth iaith Saesneg, therapi iaith, a rhaglenni seiliedig ar chwarae a gynhelir gan ganolfannau i deuluoedd neu elusennau lleol. Ar yr ochr gadarnhaol, mae teuluoedd cymharu'n dweud bod y gwasanaethau hyn wedi rhoi arweiniad iddynt ar reoli ymddygiad ac emosiynau eu plant, a'u gallu i ffurfio cwlwm agosrwydd â nhw, a oedd wedi'u helpu i deimlo'n fwy hyderus wrth

fagu plant. Maen nhw hefyd yn adrodd am gyfleoedd i gysylltu â rhieni eraill a ffurfio rhwydwaith o gymorth gan gymheiriaid i leddfu straen neu gael cyngor. Amlygodd teuluoedd cymharu bwysigrwydd elfennau diwylliannol ac ieithyddol, gan ddweud bod cymorth i gynnal dwyieithrwydd yn arwyddocaol i hunaniaeth a datblygiad eu plant.

Ar yr un pryd, disgrifiodd teuluoedd cymharu heriau a chyfyngiadau sylweddol o ran y cymorth sydd ar gael y tu allan i Ddechrau'n Deg. Roedd cost uchel gofal plant yn bryder cyson, a phwysleisiodd rhieni y byddai darpariaeth fforddiadwy wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w lles a'u sefydlogrwydd ariannol. Roedd mynediad cyfyngedig at feithrinfeydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a diffyg cynlluniau chwarae cymorthdaledig yn ystod gwyliau'r ysgol yn creu pwysau ychwanegol, yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw.

Yn ogystal, tynnodd teuluoedd sylw at fylchau mewn cymorth iechyd a lles, gan bwysleisio'r angen am wasanaethau mwy hygyrch ac wedi'u teilwra sy'n ymestyn y tu hwnt i ymwelwyr iechyd. Amlygwyd rhwystrau cyfathrebu, yn enwedig ymhlith teuluoedd y mae'r Saesneg yn ail iaith iddynt. Hefyd, roedd tadau'n aml yn ymwneud llai â gweithgareddau magu plant, ac awgrymodd teuluoedd y byddai mwy o gyfleoedd wedi'u targedu at ymgysylltu â thadau wedi bod yn werthfawr.

Ochr yn ochr â'r heriau hyn, mynegodd teuluoedd cymharu hefyd ddisgwyliadau clir ynglŷn â sut gallai gwasanaethau cymorth ychwanegol eu helpu. Mae teuluoedd yn credu y gall mynediad at gymorth ychwanegol leddfu eu straen. Yn ogystal, amlygwyd buddion posibl gwella sgiliau a gwybodaeth magu plant, yn enwedig o ran ymdopi ag anghenion mwy cymhleth, a chysylltu'n fwy â'u plentyn. Er enghraifft, esboniodd un rhiant nad oedd ef a'i wraig yn gwybod pwy i gysylltu â nhw a sut i gael cymorth ar gyfer diagnosis awtistiaeth eu mab, ac y gallai gwasanaethau fel Dechrau'n Deg fod wedi rhoi arweiniad a hyder yr oedd mawr angen amdanynt i reoli'r daith hon. Pwysleisiodd teuluoedd cymharu y byddai mwy o anogaeth a chyfathrebu wedi'i dargedu yn gwneud gwahaniaeth, gan fod rhai rhieni'n tueddu i guddio eu heriau rhag ofn y bydd pobl yn credu nad ydynt yn gallu gofal am eu plant.

> "Mae angen mwy o anogaeth ar rieni […]. Dydyn nhw ddim eisiau edrych fel nad ydyn nhw'n gallu rhoi'r math o ofal y dylen nhw i'w plant, sy'n anghywir. Felly, dyna un o'r pethau mawr rydw i wedi sylwi arnyn nhw wrth weithio gyda chynifer o bobl yn y rhwydwaith [cymunedol] hwn. Rydw i wedi gweld bod ganddyn nhw lawer iawn o heriau, ond eu bod nhw'n amharod i ofyn am gymorth gan y llywodraeth. Felly, yn gyntaf, mae angen i ni gael digon o wybodaeth am y cymorth." (Teulu cymharu)

# 4. Casgliadau

Un o raglenni blaenllaw Llywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg a luniwyd i leihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau datblygiadol i blant ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, gan gynnig pecyn o ofal plant rhan-amser wedi'i ariannu, mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd, cymorth magu plant, a datblygu lleferydd, iaith, a chyfathrebu. Mae'r rhaglen wedi ehangu, ac yn parhau i ehangu, trwy sawl cam i gyrraedd mwy o blant a theuluoedd ledled Cymru.

Roedd y gwerthusiad ansoddol hwn, sef rhan gyntaf astudiaeth dulliau cymysg, wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yng Ngymru, teuluoedd Dechrau'n Deg, a theuluoedd cymharu i archwilio sut mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno, a'i heffaith, ledled Cymru. Defnyddiodd yr asesiad safbwyntiau a phrofiadau amrywiol i ddarparu dealltwriaeth gadarn a chytbwys o sut mae Dechrau'n Deg yn cael ei gweithredu a'i derbyn.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod Dechrau'n Deg yn gwneud gwahaniaeth pendant i deuluoedd a phlant ledled Cymru. Adroddodd rhieni'n gyson fod y ddarpariaeth gofal plant wedi gwella sgiliau cymdeithasu eu plant, eu hannibyniaeth, a'u parodrwydd ar gyfer yr ysgol, ar yr un pryd â chynyddu hyder mewn sgiliau iaith Gymraeg a Saesneg. Nododd llawer newidiadau cadarnhaol i leferydd a chyfathrebu, wrth i blant ddod yn fwy mynegiadol ac ymgysylltiedig ac, mewn rhai achosion, goresgyn oedi datblygiadol cynnar. Ystyriwyd bod mwy o gymorth gan ymwelwyr iechyd yn rhoi tawelwch meddwl ac arweiniad proffesiynol yr ymddiriedir ynddo, ac roedd teuluoedd yn arbennig o ddiolchgar am y dilyniant a ddaw yn sgil cysylltiad rheolaidd a'r ymdeimlad bod pobl yn gwrando ar bryderon ac yn gweithredu arnynt. Dywedwyd bod cymorth magu plant yn gwneud i rieni deimlo'n llai ynysig, gan gynnig cyngor ymarferol ac anogaeth emosiynol, a'u helpu i deimlo'n fwy hyderus yn eu rôl.

Yn aml, soniodd teuluoedd am welliannau i'w lles nhw eu hunain, gan gynnwys llai o straen, mwy o wydnwch, a pherthnasoedd cryfach â'u plant. Cadarnhaodd awdurdodau lleol y buddion hyn, gan amlygu rôl y rhaglen wrth nodi anghenion ychwanegol yn gynnar, gan alluogi atgyfeiriadau prydlon, a chryfhau cydweithio amlasiantaethol o amgylch y teulu. Yn bwysig, roedd teuluoedd hefyd yn gwerthfawrogi'r cymorth ariannol a ddarperir gan ofal plant a ariennir a'r cyfle yr oedd hyn yn ei greu i ddychwelyd i weithio, astudio, neu ganolbwyntio ar blant iau.

Ar yr un pryd, mae'r ymchwil yn pwysleisio rhwystrau a heriau gweithredol sy'n cyfyngu ar fynediad teg a darpariaeth gyson. Amlygwyd bod prinder staff gofal plant ac ymwelwyr iechyd, ynghyd â phwysau cyllido, yn rhwystrau sylweddol rhag cynnal ac ehangu'r rhaglen. Cyfeiriodd teuluoedd ac awdurdodau lleol at restrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau, cyfyngiadau ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac arbenigol, ac anawsterau mewn ardaloedd gwledig lle mae pellter a thrafnidiaeth yn gallu cyfyngu ar ymgysylltiad. Roedd diffyg eglurder ynglŷn â chymhwysedd a sut i lywio'r system yn creu trafferth i rai rhieni, tra disgrifiodd eraill heriau wrth geisio cydbwyso mynediad at gymorth Dechrau'n Deg â chyflogaeth, sy'n adlewyrchu'r angen am fwy o hyblygrwydd i fodloni anghenion teuluoedd sy'n gweithio. Cyfeiriwyd hefyd at heriau yn ymwneud â chynnal ansawdd yn ystod camau ehangu a sicrhau

bod cyfathrebu â theuluoedd yn eglur, yn enwedig pan fydd elfennau yn unig o'r rhaglen yn cael eu hehangu.

O'i hystyried gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod Dechrau'n Deg yn cyflawni ei hamcanion canolog, sef cefnogi datblygiad plant a lleihau anfantais, ond mae hefyd yn amlygu meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynhwysol, yn gynaliadwy, ac yn ymatebol i anghenion sy'n newid. Daw'r casgliadau hyn yn syth o'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd mewn cyfweliadau a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid a theuluoedd, ac fe'u dadansoddwyd yn unol â'r nodau a amlinellwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn. Mae'r ymchwil yn dangos y llwyddiannau a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chyflwyno Dechrau'n Deg ar raddfa fawr, gan gyfleu gwirioneddau darparu ac ymgysylltu wrth i'r rhaglen barhau i ehangu ei chyrhaeddiad. Mae'r wybodaeth hon yn darparu sylfaen gref ar gyfer yr asesiad meintiol sydd i ddod ac yn rhoi llinell sylfaen ar gyfer y ddwy don nesaf o waith maes ansoddol hydredol gyda theuluoedd a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bydd hyn yn helpu i arwain penderfyniadau polisi strategol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod Dechrau'n Deg yn parhau i fynd i'r afael ag anghenion plant a theuluoedd yn effeithiol.

# 5. Atodiad A

Mae’r tabl isod yn amlinellu’r categorïau a samplwyd, gan gynnwys ein targedau ar gyfer pob un a’r sampl a gyrhaeddwyd.

**Tabl 1: Nodweddion demograffig teuluoedd a samplwyd ar gyfer cyfweliadau ar gyfer blwyddyn 1 o waith maes Gwerthusiad Cenedlaethol Dechrau'n Deg, Mehefin 2025 i Awst 2025** [troednodyn 5]

| Categori | Cynrychiolaeth gan | Targed blwyddyn 1 | Sampl a gyrhaeddwyd |
|---|---|---:|---:|
| Ymgysylltu â’r rhaglen | Gofal plant | 10 | 40 |
| Ymgysylltu â’r rhaglen | Ymwelydd iechyd | 10 | 23 |
| Ymgysylltu â’r rhaglen | Cymorth magu plant | 10 | 35 |
| Ymgysylltu â’r rhaglen | Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu | 10 | 22 |
| Lefel defnydd o’r gwasanaeth | ‘Dwys’ | 10 | 15 |
| Lefel defnydd o’r gwasanaeth | ‘Canolig’ | 10 | 27 |
| Lefel defnydd o’r gwasanaeth | ‘Ysgafn’ | 10 | 20 |
| Cymhwysedd ar gyfer Dechrau’n Deg | Teuluoedd lle mae’r plentyn ieuengaf yn 30 mis oed neu iau | 45 | 53 |
| Gwasgariad daearyddol | Canolbarth a Gorllewin Cymru | 5 | 9 |
| Gwasgariad daearyddol | Gogledd Cymru | 5 | 20 |
| Gwasgariad daearyddol | Canol De Cymru | 5 | 14 |
| Gwasgariad daearyddol | Dwyrain De Cymru | 5 | 11 |
| Gwasgariad daearyddol | Gorllewin De Cymru | 5 | 9 |
| Natur wledig | Gwledig | 20 | 32 |
| Natur wledig | Trefol | Dim targed | 28 |
| Oedran rhieni | Rhiant 19 oed neu iau | 10 | 0 |
| Iaith | Teuluoedd sy’n siarad Cymraeg | 10 | 4 |
| Iaith | Saesneg fel ail iaith | 5 | 1 |
| Anghenion ychwanegol | Teuluoedd sydd â phlant y mae ganddynt ddiagnosis o anghenion ychwanegol | 2 | 6 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anghenion ychwanegol | Teuluoedd sydd â phlant yr amheuir bod ganddynt anghenion ychwanegol | 5 | 9 |
| Anghenion ychwanegol | Teuluoedd lle mae gan y rhieni anghenion ychwanegol | 5 | 10 |
| Ethnigrwydd | Teuluoedd nad ydynt yn Wyn Prydeinig neu'n Wyn Cymreig | 5 | 40 |

Ffynhonnell: ffurflen mynegiant diddordeb a ddefnyddiwyd i recriwtio teuluoedd i waith maes ar gyfer Gwerthusiad Cenedlaethol Dechrau'n Deg.

Disgrifiad o Tabl 1: nodweddion demograffig teuluoedd a samplwyd ar gyfer cyfweliadau ar gyfer blwyddyn 1 o waith maes Gwerthusiad Cenedlaethol Dechrau'n Deg.

Troednodiadau

[5] Nododd 3 o'r 32 aelwyd a samplwyd mewn ardaloedd gwledig N/A ar gyfer y categori hwn ar y ffurflen mynegi diddordeb